



Home Office

# **Deddf Yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE)**

---

## **COD D**

### **Cod ymarfer**

#### **Cod ymarfer ar gyfer adnabod pobl gan swyddogion yr heddlu**

Tachwedd 2016

Llundain: TSO

© Hawlfraint y Goron 2017

Cedwir pob hawl.

Gallwch aildefnyddio'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.o. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3> neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, Richmond, Surrey TW9 4DU; neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

ISBN 978 011 341403 1



DEDDF YR HEDDLU A THYSTIOLAETH DROSEDDOL 1984

COD D

COD YMARFER

COD YMARFER AR GYFER ADNABOD POBL  
GAN SWYDDOGION YR HEDDLU

**Cychwyniad - Trefniadau Trosiannol**

Mae'r cod hwn yn effeithiol parthed unrhyw weithdrefn adnabod a gyflawnir wedi 00:00 ar 23 Chwefror 2017.

**Cynnwys**

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>4</b>
	<i>Nodyn Arweiniad</i> .....	<b>5</b>
<b>2</b>	<b>Cyffredinol</b> .....	<b>6</b>
	<i>Nodiadau arweiniad</i> .....	<b>9</b>
<b>3</b>	<b>Nodi ac adnabod rhai a amheuir</b> .....	<b>10</b>
	Rhan (A) Adnabod sawl a amheuir gan lygad-dyst .....	10
	(a) Achosion pan nad yw'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth .....	10
	(b) Achosion pryd mae'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth a phan fydd ar gael .....	11
	Trefnu gweithdrefnau adnabod gan lygad-dyst– dyletswyddau swyddog adnabod.....	12
	Dewis gweithdrefn adnabod gan lygad-dyst .....	13
	Hysbysiad i sawl sydd dan amheuaeth .....	14
	(c) Achosion pryd mae'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth ond nid yw ar gael	15
	(d) Dogfennaeth .....	15
	(e) Heb ei ddefnyddio .....	15
	(f) Difrodi neu gadw ffotograffau a gymerwyd neu a ddefnyddiwyd mewn dulliau adnabod.	15
	Rhan (B) Adnabod trwy dangos ffilmau, lluniau a delweddau <u>dan reolaeth</u> .....	16
	Rhan (C) Adnabod trwy wyllo ffilmau, lluniau a delweddau <u>heb reolaeth</u> .....	17
	<i>Nodiadau arweiniad</i> .....	<b>18</b>
<b>4</b>	<b>Adnabod trwy olion bysedd ac olion esgidiau</b> .....	<b>20</b>
	(A) Cymryd olion bysedd mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol .....	20
	(a) Cyffredinol .....	20
	(b) Gweithredu .....	20
	(c) Dogfennaeth .....	22
	(B) Heb ei ddefnyddio .....	23
	(C) Cymryd olion esgidiau mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol .....	23
	(a) Gweithredu .....	23
	(b) Dogfennaeth .....	23
	<i>Nodiadau arweiniad</i> .....	<b>23</b>
<b>5</b>	<b>Archwiliadau i sefydlu pwy yw person a thynnu lluniau</b> .....	<b>25</b>
	(A) Rhai a gedwir mewn gorsafoedd heddlu .....	25
	(a) Chwilio neu archwilio rhai sy'n cael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu .....	25
	(b) Tynnu lluniau o rai sy'n cael eu cadw mewn swyddfeydd heddlu a phobl eraill mewn manau ar wahân i orsaf heddlu.....	25
	(c) Gwybodaeth sydd i'w rhoi .....	26
	(d) Dogfennaeth .....	27
	(B) Personau mewn swyddfeydd heddlu nad ydynt yn cael eu cadw .....	27
	<i>Nodiadau arweiniad</i> .....	<b>28</b>
<b>6</b>	<b>Adnabod trwy samplau corfforol ac olion</b> .....	<b>30</b>
	(A) Cyffredinol .....	30
	(B) Gweithredu .....	30
	(a) Samplau personol .....	30
	(b) Samplau amhersonol .....	31
	(c) Diosg dillad .....	33

(c) Dogfennaeth.....	33
<b>Nodiadau arweiniad.....</b>	<b>34</b>
<b>ATODIAD A  ADNABOD TRWY FIDEO.....</b>	<b>35</b>
(a) Cyffredinol.....	35
(b) Cynnal yr adnabod trwy fideo.....	36
(c) Diogelwch a dinistrio delweddau.....	37
(d) Dogfennaeth.....	37
<b>Nodyn arweiniad.....</b>	<b>37</b>
<b>ATODIAD B  RHESI ADNABOD.....</b>	<b>38</b>
(a) Cyffredinol.....	38
(b) Rhesi adnabod sy'n cynnwys carcharorion.....	38
(c) Cynnal y rhes adnabod.....	38
(d) Dogfennaeth.....	40
<b>ATODIAD C  ADNABOD MEWN GRŴP.....</b>	<b>41</b>
(a) Cyffredinol.....	41
(b) Adnabod heb ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth.....	42
Grŵp sy'n symud.....	42
Grwpiau llonydd.....	42
Pob achos.....	43
(c) Adnabod heb ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth.....	43
(d) Adnabod mewn gorsafoedd heddlu.....	43
(e) Adnabod sy'n cynnwys carcharorion.....	43
(f) Dogfennaeth.....	43
<b>ATODIAD D  CYFWYNEBIAD GAN DYST.....</b>	<b>45</b>
<b>ATODIAD E  DANGOS LLUNIAU I DYSTION.....</b>	<b>46</b>
(a) Gweithredu.....	46
(b) Dogfennaeth.....	46
<b>ATODIAD F  OLION BYSEDD, OLION ESGIDIAU A SAMPLAU – DINISTRIO A CHWILIADAU DYFALIADOL.....</b>	<b>47</b>
Rhan A: Olion bysedd a samplau.....	47
Samplau DNA.....	47
Proffiliau DNA ac olion bysedd.....	47
Cyfnodau Dargadw: Olion bysedd a phroffiliau DNA.....	47
Tabl – Cyfnodau dargadw.....	47
Nodiadau Tabl:.....	48
Chwiliadau dyfaliadol.....	48
Estyniadau i'r cyfnod dargadw.....	49
Rhan B: Olion esgidiau.....	49
Rhan C: Olion bysedd, olion esgidiau a samplau a gymerir mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol gan berson <b>nad yw dan amheuaeth</b> o gyflawni'r drosedd dan ymchwiliad i ddibenion dilead.....	49
<b>Nodiadau arweiniad.....</b>	<b>50</b>
<b>ATODIAD G  GOFYNIAD I BERSON FYNYCHU GORSAF HEDDLU AR GYFER OLION BYSEDD A SAMPLAU (PARAGRAFFAU 4.4, 6.2A A 6.6A).....</b>	<b>51</b>
<b>Nodiadau arweiniad.....</b>	<b>51</b>

## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Cod Ymarfer hwn yn ymwneud â'r prif ddulliau a ddefnyddir gan yr heddlu i adnabod pobl mewn cysylltiad ag ymchwiliadau i droseddau a chadw cofnodion troseddol sy'n gywir a dibynadwy. Rhaid defnyddio'r pwerau a gweithdrefnau yn y cod hwn yn deg, yn gyfrifol, gyda pharch tuag at y bobl y maent yn berthnasol iddynt a heb wahaniaethu anghyfreithlon. Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, adran 149 (Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus), rhaid i heddluoedd, wrth gyflawni eu swyddogaethau dalu sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiadau eraill a waherddir o dan y Ddeddf, i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r sawl nad ydynt, a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rheiny nad ydynt. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i swyddogion yr heddlu wahaniaethu yn erbyn, aflonyddu neu erlid unrhyw unigolyn ar sail 'nodweddion gwarchoddedig' oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth wrth ddefnyddio eu pwerau. [Gweler Nodyn 1A.](#)
- 1.2 Yn y Cod hwn, mae adnabod gan lygad-dystion yn codi os yw tyst sydd wedi gweld y troseddwr yn cyflawni trosedd a chael cyfle i nodi person a amheuir o gymryd rhan yn y drosedd trwy adnabod ar fideo, rhes adnabod neu ddull cyffelyb. Bwriad y gweithdrefnau adnabod gan lygad-dyst a sefydlir yn [Rhan A](#) adran 3 isod yw:
- profi gallu'r llygad-dyst i adnabod y person a welodd ar achlysur blaenorol
  - darparu mesurau diogelwch rhag camadnabod.
- Tra bo'r Cod hwn yn canolbwyntio ar weithdrefnau adnabod gweledol, nid yw'n rhwystro'r heddlu rhag defnyddio gweithdrefnau adnabod sain megis "rhes adnabod llais", lle bernir bod hynny'n briodol. [Gweler Nodyn 1B.](#)
- 1.2A Yn y Cod hwn, mae darpariaethau unigol yn [Rhan B](#) adran 3 isod yn berthnasol pan ofynnir i unrhyw berson, yn cynnwys swyddog yr heddlu, a yw'n adnabod unrhyw un mae'n ei weld mewn delwedd fel rhywun y mae'n ei adnabod ac i brofi ei honiad ei fod yn adnabod y person hwnnw. Nid yw'r darpariaethau unigol hyn yn amodol i'r gweithdrefnau adnabod gan lygad-dyst a ddisgrifir ym [mharagraff 1.2.](#)
- 1.2B Mae [Rhan C](#) yn berthnasol pan fydd ffilm, llun neu ddelwedd yn ymwneud â'r drosedd neu unrhyw ddisgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei ddarlledu neu gyhoeddi mewn unrhyw gyfryngau cenedlaethol neu leol neu ar unrhyw safleoedd rhwydweithio cymdeithasol neu ar unrhyw systemau cyfathrebu'r heddlu yn lleol neu'n genedlaethol.
- 1.3 Mae adnabod trwy olion bysedd yn berthnasol pan fo olion bysedd person yn cael eu cymryd i:
- gymharu ag olion bysedd a ganfuwyd ar safle'r drosedd
  - gwirio a phrofi dedfrydau
  - cynorthwyo i ganfod pwy yw person.
- 1.3A Mae adnabod trwy ddefnyddio olion esgidiau yn berthnasol pan gymerir olion esgidiau person i gymharu gydag olion a ganfuwyd ar safle'r drosedd.
- 1.4 Mae adnabod trwy samplau corfforol ac olion yn golygu cymryd samplau megis swab boch, gwallt neu waed i greu profil DNA i'w gymharu â deunyddiau a gafwyd ar safle'r drosedd, neu ar ddiodefwr.
- 1.5 Mae tynnu llun o bobl a arestiwyd yn berthnasol i gofnodi a gwirio enwau a lleoli ac olrhain pobl sy'n:
- cael eu hamau o gyflawni troseddau
  - torri mechnïaeth.
- 1.6 Mae dull arall o adnabod yn golygu chwilio ac archwilio'r sawl sy'n cael ei gadw, e.e. ar gyfer marcïau megis tatws neu greithiau a all fod o gymorth i sefydlu ei hunaniaeth neu ganfod a yw wedi cyflawni trosedd.

- 1.7 Bwriad darpariaethau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) a'r Cod hwn yw sicrhau fod olion bysedd, samplau, olion a ffotograffau'n cael eu cymryd, eu defnyddio a'u cadw, a bod dulliau adnabod yn cael eu defnyddio dim ond pan ellir eu cyfiawnhau a'u bod yn angenrheidiol i atal, canfod neu archwilio trosedd. Os na chedwir at y darpariaethau hyn, fe all y defnydd o'r gweithdrefnau perthnasol mewn achosion arbennig ddod dan amheuaeth.
- 1.8 Nid yw darpariaethau'r Cod hwn yn awdurdodi, nac yn caniatáu fel arall, i olion bysedd neu samplau gael eu cymryd gan berson sydd wedi ei gadw dim ond i ddibenion asesiad dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

#### **Nodyn Arweiniad**

- 1A *Ym mharagraff 1.1, dan Ddeddf Cydraddoldeb 1949, adran 149, y 'nodweddion gwarchoddedig perthnasol' yw oed, anabled, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Am ragor o arweiniad a chyngor manwl ar y Ddeddf Cydraddoldeb, gweler: <https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance>.*
- 1B *Gweler [Cylchlythyr y Swyddfa Gartref 57/2003](#) "Cyngor ar ddefnyddio rhesi adnabod llais".*

## 2 Cyffredinol

- 2.1 Mae'n rhaid i'r Cod fod ar gael yn hwylus ym mhob swyddfa'r heddlu ar gyfer dibenion ymgynghori gan:
- swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu
  - pobl yn y ddalfa
  - y cyhoedd
- 2.2 Mae darpariaethau'r Cod yma:
- yn cynnwys yr Atodiadau
  - ond nid ydynt yn cynnwys y Nodiadau arweiniad.
- 2.3 Mae Cod C, paragraff 1.4 a'r Nodiadau arweiniad sy'n berthnasol i'r darpariaethau hynny yn berthnasol i'r Cod hwn parthed person a all fod yn dioddef anhwylder meddwl neu fel arall yn agored i niwed yn feddyliol.
- 2.4 Mae Cod C, paragraffau 1.5 ac 1.5A a'r Nodiadau arweiniad sy'n berthnasol i'r darpariaethau hynny yn berthnasol i'r Cod hwn parthed person sy'n ymddangos ei fod o dan 18 oed.
- 2.5 Mae Cod C, paragraff 1.6, sy'n ymwneud â pherson sy'n ymddangos i fod yn ddall, â nam difrifol ar ei olwg, yn fyddar, yn methu â darllen neu siarad neu ei fod yn cael trafferth cyfathrebu ar lafar oherwydd nam ar ei leferydd yn berthnasol i'r Cod hwn.
- 2.6 Yn y Cod hwn:
- mae 'oedolyn priodol' yn golygu'r un fath ag yng Nghod C, *paragraff 1.7*
  - mae 'cyfreithiwr' yn golygu'r un fath ag yng Nghod C, *paragraff 6.12*
  - ac mae'r Nodiadau arweiniad sy'n berthnasol i'r darpariaethau hynny yn berthnasol i'r Cod hwn.
  - ble gall chwiliad neu weithdrefn arall dan y Cod hwn gael ei gyflawni neu arsylwi gan berson o'r un rhyw â'r person y mae'r chwiliad neu weithdrefn yn berthnasol iddi, dylid sefydlu rhyw'r sawl sy'n cael ei gadw a'r personau eraill sy'n bresennol a'i gofnodi yn unol ag Atodiad L Cod C.
- 2.7 Mae cyfeiriadau at swyddog y ddalfa yn cynnwys unrhyw swyddog heddlu sydd, yn y cyfnod hwn, yn cyflawni swyddogaeth swyddog y ddalfa, gweler *paragraff 1.9* Cod C.
- 2.8 Pan wneir cofnod o unrhyw weithred sy'n gofyn am awdurdod swyddog o safle arbennig o dan y Cod hwn, yn unol â pharagraff 2.18, rhaid cofnodi enw a rheng y swyddog.
- 2.9 Pan fydd y Cod hwn angen awdurdod blaenorol neu gytundeb swyddog o safle arolygydd neu uwch-arolygydd o leiaf, gall rhingyll neu brif arolygydd sydd wedi'i awdurdodi i gyflawni'r gwaith o'r safle uwch dan PACE, adran 107 roi'r awdurdod hwnnw.
- 2.10 Yn amodol i *paragraff 2.18*, rhaid nodi amser ar gyfer pob cofnod mewn cofnodion cadw a'u llofnodi gan y sawl sy'n eu gwneud.
- 2.11 Rhaid gwneud cofnodion yng nghofnod y ddalfa, os na nodir yn wahanol. Mewn unrhyw ddarpariaeth o'r Cod hwn sy'n caniatáu neu'n gofyn i swyddogion heddlu neu staff heddlu wneud cofnod yn ei lyfr cofnod, bydd y cyfeiriad at 'lyfr cofnod' yn cynnwys unrhyw lyfr adrodd swyddogol neu ddyfais cofnodi electronig a ddothbarthwyd iddynt sy'n galluogi gwneud y cofnod dan sylw yn unol â'r ddarpariaeth honno. Mae cyfeiriadau yn y Cod hwn i gofnodion ysgrifenedig, ffurflenni a llofnodion yn cynnwys cofnodion a ffurflenni electronig a chadarnhad electronig sy'n nodi'r sawl sy'n cwblhau'r cofnod neu ffurflen.
- Rhaid i brif swyddogion fod yn fodlon ynghylch cywirdeb a diogelwch y dyfeisiau, cofnodion a ffurflenni y mae'r *paragraff* hwn yn berthnasol iddynt, a bod defnydd o'r dyfeisiau, cofnodion a ffurflenni hynny yn bodloni deddfwriaeth diogelu data perthnasol.
- (cymerwyd o God C *paragraff 1.17*).
- 2.12 Os oes unrhyw weithdrefn yn y Cod hwn yn gofyn am ganiatâd person, nid yw cytundeb:
- person sy'n dioddef anhwylder meddwl neu fel arall yn agored i niwed yn feddyliol yn ddilys os nad yw'n cael ei roi ym mhresenoldeb oedolyn priodol





- plentyn yn ddilys os na cheir caniatâd rhiant neu warcheidwad hefyd, oni bai bod y plentyn o dan 14 oed, pryd mae caniatâd ei riant neu warcheidwad yn ddigon ynddo'i hun. Os mai'r unig rwystr i ddull adnabod yn adran 3 yw bod rhiant neu warcheidwad yn gwrthod rhoi ei ganiatâd neu fod ymdrechion rhesymol i'w gael wedi methu, gall y swyddog adnabod ddefnyddio'r darpariaethau ym [mharagraff 3.21](#) (sawl sydd dan amheuaeth yn hysbys ond nid ar gael). Gweler Nodyn 2A.
- 2.13 Os yw person yn ddall, os oes nam difrifol ar ei olwg neu os nad yw'n gallu darllen, bydd swyddog y ddalfa neu'r swyddog adnabod yn sicrhau bod ei gyfreithiwr, perthynas iddo, ei oedolyn priodol neu unrhyw un arall sy'n debygol o gymryd diddordeb ynddo ac nad yw'n ymwneud â'r ymchwiliad, ar gael i helpu i archwilio unrhyw ddogfennau. Pan fo'r Cod yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig neu lofnod, gellir gofyn i'r un sy'n cynorthwyo i lofnodi yn lle hynny, os yw'n well gan y sawl sy'n cael ei gadw i hynny ddigwydd. Nid yw'r paragraff hwn yn gofyn am alw oedolyn priodol yn unswydd i gynorthwyo wrth archwilio a lofnodi dogfennau ar gyfer person nad yw'n berson ifanc, nad oes ganddo anhwylder meddwl neu y mae fel arall yn agored i niwed yn feddyliol (gweler *Nodyn 2B* a Chod C *paragraff 3.15*).
- 2.14 Os oes unrhyw weithdrefn yn y Cod hwn yn gofyn am roi gwybodaeth i, neu gael gwybodaeth gan, y sawl sydd dan amheuaeth, mae'n rhaid rhoi neu gael yr wybodaeth ym mhresenoldeb oedolyn priodol os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn dioddef anhwylder meddwl, fel arall yn agored i niwed yn feddyliol neu'n blentyn. Os nad oes oedolyn priodol yn bresennol pan roddir neu y gofynnir am yr wybodaeth yn gyntaf, rhaid ailadrodd y weithdrefn ym mhresenoldeb oedolyn priodol ar ôl iddo gyrraedd. Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn ymddangos yn fyddar neu os oes amheuaeth ynghylch ei allu i glywed neu siarad neu ei allu i ddeall Saesneg, rhaid i swyddog y ddalfa neu swyddog adnabod sicrhau y gwneir y trefniadau angenrheidiol yn unol â Chod C ar gyfer cyfieithydd i gynorthwyo'r sawl sydd dan amheuaeth.
- 2.15 Rhaid i unrhyw weithdrefn yn y Cod hwn sy'n gofyn am gyfranogiad person sydd dan amheuaeth ac sy'n dioddef anhwylder meddwl, sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol neu'n blentyn, ddigwydd ym mhresenoldeb oedolyn priodol. Gweler Cod C *paragraff 1.4*.
- 2.15A Dylai unrhyw weithdrefn yn y Cod hwn sy'n gofyn am gyfranogiad tyst sydd yn neu'n ymddangos i fod yn dioddef anhwylder meddwl, sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol neu'n blentyn, ddigwydd ym mhresenoldeb person cefnogol cyn treial oni bai fod y tyst yn datgan nad yw eisiau person cefnogol i fod yn bresennol. Ni chaniateir i'r person cefnogol gymell tyst i adnabod y sawl sydd dan amheuaeth. Gweler *Nodyn 2AB*.
- 2.16 Mae cyfeiriadau at:
- 'dynnu llun', yn cynnwys y defnydd o unrhyw broses i gynhyrchu un ddelwedd weledol lonydd neu sy'n symud
  - 'tynnu llun o berson' i'w ddadansoddi'n briodol
  - 'ffotograffau', 'ffilmiau', 'negatifau' a 'chopïau' yn cynnwys delweddau gweledol perthnasol wedi'u cofnodi, storio, neu atgynhyrchu trwy unrhyw gyfrwng
  - 'dinistrio' yn cynnwys dileu data cyfrifiadurol sy'n gysylltiedig â delweddau o'r fath neu wneud mynediad i'r data hwnnw'n amhosibl
- 2.17 Nid yw'r Cod hwn yn effeithio ar na'n berthnasol i'r pŵerau a gweithdrefnau:
- (i) ar gyfer gofyn am, a chymryd, samplau o anadl, gwaed ac wrin mewn cysylltiad â throseddau gyrru, ayyb, o dan ddylanwad diod, cyffuriau neu ormod o alcohol o dan:
    - Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, adrannau 4 i 11
    - Deddf Troseddau Moduro 1988, adrannau 15 ac 16
    - Deddf Ciudiant a Gwaith 1992, adrannau 26 i 38;
  - (ii) dan Ddeddf Mewnfudo 1971, Atodlen 2, paragraff 18; ar gyfer tynnu lluniau, mesur ac adnabod a chymryd gwybodaeth fïometrïg (heb gynnwys DNA) gan bersonau a gedwir neu sy'n atebol i gael eu cadw dan y Ddeddf honno, Atodlen 2, paragraff 16 (Rheolau Gweinyddol o ran Rheoli Mynediad ayyb.); neu ar gyfer cymryd olion bysedd yn unol â Deddf Mewnfudo a Lloches 1999; adrannau 141 a 142(4), neu ddulliau eraill o gasglu

gwylbodaeth am nodweddion corfforol allanol person y darperir ar eu cyfer gan y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno, adran 144;

- (iii) dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 8, ar gyfer tynnu lluniau, olion bysedd, olion croen, samplau corfforol neu olion gan bobl:
- a arestiwyd dan y Ddeddf honno, adran 41,
  - a gadwyd er mwyn eu harchwilio o dan y Ddeddf honno, Atodlen 7, ac i'r sawl mae'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno, Atodlen 14, paragraff 6, yn berthnasol ('y darpariaethau terfysgaeth')
- (iv) ar gyfer tynnu lluniau, olion bysedd, olion croen, samplau corfforol neu olion gan bobl sydd wedi cael eu:
- harestio ar warantau a gyhoeddwyd yn yr Alban, gan swyddogion yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994;
  - arestio neu'u cadw heb warant gan swyddogion o heddlu'r Alban yn defnyddio eu pwerau i arestio neu gadw a grybwyllwyd yn Rhan X y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

Sylwer: Yn yr achosion hyn, mae pwerau a dyletswyddau'r heddlu a hawliau'r person yn ystod ei gyfnod mewn gorsaf heddlu yng Nghymru a Loegr, yr un fath â phe bai'r person wedi ei arestio yn yr Alban gan swyddog heddlu Albanaidd.

2.18 Nid oes dim yn y Cod yma yn gofyn am gofnodi neu ddatgelu pwy yw'r swyddogion neu staff yr heddlu:

- (a) mewn achos o ymholiadau sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad i derfysgaeth;
- (b) os oes gan y swyddogion neu'r staff le rhesymol i gredu y gallai cofnodi neu ddatgelu eu henwau eu rhoi mewn perylg.

Mewn achosion o'r fath, dylent ddefnyddio'u gwarant neu rifau adnabod eraill ac enw'r orsaf heddlu. Gweler *Nodyn 2D*.

2.19 Yn y Cod hwn:

- (a) golyga 'person dynodedig' rywun ar wahân i swyddog heddlu, sydd â phwerau a dyletswyddau penodedig swyddogion heddlu a roddwyd iddynt neu a orfodwyd arnynt trwy ddynodiad dan adran 38 neu 39 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002;
- (b) mae unrhyw gyfeiriad at swyddog yr heddlu yn cynnwys unigolyn a ddynodwyd yn gweithredu'r pwerau a'r dyletswyddau a roddwyd neu a orfodwyd arno gan y dynodiad.

2.20 Os yw pŵer a roddwyd i berson dynodedig:

- (a) yn caniatáu defnyddio grym rhesymol pan y'i defnyddir gan swyddog heddlu, mae gan y person dynodedig sy'n defnyddio'r pŵer yna'r un hawl i ddefnyddio grym;
- (b) yn cynnwys pŵer i ddefnyddio grym i fynd mewn i unrhyw eiddo, ni all y person dynodedig ymarfer y pŵer yma ac eithrio:
- (i) ym mhresenoldeb, ac o dan oruchwyliaeth, swyddog o'r heddlu; neu
- (ii) i ddiben:
- achub bywyd neu aelod o'r corff; neu
  - atal difrod difrifol i eiddo.

2.21 Yn achos person sy'n cael ei gadw, nid oes dim yn y Cod yma yn atal swyddog y ddalfa, neu swyddog heddlu neu berson penodedig gan swyddog y ddalfa i ddibenion yr ymchwiliad o drosedd y mae'r person yn cael ei gadw am ei chyflawni, rhag caniatáu i berson arall (gweler (a) a (b) isod) rhag cynnal gweithdrefnau neu dasgau unigol yn yr orsaf heddlu, os yw'r gyfraith yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, mae'r swyddog neu berson penodedig sydd wedi derbyn cystodaeth yn dal yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau a'r tasgau'n cael eu cyflawni'n gywir, yn unol â'r Codau Ymarfer. Rhaid i'r person arall sy'n cael cyflawni'r gweithdrefnau neu dasgau

fod yn rhywun sydd ar y pryd:

- (a) dan gyfarwyddyd neu reolaeth prif swyddog heddlu neu'r heddlu sy'n gyfrifol am orsaf heddlu dan sylw; neu;
- (b) yn darparu gwasanaethau dan drefniadau cytundebol (ond heb gael ei gyflogi gan brif swyddog heddlu), i gynorthwyo heddlu parthed cyflawni ei swyddogaethau prif swyddog..

2.22 Rhaid i unigolion penodedig ac eraill a grybwyllir yn *is-baragraffau* (a) a (b) *paragraff* 2.21 dalu sylw dyledus i unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn y Codau Ymarfer.

### **Nodiadau arweiniad**

- 2A *Yn achos plentyn sydd yng ngofal awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol, ar gyfer dibenion paragraff 2.12, gall y caniatâd sydd ei angen gan riant neu warchodwr gael ei roi gan yr awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol hwnnw. Yn achos plentyn, nid oes dim ym mharagraff 2.12 yn gofyn i riant, gwarchodwr neu gynrychiolydd awdurdod lleol neu sefydliad gwirfoddol fod yn bresennol i roi ei ganiatâd, oni bai ei fod yn gweithredu fel yr oedolyn priodol o dan baragraffau 2.14 neu 2.15. Fodd bynnag, cyn gofyn am ganiatâd rhiant neu warchodwr nad yw'n bresennol mae'n bwysig ei fod yn cael yr wybodaeth yn llawn. Rhaid iddo gael yr un wybodaeth am y weithdrefn a'r rhan yr amheuir i'r plentyn ei chwarae yn y drosedd â'r plentyn a'r oedolyn priodol. Rhaid i'r rhiant neu warchodwr gael cyfle hefyd i siarad â'r plentyn a'r oedolyn priodol os yw'n dymuno hynny. Cyn belled â bod y caniatâd yn seiliedig ar wybodaeth llawn ac nad ydyw yn cael ei dynnu'n ôl, gellir ei gael ar unrhyw adeg cyn gweithredu'r weithdrefn.*
- 2AB *Mae arweiniad i Ddeddf Cyfiawnder Ieuencid a Thystiolaeth Droseddol 1999 "Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol" yn nodi y dylai person cefnogol cyn-achos llys fynd gyda thyst bregus yn ystod unrhyw weithdrefn adnabod oni bai fod y tyst yn datgan nad yw eisiau i berson cefnogol fod yn bresennol. Dywedir na ddylai'r person cefnogol yma fod yn dyst (neu'n debygol o fod yn dyst) yn yr ymchwiliad.*
- 2B *Fe all pobl sydd â nam difrifol ar eu golwg neu'n methu darllen fod yn amharod i lofnodi dogfennau'r heddlu. Bwriad y dewis arall, h.y. eu cynrychiolydd yn lofnodi ar eu rhan, yw amddiffyn buddiannau'r heddlu yn ogystal â'r sawl sydd dan amheuaeth.*
- 2C *Heb ei ddefnyddio*
- 2D *Diben paragraff 2.18(b) yw amddiffyn rhai sydd wedi ymwneud ag ymchwiliadau i droseddau cyfundrefnol difrifol neu arestio pobl sydd dan amheuaeth sy'n dreisgar iawn lle mae yno wybodaeth ddibynadwy y gallai'r sawl a arestiwyd, neu ei gymdeithion, fygwth neu achosi niwed i'r rhai dan sylw. Lle ceir amheuaeth, dylid ymgynghori gyda swyddog o safle arolygydd neu uwch.*

**3 Nodi ac adnabod rhai a amheuir****Rhan (A) Adnabod sawl a amheuir gan lygad-dyst**

3.0 Mae'r rhan yma'n berthnasol os bydd llygad-dyst wedi gweld rhywun yn cyflawni trosedd neu mewn amgylchiadau eraill sy'n dueddol o brofi neu ddad-brofi ymwneud y person a welodd mewn trosedd, er enghraifft, yn agos at leoliad y drosedd, yn syth wedi neu'n syth cyn ei chyflawni. Mae'n sefydlu'r gweithdrefnau i'w defnyddio i brofi gallu'r llygad-dyst hwnnw i nodi person a amheuir o ymwneud yn y drosedd ('y sawl sydd dan amheuaeth') fel y person a welodd ar yr achlysur blaenorol. Nid yw'r rhan yma'n berthnasol i'r weithdrefn a ddisgrifiwyd yn Rhan B (gweler [Nodyn 3AA](#)) a ddefnyddir i brofi gallu rhywun nad yw'n llygad dyst i adnabod rhywun pan fydd yn gweld delwedd o'r person yna.

3.1 Bydd cofnod yn cael ei wneud o'r disgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth fel y rhoddwyd ef gyntaf gan dyst posibl. Rhaid i'r cofnod hwn:

- (a) gael ei wneud a'i gadw mewn dull sy'n caniatáu i fanylion o'r disgrifiad hwnnw gael eu cynhyrchu'n gywir ohono, mewn dull gweladwy ac eglur, y gellir eu rhoi i'r sawl sydd dan amheuaeth neu gyfreithiwr y sawl sydd dan amheuaeth yn unol â'r Cod hwn; ac
- (b) os na nodir yn wahanol, gael ei wneud cyn i'r llygad-dyst gymryd rhan mewn unrhyw ddulliau adnabod dan [baragraffau 3.5 i 3.10, 3.21, 3.23](#) neu Atodiad E (Dangos Ffotograffau i Lygad-dystion).

Pan fo hynny'n ymarferol, bydd copi o'r cofnod yn cael ei roi i'r sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr cyn gweithredu unrhyw ddull adnabod dan [baragraffau 3.5 i 3.10, 3.21 neu 3.23](#). Gweler [Nodyn 3E](#).

3.1A Mae cyfeiriadau yn y Rhan hwn:

- (a) at y ffaith bod hunaniaeth y sawl sydd dan amheuaeth yn 'hysbys' yn golygu fod yna ddigon o wybodaeth yn hysbys i'r heddlu i sefydlu, yn unol â Chod G (Arestio), fod yna sail resymol i amau person penodol o ymwneud yn y drosedd;
- (b) at y sawl sydd dan amheuaeth yn bod 'ar gael' yn golygu fod y sawl sydd dan amheuaeth ar gael ar unwaith, neu bydd ar gael o fewn cyfnod rhesymol fyr o amser, er mwyn ei wahodd i gymryd rhan mewn o leiaf un weithdrefn adnabod gan lygad-dyst dan [baragraffau 3.5 i 3.10](#) ac mae'n ymarferol i drefnu gweithdrefn effeithiol dan [baragraffau 3.5 i 3.10](#); ac
- (c) at y gweithdrefnau adnabod gan lygad-dyst dan [baragraffau 3.5 i 3.10](#) yn golygu:
  - Adnabod trwy fideo ([paragraffau 3.5 a 3.6](#));
  - Rhes adnabod ([paragraffau 3.7 a 3.8](#)); a
  - Adnabod mewn grŵp ([paragraffau 3.9 a 3.10](#)).

**(a) Achosion pan nad yw'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth**

3.2 Mewn achosion pan nad yw'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth, gellir mynd â llygad-dystion i gymdogaeth neu le arbennig i weld a allant adnabod y person a welwyd ganddynt yn flaenorol. Er na ellir rheoli nifer, oed, rhyw, hil, disgrifiad cyffredinol a math o ddillad y bobl eraill sy'n bresennol yn y lleoliad na'r ffordd mae unrhyw broses adnabod yn digwydd, bydd yr egwyddorion sy'n berthnasol i'r dulliau adnabod ffurfiol o dan [baragraffau 3.5 i 3.10](#) yn cael eu dilyn cyn belled â bod hynny'n ymarferol. Er enghraifft:

- (a) lle mae'n ymarferol gwneud hynny, dylid gwneud cofnod o ddisgrifiad y llygad-dyst o'r person a welodd ar yr achlysur blaenorol, fel nodir ym [mharagraff 3.1\(a\)](#), cyn gofyn i lygad-dyst adnabod rhywun;
- (b) Rhaid cymryd gofal i beidio darparu unrhyw wybodaeth i'r llygad-dyst parthed y disgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth (os oes gwybodaeth o'r fath ar gael) ac i beidio cyfeirio sylw'r llygad-dyst at unrhyw unigolyn os na ellir osgoi hynny ar ôl rhoi ystyriaeth i'r holl amgylchiadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystr i ofyn i lygad-dyst edrych yn ofalus ar y bobl sydd o gwmpas ar y pryd neu edrych ar grŵp arbennig neu i gyfeiriad arbennig, os yw hynny'n ymddangos yn angenrheidiol i sicrhau nad yw'r llygad-dyst yn peidio â sylwi ar bobl bosibl i'w hamau am ei fod yn edrych i gyfeiriad arall a hefyd i alluogi llygad-dyst i

wneud cymariaethau rhwng y sawl sydd dan amheuaeth ac eraill sydd yn yr ardal;

- (c) pan fo mwy nag un llygad-dyst, dylid gwneud pob ymdrech i'w cadw ar wahân a dylid mynd â llygad-dystion i weld a allant adnabod person ar eu pennau eu hunain;
- (d) unwaith y ceir gwybodaeth ddigonol i sefydlu, yn unol â *pharagraff 3.1A(a)*, fod y sawl sydd dan amheuaeth yn 'hysbys', e.e. wedi i'r llygad-dyst ei adnabod, bydd y darpariaethau o *baragraff 3.4* ymlaen yn berthnasol ar gyfer y llygad-dyst hwnnw ac unrhyw lygad-dyst arall parthed yr unigolyn hwnnw;
- (e) rhaid i'r swyddog neu'r aelod o staff yr heddlu sydd yng nghwmni'r llygad-dyst gofnodi, yn ei lyfr poced, sut y bu iddo weithredu cyn gynted â phosibl ac mor fanwl â phosibl. Dylai'r cofnod gynnwys:
  - (i) dyddiad, amser a lleoliad yr achlysur perthnasol pryd y mae'r llygad-dyst yn honni iddo weld y sawl sydd dan amheuaeth yn cyflawni'r drosedd dan sylw neu dan unrhyw amgylchiadau eraill sy'n dueddol o brofi neu ddad-brofi ymwneud y person a welodd mewn trosedd (gweler [paragraff 3.0](#)); a
  - (ii) os llwyddwyd i adnabod:
    - sut y gwnaethpwyd hyn a'r amodau ar y pryd (e.e. pellter y llygad-dyst oddi wrth y sawl sydd dan amheuaeth, y tywydd a'r golau);
    - os cafodd sylw'r llygad-dyst ei ddenu i'r sawl sydd dan amheuaeth; y rheswm dros hyn; ac
    - unrhyw beth a ddywedwyd gan y llygad-dyst neu'r sawl sydd dan amheuaeth ynghylch yr adnabod neu gyflawniad y weithdrefn.

Gweler [Nodyn 3F](#)

3.3 Ni ddylid dangos ffotograffau, delweddau cyfrifiadurol neu argraff gyfansawdd gan artist neu argraffiadau neu luniau tebyg (yn cynnwys delweddau 'E-fit') i'r llygad-dyst os, yn unol â *pharagraff 3.1A*, yw'r heddlu yn gwybod pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth a'i fod ar gael i gymryd rhan mewn un o'r gweithdrefnau dan *baragraffau 3.5 i 3.10*. Os nad yw'r sawl sydd dan amheuaeth wedi ei adnabod, rhaid dangos unrhyw ddelweddau o'r fath i lygad-dyst i weld os yw'n gallu adnabod person y dangosir delwedd ohono iddo fel y person a welodd ar achlysur blaenorol yn unol ag *Atodiad E*.

**(b) Achosion pryd mae'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth a phan fydd ar gael**

3.4 Os yw hunaniaeth y sawl sydd dan amheuaeth yn hysbys i'r heddlu (gweler *paragraff 3.1A(a)*) a'i fod ar gael (gweler *paragraff 3.1A(b)*), mae'r gweithdrefnau adnabod y gellir eu defnyddio wedi eu sefydlu ym *mharagraffau 3.5 i 3.10* isod fel a ganlyn:

- (i) adnabod trwy fideo;
- (ii) rhes adnabod; neu
- (iii) adnabod mewn grŵp.
- (i) Adnabod trwy fideo

3.5 Mae 'adnabod trwy fideo' yn golygu dangos delweddau i lygad-dyst o'r sawl sydd dan amheuaeth ac sy'n wybyddus, ynghyd â delweddau cyffelyb o eraill sy'n debyg i'r sawl sydd dan amheuaeth. Mae'n rhaid defnyddio delweddau *symudol* oni bai fod yr amodau yn is-baragraff (a) neu (b) isod yn berthnasol:

- (a) mae'r is-baragraff hwn yn berthnasol os:
  - (i) mae'r swyddog adnabod, mewn ymgynghoriad gyda'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad, yn fodlon oherwydd heneiddio, neu newidiadau neu wahaniaethau corfforol eraill, fod pryd a gwedd y sawl sydd dan amheuaeth wedi newid yn sylweddol ers yr achlysur blaenorol pan mae'r llygad-dyst yn honni i fod wedi ei weld (gweler *paragraff 3.0* a *Nodyn 3ZA*);
  - (ii) mae delwedd (symudol neu lonydd) ar gael ac mae'r swyddog adnabod a'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad yn credu'n rhesymol ei fod yn dangos pryd a gwedd y sawl sydd dan amheuaeth fel yr oedd ar yr adeg pan welodd y llygad-dyst y sawl

sydd dan amheuaeth; a

- (iii) gan dalu sylw dyledus i raddfa newid a diben y gweithdrefnau adnabod llygad-dyst (gweler [paragraff 3.0](#)), mae'r swyddog adnabod yn credu y gellid dangos delwedd o'r fath i'r llygad-dyst.

Mewn achos o'r fath, efallai y bydd y swyddog adnabod yn trefnu gweithdrefn adnabod fideo yn defnyddio'r ddelwedd a ddisgrifiwyd yn (ii). Yn unol â'r 'Hysbysiad i'r sawl sydd dan amheuaeth' (gweler [paragraff 3.17\(vi\)](#)), rhaid i'r sawl sydd dan amheuaeth yn gyntaf gael cyfle i ddarparu ei ddelwedd(au) ei hun i'w defnyddio yn y weithdrefn, ond y swyddog adnabod a'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad sydd i benderfynu p'un ai, yn dilyn (ii) a (iii), y dylid defnyddio unrhyw ddelwedd(au) a ddarparwyd gan y sawl sydd dan amheuaeth.

Gellir trefnu adnabod trwy fideo yn defnyddio delwedd a ddisgrifir uchod, yn ôl doethineb y swyddog adnabod, yn ogystal i, neu fel dewis amgen i, adnabod trwy fideo yn defnyddio delweddau symudol a gymerwyd wedi i'r sawl sydd dan amheuaeth dderbyn yr wybodaeth a'r hysbysiad a ddisgrifir yn mharagraffau 3.17 a 3.18.

Gweler [paragraff 3.21](#) a [Nodyn 3D](#) ar gyfer unrhyw achos ble mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn cymryd camau'n fwrriadol i lesteirio'r trefniadau a gweithdrefnau adnabod gan lygad-dyst.

- (b) mae'r is-baragraff hwn yn berthnasol os, yn unol â [pharagraff 2A Atodiad A](#) y Cod hwn, nad yw'r swyddog adnabod yn ystyried y gellir cyflawni dyblygiad o nodwedd gorfforol neu gelu lleoliad y nodwedd yn defnyddio delwedd symudol. Yn yr achosion hyn mae'n dal yn bosibl i ddefnyddio delweddau llonydd.

3.6 Rhaid i adnabod trwy fideo ddigwydd yn unol ag [Atodiad A](#).

**(ii) Rhes adnabod**

3.7 Mae 'rhes adnabod' yn golygu fod y tyst yn gweld y sawl sydd dan amheuaeth mewn rhes gydag eraill sy'n debyg i'r sawl sydd dan amheuaeth.

3.8 Rhaid i resi adnabod ddigwydd yn unol ag [Atodiad B](#).

**(iii) Adnabod mewn grŵp**

3.9 Mae 'adnabod mewn grŵp' yn golygu fod y tyst yn gweld y sawl sydd dan amheuaeth mewn grŵp anffurfiol o bobl.

3.10 Rhaid i adnabod mewn grŵp ddigwydd yn unol ag [Atodiad C](#).

**Trefnu gweithdrefnau adnabod gan lygad-dyst– dyletswyddau swyddog adnabod**

3.11 Ac eithrio'r darpariaethau yn [mharagraff 3.19](#), bydd y trefniadau ar gyfer, a'r modd y cynhelir, y gweithdrefnau adnabod gan lygad-dyst ym [mharagraffau 3.5 i 3.10](#) a'r amgylchiadau pryd mae'n rhaid cynnal dull adnabod yn gyfrifoldeb swyddog nad yw'n is ei safle nag arolygydd nad ydyw yn rhan o'r ymchwiliad, ('y swyddog adnabod'). Os na nodir yn wahanol, gall y swyddog adnabod ganiatáu i swyddog arall neu staff yr heddlu, gweler [paragraff 2.21](#), i wneud trefniadau ar gyfer ac i gyflawni unrhyw un o'r gweithdrefnau adnabod hyn ac eithrio fel y darparwyd ar eu cyfer ym [mharagraff 7 Atodiad A](#), mae unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at y swyddog adnabod yn cynnwys y swyddog neu staff yr heddlu y mae'r trefniadau ar gyfer ac/neu gyflawniad unrhyw rai o'r gweithdrefnau hyn wedi ei ddirprwyo. Wrth ddirprwyo'r trefniadau a gweithdrefnau hyn, rhaid i'r swyddog adnabod allu goruchwyllo'n effeithiol ac un ai ymyrryd neu fod ar gael i roi cyngor. Ble cymerir unrhyw gamau y cyfeirir atynt yn y paragraff hwn gan swyddog arall neu staff yr heddlu dan gyfarwyddyd y swyddog adnabod, bydd y canlyniad yn cael ei adrodd, cyn gynted ag sy'n ymarferol, i'r swyddog adnabod. I ddibenion y gweithdrefnau hyn, mae'r swyddog adnabod yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y weithdrefn yn cychymffurfio gyda'r Cod hwn ac yn ogystal, yn achos sawl sydd dan amheuaeth a gedwir, ei ofal a thriniaeth nes bydd wedi ei ddychwelyd i swyddog y ddalfa. Ni ddylai swyddog nag unrhyw berson arall sy'n rhan o'r ymchwiliad i'r achos yn erbyn y sawl sydd dan amheuaeth, y tu hwnt i ofnyon y dulliau adnabod, gymryd rhan yn y dulliau adnabod hyn na gweithredu fel swyddog adnabod.

Nid yw hyn yn rhwystro'r swyddog adnabod rhag ymgynghori â'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad i benderfynu pa ddull adnabod i'w ddefnyddio. Pan fo angen defnyddio dull adnabod,

o ran tegwch i dystion a'r sawl sydd dan amheuaeth, dylid gwneud hynny cyn gynted â phosibl.

**Amgylchiadau pan fo rhaid cynnal gweithdrefn adnabod gan lygad-dyst**

- 3.12 Os, cyn cynnal unrhyw weithdrefn adnabod a sefydlir ym *mharagraffau 3.5 i 3.10*
- (a) mae llygad-dyst wedi adnabod sawl sydd dan amheuaeth neu wedi honni i'w adnabod; neu
  - (b) mae yna lygad-dyst ar gael sy'n mynegi gallu i adnabod y sawl sydd dan amheuaeth; neu
  - (c) mae yna siawns resymol y byddai llygad-dyst yn gallu adnabod sawl sydd dan amheuaeth, ac nad yw'r llygad-dyst yn (a) i (c) wedi cael cyfle i adnabod y sawl sydd dan amheuaeth mewn unrhyw un o'r gweithdrefnau a sefydlwyd ym *mharagraffau 3.5 i 3.10*, yna fe gynhelir gweithdrefn adnabod os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn dadlau nad ef yw'r person yr honna'r llygad-dyst iddo ei weld ar achlysur blaenorol (gweler *paragraff 3.0*), oni bai:
    - (i) nad yw'n ymarferol i gynnal gweithdrefn o'r fath; neu
    - (ii) mi fyddai unrhyw weithdrefn o'r fath yn cyflawni unrhyw ddiiben defnyddiol wrth brofi neu wrthbrofi a oedd y sawl sydd dan amheuaeth yn ymwneud â chyflawni'r drosedd, er enghraifft
      - ble mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn cyfaddef bod yn lleoliad y drosedd ac yn disgrifio beth a ddigwyddodd ac nad yw'r llygad-dyst yn gweld unrhyw beth sy'n gwrthdweud hynny; neu
      - pan na ddadleuir fod y sawl sydd dan amheuaeth eisoes yn hysbys i'r llygad-dyst sy'n honni i fod wedi ei adnabod wrth ei weld yn cyflawni'r drosedd.
- 3.13 Gellir hefyd cynnal gweithdrefn adnabod llygad-dyst os yw'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad, wedi ymgynghori gyda'r swyddog adnabod, yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol.
- Dewis gweithdrefn adnabod gan lygad-dyst**
- 3.14 Os, oherwydd *paragraff 3.12*, y bydd gweithdrefn adnabod yn cael ei chynnal, bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn gyntaf yn cael ei wahodd i gymryd rhan mewn gweithdrefn adnabod fideo oni bai fod:
- (a) adnabod trwy fideo yn anymarferol; neu
  - (b) bod rhes adnabod yn ymarferol ac yn fwy addas nag adnabod trwy fideo; neu fod
  - (c) *paragraff 3.16* yn berthnasol.
- Bydd y swyddog adnabod a'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad yn ymgynghori â'i gilydd er mwyn penderfynu pa ddewis i'w gynnig. Efallai na fydd rhes adnabod yn ymarferol oherwydd ffactorau'n ymwneud â'r tystion, megis eu nifer, cyflwr eu hiechyd, argaeledd a threfniadau teithio. Byddai adnabod trwy fideo'n fwy addas fel arfer pe gellid ei drefnu a'i gwblhau ynghynt na rhes adnabod. Cyn cynnig opsiwn, rhaid atgoffa'r sawl sydd dan amheuaeth hefyd o'i hawl i gyngor cyfreithiol am ddim, gweler Cod C, *paragraff 6.5*.
- 3.15 Gofynnir i sawl sydd dan amheuaeth sy'n gwrthod y dull adnabod cyntaf a gynigir iddo nodi ei reswm dros wrthod a gall gael cyngor ei gyfreithiwr ac/neu oedolyn priodol os ydyw yn bresennol. Caniateir i'r sawl sydd dan amheuaeth, cyfreithiwr ac/neu oedolyn priodol gyflwyno achos dros ddefnyddio dull arall. Dylid gwneud cofnod o'r rhesymau dros wrthod ac unrhyw achos a gyflwynir. Wedi ystyried unrhyw resymau a roddir, a'r achos a gyflwynir, bydd y swyddog adnabod, os yw hynny'n briodol, yn trefnu i'r sawl sydd dan amheuaeth gael dewis arall sy'n addas ac ymarferol ym marn y swyddog. Os bydd y swyddog yn penderfynu nad yw cynnig dull adnabod arall yn addas ac ymarferol bydd y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw'n cael eu cofnodi.
- 3.16 Fe all adnabod mewn grŵp gael ei gynnig yn gyntaf i'r sawl sydd dan amheuaeth os yw'r swyddog yng ngofal yr ymchwiliad o'r farn ei bod yn fwy addas nag adnabod trwy fideo neu res adnabod a bod y swyddog adnabod yn ei ystyried yn ymarferol i'w drefnu.

## Hysbysiad i sawl sydd dan amheuaeth

- 3.17 Os nad yw *paragraff 3.20* yn berthnasol, cyn trefnu dull adnabod gan lygad-dyst fel y sefydlir yn *mharagraffau 3.5* i *3.10*, dylid egluro'r canlynol i'r sawl sydd dan amheuaeth:
- (i) diben y weithdrefn (gweler *paragraff 3.0*);
  - (ii) ei hawl i gyngor cyfreithiol am ddim; gweler Cod C, *paragraff 6.5*;
  - (iii) y dull cywir o'i gynnal, yn cynnwys ei hawl, yn amodol i Atodiad A, *paragraff 9*, i gael cyfreithiwr neu gyfaill yn bresennol;
  - (iv) nad oes rhaid iddo gydsynio na chydweithredu yn y weithdrefn;
  - (v) os nad yw'n cytuno i, ac yn cydweithredu â gweithdrefn, gall y ffaith iddo wrthod gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos diweddarach a gall yr heddlu barhau i'w gyflawni yn y dirgel heb ei ganiatâd neu wneud trefniadau eraill i brofi a all llygad-dyst ei adnabod, gweler *paragraff 3.21*;
  - (vi) p'un a oes, i ddiobenion adnabod trwy fideo, mae delweddau ohono wedi eu caffael yn flaenorol naill ai:
    - yn unol â *paragraff 3.20*, ac os felly, y gall gydweithredu wrth ddarparu delweddau addas pellach i'w defnyddio yn hytrach; neu
    - yn unol â *paragraff 3.5(a)*, ac os felly gall ddarparu ei ddelweddau ei hun i'r swyddog adnabod ystyried eu defnyddio.
  - (vii) y trefniadau arbennig ar gyfer plant, os yw hynny'n briodol;
  - (viii) y trefniadau arbennig ar gyfer pobl sy'n dioddef anhwylder meddwl neu fel arall yn agored i niwedd yn feddyliol, os yw hynny'n briodol;
  - (ix) os ydynt yn newid eu hymddangosiad yn sylweddol rhwng cael cynnig dull adnabod ac unrhyw ymgais i gynnal dull adnabod, fe ellir defnyddio hyn fel tystiolaeth os bydd yr achos yn mynd gerbron llys, ac yna fe all y swyddog adnabod ystyried dulliau eraill o adnabod, gweler *paragraff 3.21* a *Nodyn 3C*;
  - (x) y gellir cymryd delwedd symudol neu ffotograff ohono wrth iddo gymryd rhan mewn dull adnabod;
  - (xi) a gafodd y llygad-dyst, cyn i bwy oedd y sawl sydd dan amheuaeth ddod yn wybyddus, weld llun, delwedd gyfrifiadurol neu argraff gyfansawdd gan artist neu argraff neu lun tebyg gan yr heddlu, gweler *Nodyn 3B*;
  - (xii) os yw'n newid ei ymddangosiad cyn rhes adnabod, efallai na fydd hi'n ymarferol trefnu un ar y diwrnod hwnnw nac unrhyw ddiwrnod wedi hynny ac, oherwydd y newid mewn ymddangosiad, fe all y swyddog adnabod ystyried dulliau eraill o adnabod, gweler *Nodyn 3C*;
  - (xiii) y bydd ef neu ei gyfreithiwr yn cael manylion am y disgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth fel y rhoddwyd ef gyntaf gan unrhyw lygad-dystion sydd i fynychu'r weithdrefn neu gyfwynebiad, gweler *paragraff 3.1*.
- 3.18 Rhaid i'r wybodaeth hon hefyd gael ei chofnodi mewn rhybudd ysgrifenedig i'r sawl sydd dan amheuaeth. Rhaid i'r sawl sydd dan amheuaeth gael cyfle rhesymol i ddarllen y rhybudd, ac wedi hynny, dylid gofyn iddo lofnodi ail gopi i nodi a yw'n barod i gydweithredu â gwneud fideo neu gymryd rhan mewn rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp. Dylai'r copi llofnodedig gael ei gadw gan y swyddog adnabod.
- 3.19 Yn achos sawl sydd dan amheuaeth sydd wedi ei gadw, gellir cyflawni'r dyletswyddau dan *baragraffau 3.17* a *3.18* gan swyddog y ddalfa neu swyddog arall neu staff heddlu nad ydyw yn rhan o'r ymchwiliad yn unol â chyfarwyddyd swyddog y ddalfa os:
- (a) oes bwriad i ryddhau'r sawl sydd dan amheuaeth er mwyn trefnu a chynnal gweithdrefn adnabod ac os nad oes arolygydd ar gael i weithredu fel swyddog adnabod, gweler *paragraff 3.11*, cyn i'r sawl sydd dan amheuaeth adael yr orsaf; neu
  - (b) os bwriedir cadw'r sawl sydd dan amheuaeth yn nalfa'r heddlu tra bo'r weithdrefn yn cael ei threfnu a'i chynnal ac os byddai aros am arolygydd i weithredu fel swyddog adnabod,



gweler *paragraff 3.11*, yn achosi oedi afresymol i'r ymchwilid.

Bydd y swyddog dan sylw yn hysbysu'r swyddog adnabod o'r hyn a wnaed ac yn rhoi iddo gopi llofnodedig o'r hysbysiad. Gweler *Nodyn 3C*.

- 3.20 Os yw'r swyddog adnabod a'r swyddog yng ngofal yr ymchwilid yn amau, ar sail resymol, y byddai'r sawl sydd dan amheuaeth, o gael yr wybodaeth a'r hysbysiad fel ym *mharagraffau 3.17 a 3.18*, yn cymryd camau i osgoi cael ei weld gan y tyst mewn dull adnabod, gall y swyddog adnabod drefnu i gael delweddau o'r sawl sydd dan amheuaeth sy'n addas i'w defnyddio i adnabod trwy fideo cyn rhoi'r wybodaeth a'r hysbysiad. Os oes delweddau o'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael eu cymryd yn yr amgylchiadau hyn fe all y sawl sydd dan amheuaeth, ar gyfer pwrpas y dull adnabod trwy fideo, gydweithredu er mwyn darparu delweddau eraill addas i'w defnyddio yn eu lle, gweler *paragraff 3.17(vi)*.

**(c) Achosion pryd mae'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth ond nid yw ar gael**

- 3.21 Pryd mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn wybyddus ond nid yw ar gael neu mae wedi peidio â bod ar gael, gweler *paragraff 3.1A*, gall y swyddog adnabod wneud trefniadau ar gyfer adnabod trwy fideo (gweler *paragraff 3.5* ac *Atodiad A*). Os yw'n angenrheidiol gall y swyddog adnabod ddilyn y dulliau cywir ar gyfer adnabod trwy fideo yn defnyddio delweddau symudol neu lonydd ac os yw hynny'n angenrheidiol gellir eu cael trwy ddulliau dirgel. Fel arall, fe all y swyddog adnabod wneud trefniadau ar gyfer adnabod mewn grŵp heb gydsyniad y sawl sydd dan amheuaeth (gweler *Atodiad C paragraff 34*). Gweler *Nodyn 3D*. Gellir defnyddio'r darpariaethau hyn ar gyfer plant hefyd pan fo rhiant neu warcheidwad yn gwrthod rhoi ei ganiatâd neu fod ymdrechion rhesymol i gael y caniatâd hwnnw yn methu (gweler *paragraff 2.12*).
- 3.22 Dylid cyfyngu unrhyw weithredu dirgel i'r hyn sy'n gwbl angenrheidiol i brofi gallu'r llygad-dyst i adnabod y sawl sydd dan amheuaeth fel y person a welodd ar yr achlysur blaenorol perthnasol.
- 3.23 Fe all y swyddog adnabod drefnu i'r sawl sydd dan amheuaeth ddod wyneb yn wyneb â'r llygad-dyst os nad yw'r un o'r dewisiadau y cyfeirir atynt ym *mharagraffau 3.5* i *3.10* neu *3.21* yn ymarferol. Mewn "cyfwynebiad" mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn dod i gysylltiad uniongyrchol â'r tyst. Nid oes rhaid wrth ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth er mwyn cael cyfwynebiad. Rhaid i gyfwynebiadau ddigwydd yn unol ag *Atodiad D*.
- 3.24 Nid yw'r gofynion ar gyfer rhoi gwybodaeth i, neu gael gwybodaeth gan, y sawl sydd dan amheuaeth neu roi cyfle i'r sawl sydd dan amheuaeth weld delweddau cyn iddynt gael eu dangos i lygad-dyst, yn berthnasol os yw diffyg cydweithrediad y tyst yn rhwystro i'r gweithredu angenrheidiol.

**(d) Dogfennaeth**

- 3.25 Gwneir cofnod o'r adnabod trwy fideo, rhes adnabod, adnabod mewn grŵp neu gyfwynebiad ar y ffurflenni pwrpasol.
- 3.26 Os nad yw'r swyddog adnabod yn ei hystyried hi'n ymarferol i adnabod trwy fideo neu res adnabod yn unol â chais y sawl sydd dan amheuaeth, bydd y rhesymau'n cael eu cofnodi a'u hegluro i'r sawl sydd dan amheuaeth.
- 3.27 Gwneir cofnod o fethiant neu wrthodiad person i gydweithredu ag adnabod trwy fideo, rhes adnabod, adnabod mewn grŵp ac, os yw hynny'n berthnasol, y seiliau dros gael delweddau'n unol â *paragraff 3.20*.

**(e) Heb ei ddefnyddio**

- 3.28 *Heb ei ddefnyddio*.
- 3.29 *Heb ei ddefnyddio*.

**(f) Difrodi neu gadw ffotograffau a gymerwyd neu a ddefnyddiwyd mewn dulliau adnabod**

- 3.30 Mae PACE, adran 64A, gweler *paragraff 5.12*, yn darparu pwerau i dynnu lluniau o'r sawl sydd dan amheuaeth ac yn caniatáu i'r lluniau hyn gael eu defnyddio neu ddatgelu'n unig ar gyfer dibenion sy'n gysylltiedig ag atal neu ganfod troseddau, archwilio i droseddau neu gynnal erlyniadau gan, neu ar ran, yr heddlu neu awdurdodau gofodi'r ddeddf neu erlyn y tu mewn

neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig neu weithredu dedfryd. Wedi iddynt gael eu defnyddio neu ddatgelu fel hyn, gellir eu cadw ond ni ellir ond eu defnyddio neu ddatgelu ar gyfer yr un dibenion.

- 3.31 Yn unol â *pharagraff* 3.33, rhaid i luniau (a phob negatiff a chopi) o rai sydd dan amheuaeth na thynnwyd yn unol â'r darpariaethau ym *mharagraff* 5.12 a gymerir i ddibenion, neu mewn perthynas â'r, gweithdrefnau adnabod ym *mharagraffau* 3.5 i 3.10, 3.21 neu 3.23 gael eu dinistrio oni bai fod y sawl sydd dan amheuaeth:
- (a) yn cael ei gyhuddo o, neu'n cael ei hysbysu y gall gael ei erlyn am, drosedd gofnodadwy;
  - (b) yn cael ei erlyn am drosedd gofnodadwy;
  - (c) yn cael rhybudd am drosedd gofnodadwy neu'n cael rhybudd neu gerydd yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 am drosedd gofnodadwy; neu'n
  - (d) rhoi caniatâd gwybod, mewn ysgrifen, i'r lluniau neu ddelweddau gael eu cadw ar gyfer y dibenion a ddisgrifir ym *mharagraff* 3.30.
- 3.32 Pan fydd *paragraff* 3.31 yn gofyn am ddileu unrhyw lun, rhaid rhoi'r cyfle i'r person fod yn dyst i'r dinistrio neu gael tystysgrif yn cadarnhau'r dinistrio os yw'n gofyn am un o fewn pum diwrnod i gael ei hysbysu fod y dinistrio yn ofynnol.
- 3.33 Nid oes dim ym *mharagraff* 3.31 yn effeithio ar unrhyw ofynion ar wahân o dan y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliad Troseddol 1996 i gadw deunydd mewn cysylltiad ag ymchwiliadau troseddol.

***Rhan (B) Adnabod trwy dangos ffilmiau, lluniau a delweddau dan reolaeth***

- 3.34 Mae'r rhan yma o'r adran hon yn berthnasol os, i ddibenion casglu tystiolaeth o adnabyddiaeth, y gwneir trefniadau i berson, yn cynnwys swyddog yr heddlu, nad yw'n llygad-dyst (gweler *Nodyn 3AA*):
- (a) i wyllo ffilm, llun neu unrhyw gyfrwng gweledol arall; ac
  - (b) ar achlysur y gwyllo, os gofynnir a yw'n adnabod unrhyw un y mae ei lun wedi ei ddangos yn y deunydd fel rhywun sy'n hysbys iddo.
- Gellir gwneud trefniadau ar gyfer dulliau adnabod o'r fath gan y swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad perthnasol. Er nad oes gofyniad i'r swyddog adnabod wneud y trefniadau nac i'w ymgynghori ynghylch y trefniadau, nid oes dim yn atal hyn. Gweler *Nodiadau 3AA a 3G*.
- 3.35 I ddarparu mesurau diogelwch yn erbyn camadnabod ac i osgoi unrhyw bosibiliad o gydgyllwynio, ar achlysur y gweld, dylai'r trefniadau sicrhau:
- (a) fod y ffilmiau, lluniau a delweddau eraill yn cael eu dangos yn unigol;
  - (b) fod unrhyw berson sy'n gweld y deunydd;
    - (i) yn methu cyfathrebu gydag unrhyw unigolyn arall sydd, neu a fydd yn, cael gweld y deunydd;
    - (ii) ddim yn cael ei atgoffa o unrhyw lun na disgrifiad o unrhyw unigolyn y mae ei ddelwedd yn cael ei ddangos na'n cael unrhyw awgrym o ran hunaniaeth unigolyn o'r fath;
    - (iii) ddim yn cael gwybod a yw'r tyst blaenorol wedi adnabod unrhyw un;
  - (c) yn syth cyn i berson weld y deunydd, y bydd yn cael gwybod:
    - (i) ei bod yn bosibl y bydd neu na fydd unigolyn sy'n hysbys iddo yn ymddangos yn y deunydd i'w ddangos ac os nad yw'n adnabod unrhyw un, dylai ddweud hynny;
    - (ii) ar unrhyw adeg, gall ofyn i weld rhan benodol o'r deunydd wedi ei rewi i'w astudio ac nid oes terfyn ar sawl gwaith y gall weld y cyfan neu ran neu rannau o'r deunydd; ac
  - (d) na ofynnir i'r sawl sy'n gweld y deunydd wneud unrhyw benderfyniad o ran a yw'n adnabod unrhyw un y mae wedi gweld ei ddelwedd fel rhywun sy'n hysbys iddo nes ei fod wedi gweld y deunydd cyfan o leiaf ddwywaith, oni bai fod y swyddog sy'n gyfrifol am y gwyllo yn penderfynu oherwydd y nifer o ddelweddau y gwahoddwyd y person i'w gweld, y byddai'n afresymol i ofyn iddo weld y deunydd cyfan eilwaith. Rhaid cynnwys cofnod o'r

penderfyniad hwn mewn cofnod a wneid yn unol â *pharagraff* 3.36.

(gweler *Nodyn* 3G).

- 3.36 Rhaid gwneud cofnod o'r amgylchiadau ac amodau pan fydd y person yn cael cyfle i adnabod unigolyn a rhaid i'r cofnod gynnwys:
- (a) os oedd y person yn adnabod neu wedi cael gwybodaeth parthed enw neu hunaniaeth unrhyw un a amheuir;
  - (b) beth a ddywedwyd wrth y person cyn y gwylio ynghylch y drosedd, y person(au) a ddisgrifir yn y delweddau neu'r troseddwr a gan bwy;
  - (c) sut a gan bwy y gofynnwyd i'r tyst wyllo'r ddelwedd neu edrych ar yr unigolyn;
  - (d) p'un a oedd yn gwylio ar ben ei hun ac os gydag eraill, y rheswm dros hyn;
  - (e) y trefniadau ble gwyliodd y person y ffilm neu y gwelodd yr unigolyn a gan bwy y gwnaethpwyd y trefniadau hynny;
  - (f) yn amodol i *baragraff* 2.18, enw a rheng y swyddog sy'n gyfrifol am benderfynu y dylid gwneud y trefniadau gwylio yn unol â'r Rhan yma;
  - (g) y dyddiad, amser a lleoliad y gwelwyd y delweddau neu eu gweld ymhellach neu y gwelwyd yr unigolyn;
  - (h) yr amserau rhwng gwylio'r delweddau neu weld yr unigolyn;
  - (i) sut cafodd gwylio'r delweddau neu weld yr unigolyn gael ei reoli a gan bwy;
  - (j) os oedd y person yn gyfarwydd gyda'r lleoliad a ddangosir yn unrhyw rai o'r delweddau neu'r lle ble gwelodd yr unigolyn ac os felly, pam;
  - (k) p'un a oedd y person neu beidio, ar achlysur hwn, yn honni i adnabod unrhyw ddelwedd a ddangoswyd, neu unrhyw unigolyn a welwyd, fel rhywun sy'n hysbys iddo, ac os felly:
    - (i) y rheswm;
    - (ii) y geiriau o adnabyddiaeth;
    - (iii) unrhyw fynegiant o amheuaeth; a
    - (iv) pa nodweddion o'r ddelwedd neu unigolyn a ysgogodd yr adnabyddiaeth.
- 3.37 Gellir gwneud y cofnod sy'n ofynnol dan *baragraff* 3.36 gan y person sy'n gweld y ddelwedd neu'n gweld yr unigolyn ac yn ei adnabod; ac os yn berthnasol, gan y swyddog neu staff yr heddlu sy'n gyfrifol am ddangos y delweddau i'r person hwnn neu sy'n gyfrifol am yr amodau pan fydd y person hwnn yn gweld yr unigolyn. Rhaid gofyn i'r person ddarllen a gwirio'r cofnod a gwblhawyd ac, fel fo'n berthnasol, gadarnhau ei fod yn adlewyrchu'r rhan a chwaraeodd yn y gwylio yn gywir (gweler *Nodyn* 3H).

### ***Rhan (C) Adnabod trwy wyllo ffilmau, lluniau a delweddau heb reolaeth***

- 3.38 Mae'r rhan yma'n berthnasol pan, i ddiben adnabod ac olrhain rhai sydd dan amheuaeth, y bydd ffilmau a lluniau o ddigwyddiadau neu ddelweddau eraill:
- (a) yn cael eu dangos i'r cyhoedd (a all gynnwys swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu yn ogystal â'r cyhoedd) trwy'r cyfryngau cenedlaethol neu leol neu unrhyw safle rhwydweithio cymdeithasol; neu
  - (b) yn cael eu cylchedu trwy systemau cyfathrebu lleol neu genedlaethol yr heddlu i swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu eu gweld; ac heb ei reoli a goruchwyllo'n ffurfiol fel y sefydlwyd yn [Rhan B](#).
- 3.39 Cedwir copi o'r deunydd perthnasol a gaiff ei ryddhau i'r wasg genedlaethol neu leol i'w ddangos fel y disgrifir yn is-baragraff 3.38(a). Bydd y sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr yn cael gweld deunydd o'r fath cyn cynnal unrhyw weithdrefn adnabod gan lygad-dyst dan *baragraffau* 3.5 i 3.10, 3.21 neu 3.23 Rhan A, ar yr amod ei fod yn ymarferol ac na fyddai'n achosi oedi afresymol i'r ymchwiliad. Nid yw'r paragraff hwn yn effeithio ar unrhyw ofyniad gwahanol dan y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 i gadw deunydd a allai fod yn berthnasol i *is-baragraffau* 3.38(a) a (b).
- 3.40 Fe ofynnir i bob llygad-dyst sy'n ymwneud ag unrhyw weithdrefn adnabod llygad-dyst dan

baragraffau 3.5 i 3.10, 3.21 neu 3.23 wedi iddo gymryd rhan, os yw wedi gweld unrhyw ffilin, lun neu ddelwedd yn ymwneud â'r drosedd neu unrhyw ddisgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth sydd wedi ei ddarlledu neu gyhoeddi fel y disgrifir ym *mharagraff 3.38(a)* ac fe gofnodir ei ymateb. Os yw wedi, dylid gofyn am fanylion yr amgylchiadau ac yn amodol i atgof y llygad-dyst, dylid cwblhau'r cofnod a ddisgrifir ym *mharagraff 3.41*.

- 3.41 Cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi i unigolyn (aelod o'r cyhoedd, swyddog yr heddlu neu staff yr heddlu) ddynodi mewn ymateb i wyllo y gall fod ganddo wybodaeth parthed hunaniaeth a lleoliad unrhyw un y mae wedi ei weld yn y gwyllo hwnnw, dylid gwneud trefniadau i sicrhau y gofynnir iddo roi manylion yr amgylchiadau ac, yn amodol i atgof yr unigolyn, wneud cofnod o'r amgylchiadau a'r amodau ble digwyddodd y gwyllo. Bydd y cofnod hwn yn cael ei wneud yn unol â darpariaethau *paragraff 3.36* i'r graddau ag y gellir eu rhoi ar waith o ran y gwyllo dan sylw (gweler [Nodyn 3H](#)).

### **Nodiadau arweiniad**

- 3AA *Ni ddylid defnyddio'r gweithdrefnau adnabod llygad-dyst yn Rhan A i brofi os all tyst adnabod person fel rhywun mae'n adnabod ac a fyddai'n gallu rhoi tystiolaeth o adnabyddiaeth tebyg i "Ar (disgrifiad o'r dyddiad, amser, lleoliad ac amgylchiadau) fe welais ddelwedd o unigolyn gan ei adnabod fel AB." Yn yr achosion hyn, bydd y gweithdrefnau yn Rhan B yn berthnasol os yw'r gwyllo wedi ei reoli a bydd y weithdrefn yn Rhan C yn berthnasol os nad yw'r gwyllo wedi ei reoli.*
- 3ZA *Ym mharagraff 3.5(a)(i), mae enghreifftiau o newidiadau neu wahaniaethau corfforol y gallai'r swyddog adnabod fod eisiau eu hystyried yn cynnwys arddull a lliw gwallt, pwysau, gwallt wynebg neu ddyddu sbectolau a lensys cyffwrdd lliw, anafiadau i'r wyneb, tatŵs a cholur.*
- 3A *Ac eithrio'r darpariaethau yn Atodiad E, paragraff 1, mae swyddog heddlu sy'n dyst ar gyfer dibenion y rhan hon o'r Cod yn atebol i'r un egwyddorion a dulliau o weithredu a thyst lleyg.*
- 3B *Pan fo tyst sy'n mynychu dull adnabod eisoes wedi gweld ffotograffau, neu wedi gweld delweddau cyfrifiadurol neu argraffiadau cyfansawdd artist, neu argraffiadau neu luniau tebyg, y swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad sy'n gyfrifol am roi gwybod hyn i'r swyddog adnabod.*
- 3C *Pwrpas paragraff 3.19 yw osgoi neu atal oedi wrth drefnu dulliau adnabod trwy alluogi'r wybodaeth a'r rhybuddion y gofynnir amdanynt, gweler is-baragraffau 3.17(ix) a 3.17(xii), i gael eu rhoi cyn gynted â phosibl.*
- 3D *Byddai paragraff 3.21 yn berthnasol pan fo person dan amheuaeth yn 'peidio bod ar gael' ac felly'n oedi neu ddrysu trefniadau ar gyfer cael tystiolaeth adnabod. Mae hefyd yn berthnasol pan fo'r sawl sydd dan amheuaeth yn gwrthod neu'n methu cymryd rhan mewn adnabod trwy fideo, rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp, neu'n gwrthod neu'n methu cymryd rhan yn yr unig ddewisiadau ymarferol ar y rhestr honno. Mae'n galluogi unrhyw ddelweddau addas o'r sawl sydd dan amheuaeth, symudol neu lonydd, sydd ar gael neu y gellir eu cael, i gael eu defnyddio mewn dull adnabod. Mae enghreifftiau yn cynnwys delweddau o'r ddalfa a systemau CCTV eraill a chofnodion cyfweiliadau a recordiwyd yn weledol, gweler Cod F Nodyn am Arweiniad 2D.*
- 3E *Pan fo bwriad i ddangos lluniau i dyst yn unol ag Atodiad E, cyfrifoldeb y swyddog sydd yng ngofal yr ymchwiliad yw cadarnhau i'r swyddog sy'n gyfrifol am oruchwyllo a chyfarwyddo'r dangos, fod y disgrifiad a roddwyd gyntaf gan y tyst o'r sawl sydd dan amheuaeth wedi ei gofnodi. Os nad yw'r disgrifiad hwn wedi ei gofnodi, rhaid gohirio'r dull cywir o weithredu o dan Atodiad E, gweler Atodiad E paragraff 2.*
- 3F *Fe all derbynioldeb a gwerth y dystiolaeth adnabod a gafwyd wrth gynnal y weithdrefn o dan baragraff 3.2 gael ei beryglu os:*
- (a) *tynnir sylw'r tyst at berson arbennig, cyn iddo gael ei adnabod; neu*
- (b) *daw'n wybyddus pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth cyn cynnal y weithdrefn.*
- 3G *Gall derbynioldeb a gwerth tystiolaeth adnabod a gesglir wrth gyflawni'r gweithdrefnau yn Rhan B fod wedi eu cyfaddawdu os, cyn adnabod y person, mae'r tyst sy'n honni i fod wedi ei adnabod yn derbyn neu'n cael ei wneud yn ymwybodol, neu'n dod yn ymwybodol o wybodaeth ynghylch y person nad oedd yn hysbys iddo'n bersonol ond y mae'n ymhoeni i fod wedi dibynnu arno*

*gefnogi ei hawliad fod y person yn hysbys iddo.*

- 3H *mae'n bwysig fod y cofnod y cyfeirir ato ym mharagraffau 3.36 a 3.41 yn cael ei wneud cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi'r weithdrefn adnabod a thra'i fod yn ffres yng nghof yr unigolyn sy'n adnabod.*

D

**4 Adnabod trwy olion bysedd ac olion esgidiau****(A) Cymryd olion bysedd mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol****(a) Cyffredinol**

4.1 Mae cyfeiriadau at 'olion bysedd' yn golygu unrhyw gofnod a gynhyrchwyd mewn unrhyw fodd o batrwm y croen a nodweddion ffisegol eraill neu nodweddion:

- (i) bysedd; neu
- (ii) gledrau dwylo person.

**(b) Gweithredu**

4.2 Ni ellir cymryd olion bysedd person mewn cysylltiad ag ymchwiliad i drosedd ond os yw'n rhoi ei ganiatâd neu os yw *paragraff 4.3* yn berthnasol. Os yw'r person mewn gorsaf heddlu rhaid i'r caniatâd fod yn ysgrifenedig.

4.3 Mae PACE, adran 61, yn darparu grymoedd i gymryd olion bysedd heb ganiatâd gan unrhyw un sy'n ddeg oed neu'n hŷn fel a ganlyn:

(a) dan *adran 61(3)*, gan sawl sy'n cael ei gadw mewn swyddfa heddlu o ganlyniad i'w arestio am drosedd gofnodadwy, gweler *Nodyn 4A*, ac na chymerwyd ei olion bysedd yng nghwrs ymchwiliad i'r drosedd oni bai nad yw'r olion bysedd a gymerwyd yn ffurfio set gyflawn o'u hollion bysedd neu fod rhai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd ddim o safon digon da i alluogi dadansoddiad boddhaol, cymharu na chyfateb.

(b) dan *adran 61(4)*, gan sawl sy'n cael ei gadw mewn swyddfa heddlu sydd wedi ei gyhuddo o drosedd gofnodadwy, gweler *Nodyn 4A*, neu gael ei hysbysu ei fod am gael ei riportio am drosedd o'r fath ac na chymerwyd ei olion bysedd yng nghwrs ymchwiliad i'r drosedd oni bai nad yw'r olion bysedd a gymerwyd yn ffurfio set gyflawn o'u hollion bysedd neu fod rhai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd ddim o safon digon da i alluogi dadansoddiad boddhaol, cymharu na chyfateb.

(c) dan *adran 61(4A)*, gan berson sydd wedi ei fechnïo i ymddangos mewn llys neu swyddfa heddlu os yw'r person:

- (i) wedi ateb i fechnïaeth ar ran person y cymerwyd ei olion bysedd o'r blaen a bod sail resymol dros gredu nad yw'r un person; neu
- (ii) wedi ateb i fechnïaeth ac yn honni ei fod yn berson gwahanol i'r person y cymerwyd ei olion bysedd o'r blaen;

ac yn y ddau achos, fod y llys neu swyddog o safle arolygydd neu uwch yn awdurdodi'r olion bysedd i gael eu cymryd yn y llys neu orsaf heddlu (gellir rhoi awdurdod gan arolygydd yn ysgrifenedig neu ar lafar a'i gadarnhau'n ysgrifenedig, cyn gynted ag sy'n ymarferol);

(ca) dan *adran 61(5A)* gan berson sydd wedi cael ei arestio am drosedd gofnodadwy a'i ryddhau os yw'r person:

- (i) ar fechnïaeth ac nad yw wedi cael cymryd ei olion bysedd yn ystod yr ymchwiliad i'r drosedd, neu;
- (ii) wedi cael cymryd ei olion bysedd yn ystod yr ymchwiliad i'r drosedd, ond nad ydynt yn cyfateb i set gyflawn neu nad yw rhai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd o safon ddigonol i ganiatáu dadansoddiad, cymhariaeth neu baru boddhaol.

(cb) dan *adran 61(5B)* gan berson nad yw wedi ei gadw mewn gorsaf heddlu sydd wedi ei gyhuddo o drosedd gofnodadwy neu ei hysbysu y bydd yn cael ei riportio am drosedd o'r fath os:

- (i) na chymerwyd ei olion bysedd yn ystod yr ymchwiliad; neu
- (ii) y cymerwyd ei olion yn ystod yr ymchwiliad i'r drosedd ond naill ai:
  - nad ydynt yn cyfateb i set gyflawn neu nad yw rhai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd o safon ddigonol i ganiatáu dadansoddiad, cymhariaeth neu baru boddhaol; neu
  - mae'r ymchwiliad wedi terfynu ond yna ei ailgychwyn ac, cyn ailgychwyn, fe ddiinstriwyd ei olion bysedd yn unol ag *adran 63D(3)*.

- (d) dan *adran 61(6)*, gan berson sydd wedi:
- (i) ei gollfarnu am drosedd gofnodadwy; neu
  - (ii) wedi cael rhybudd parthed trosedd gofnodadwy (gweler *Nodyn 4A*) y mae'r person wedi, ar adeg y rhybudd, gyfaddef iddo;  
os, ers cael ei gollfarnu neu rybuddio:

- na chymerwyd ei olion bysedd; neu
- nad yw ei olion bysedd a gymerwyd yn cyfateb i set gyflawn neu nad yw rhai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd o safon ddigonol i ganiatáu dadansoddiad, cymhariaeth neu baru boddhaol; ac yn y naill achos, mae swyddog o reng arolygydd neu uwch yn fodlon bod angen cymryd yr olion bysedd i gynorthwyo i atal neu ganfod trosedd ac yn awdurdodi eu cymryd;

- (e) dan *adran 61(6A)* gan berson y mae heddwas yn amau'n rhesymol i fod yn cyflawni neu'n ceisio cyflawni, neu wedi cyflawni neu geisio cyflawni, unrhyw drosedd os naill ai:

- (i) mae enw'r person yn anhysbys i, neu ni ellir ei ganfod yn hwylus gan yr heddwes; neu
- (ii) mae gan yr heddwes sail resymol dros amau a yw enw a roddwyd gan berson fel ei enw ei enw mewn gwirionedd.

Sylwer: nid ystyrir bod olion bysedd a gymerwyd dan y pŵer hwn i fod wedi eu cymryd yn ystod ymchwiliad i drosedd.

[Gweler *Nodyn 4C*]

- (f) dan *adran 61(6D)* gan berson sydd wedi ei gollfarnu tu allan i Gymru a Lloegr am drosedd pe byddai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr yn drosedd cymhwysol fel y diffiniwyd gan PACE, *adran 65A* (gweler *Nodyn 4AB*) os:

- (i) nad yw olion bysedd y person wedi eu cymryd yn flaenorol dan y pŵer hwn neu os cymerwyd ei olion bysedd ar achlysur blaenorol ond nad ydynt yn cyfateb i set gyflawn neu nad yw rhai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd o safon ddigonol i ganiatáu dadansoddiad, cymhariaeth neu baru boddhaol; ac
- (ii) mae swyddog yr heddlu o reng arolygydd neu uwch yn fodlon bod angen cymryd olion bysedd i gynorthwyo i atal neu ganfod trosedd ac yn awdurdodi eu cymryd.

4.4 Mae PACE, *adran 63A(4)* ac *Atodlen 2A* yn darparu pwerau i:

- (a) wneud gofyniad (yn unol ag *Atodiad G*) i berson fynychu gorsaf heddlu i gael cymryd ei olion bysedd wrth arfer un o'r pwerau canlynol (a ddisgrifir ym *mharagraff 4.3* uchod) o fewn cyfnodau penodol fel a ganlyn:

- (i) *adran 61(5A)* – Personau sydd wedi cael eu harestio am drosedd gofnodadwy a'u rhyddhau, gweler *paragraff 4.3(ca)*: Yn achos person y cymerwyd ei olion bysedd yn ystod ymchwiliad ond nad yw ei olion bysedd yn cyfateb i set gyflawn neu nad yw rhai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd o safon ddigonol, ni ellir gwneud y gofyniad fwy na chwe mis o'r dyddiad yr hysbyswyd y swyddog ymchwilio fod yr olion bysedd a gymerwyd yn flaenorol yn anghyflawn neu islaw'r safon. Yn achos person ble dinistriwyd ei olion bysedd cyn ailgychwyn yr ymchwiliad, ni ellir gwneud y gofyniad fwy na chwe mis o'r diwrnod pan ailgychwynnodd yr ymchwiliad.

- (ii) *adran 61(5B)* – Personau nad ydynt wedi eu cadw mewn gorsaf heddlu a gyhuddwyd ayyb o drosedd gofnodadwy, gweler *paragraff 4.3(cb)*: Ni ellir gwneud y gofyniad fwy na chwe mis:

- o'r dyddiad pan gafodd y person ei gyhuddo neu hysbysu y byddai'n cael ei riportio, os na chymerwyd olion bysedd yn ystod yr ymchwiliad i'r drosedd; neu
- o'r diwrnod yr hysbyswyd y swyddog ymchwilio fod yr olion bysedd a gymerwyd yn flaenorol yn anghyflawn neu'n is na'r safon ofynnol, os cymerwyd yr olion bysedd yn ystod yr ymchwiliad ond nad yw'r olion bysedd hynny yn cyfateb i set gyflawn o rai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd ac nad ydynt o safon ddigonol; neu
- o'r diwrnod pan ailgychwynnodd yr ymchwiliad, yn achos person y dinistriwyd ei olion bysedd cyn ailgychwyn yr ymchwiliad.

(iii) *adran 61(6)* – Personau sydd wedi eu collfarnu neu rybuddio am drosedd gofnodadwy yng Nghymru a Lloegr, gweler *paragraff 4.3(d)*: Ble mae'r drosedd y cafodd y person ei gollfarnu neu rybuddio amdani yn drosedd gymwysadwy (gweler *Nodyn 4AB*), nid oes terfyn amser i arfer y pŵer hwn. Ble mae'r gollfarn neu rybudd ar gyfer trosedd gofnodadwy nad yw'n drosedd gymwysadwy, ni ellir gwneud y gofyniad fwy na dwy flynedd o:

- yn achos person nad yw wedi cael cymryd ei olion bysedd ers y gollfarn neu rybudd, y diwrnod pan gafodd y person ei gollfarnu neu rybuddio neu, os yn hwyrach, y dyddiad pan ddaeth Atodlen 2A i rym (7 Mawrth, 2011); neu
- yn achos person y cymerwyd ei olion bysedd yn ystod ymchwiliad ond nad yw ei olion bysedd yn cyfateb i set gyflawn neu mae rhai, neu'r cyfan, o'r olion bysedd heb fod o safon ddigonol, y diwrnod pan hysbyswyd swyddog o'r heddlu sy'n ymchwilio i'r drosedd fod yr olion bysedd a gymerwyd yn flaenorol yn anghyflawn neu islaw'r safon, neu, os yn hwyrach, y diwrnod pan ddaeth Atodlen 2A i rym (7 Mawrth, 2011).

(iv) *adran 61(6D)* – Person sydd wedi ei gollfarnu ar gyfer trosedd gymwysedig (gweler *Nodyn 4AB*) tu allan i Gymru a Lloegr, gweler *paragraff 4.3(g)*: Nid oes cyfyngiad amser ar gyfer y gofyniad.

Sylwer: Ni ellir gofyn i berson sydd wedi cael cymryd ei olion bysedd dan unrhyw un o'r pŵerau yn *adran 61* a grybwyllwyd ym *mharagraff 4.3* ar ddau achlysur mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd dan Atodlen 2A i fynychu gorsaf heddlu er mwyn cymryd ei olion bysedd eto dan *adran 61* parthed y drosedd honno, oni bai yr awdurdodwyd hynny gan swydd o reng arolygydd neu uwch. Rhaid cofnodi ffaith yr awdurdodiad a'r rhesymau dros ei roi cyn gynted ag sy'n ymarferol.

(b) arestio, heb warant, berson sy'n gwrthod cydymffurfio â'r cais.

4.5 Gall olion bysedd person gael eu cymryd, fel uchod, yn electronig.

4.6 Gellir defnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, i gymryd olion bysedd person heb ei ganiatâd dan y pŵerau ym *mharagraffau 4.3 a 4.4*.

4.7 Cyn y gellir cymryd olion bysedd:

(a) heb ganiatâd dan unrhyw bŵer a grybwyllwyd ym *mharagraffau 4.3 a 4.4* uchod, rhaid hysbysu'r person:

- (i) o'r rheswm fod ei olion bysedd yn cael eu cymryd;
- (ii) dan pa bŵer y maent yn cael eu cymryd; ac
- (iii) y ffaith fod yr awdurdod perthnasol wedi cael ei roi os yw'r pŵer a grybwyllir ym *mharagraff 4.3(c), (d)* neu *(f)* yn berthnasol

(b) gyda neu heb ganiatâd mewn gorsaf heddlu neu rywle arall, rhaid hysbysu'r person:

- (i) y gall yr olion bysedd gael eu cadw a'u defnyddio mewn chwiliad yn erbyn olion bysedd eraill, gweler *Nodyn 4B*; ac
- (ii) y gellir cadw ei olion bysedd yn unol ag *Atodiad F, Rhan (a)* oni bai y cawsant eu cymryd dan y pŵer a grybwyllwyd ym *mharagraff 4.3(e)* pan fydd yn rhaid eu dinistrio wedi eu gwirio (Gweler *Nodyn 4C*).

**(c) Dogfennaeth**

4.8A Rhaid gwneud cofnod cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi cymryd yr olion bysedd:

- o'r materion ym *mharagraff 4.7(a)(i)* i *(iii)* a'r ffaith fod y person wedi ei hysbysu o'r materion hynny; ac
- o'r ffaith fod y person wedi ei hysbysu o'r materion ym *mharagraff 4.7(b)(i)* a *(ii)*.

Rhaid gwneud cofnod yng nghofnod y ddalfa'r person os yw'n cael ei gadw mewn gorsaf heddlu pan gymerir yr olion bysedd.

4.8 Os defnyddir grym, gwneir cofnod o'r amgylchiadau a'r sawl sy'n bresennol.

4.9 Heb ei ddefnyddio



**(B) Heb ei ddefnyddio**

- 4.10 *Heb ei ddefnyddio*
- 4.11 *Heb ei ddefnyddio*
- 4.12 *Heb ei ddefnyddio*
- 4.13 *Heb ei ddefnyddio*
- 4.14 *Heb ei ddefnyddio*
- 4.15 *Heb ei ddefnyddio*

**(C) Cymryd olion esgidiau mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol**

**(a) Gweithredu**

- 4.16 Gellir cymryd olion esgidiau person ar gyfer dibenion ymchwilio i drosedd gyda chaniatâd y person yn unig neu os yw *paragraff 4.17* yn berthnasol. Os yw'r person mewn gorsaf heddlu mae'n rhaid i'r caniatâd fod yn ysgrifenedig.
- 4.17 Mae PACE, adran 61A, yn darparu pwerau i swyddog heddlu gymryd olion esgidiau heb ganiatâd gan unrhyw berson sydd dros ddeg oed sy'n cael ei gadw mewn gorsaf heddlu:
  - (a) o ganlyniad i'w arestio am drosedd gofnodadwy, gweler *Nodyn 4A*; neu os yw'r sawl sy'n cael ei gadw wedi ei gyhuddo o drosedd gofnodadwy, neu ei hysbysu y bydd yn cael ei riportio am drosedd o'r fath; ac
  - (b) os na chymerwyd olion esgidiau yng nghwrs ymchwiliad i'r drosedd oni bai nad yw'r olion esgidiau a gymerwyd yn ffurfiol set gyflawn o'i olion esgidiau neu fod yr olion esgidiau ddim o safon digon da i alluogi dadansoddiad boddhaol, cymharu na chyfateb (boed yn yr achos dan sylw neu yn gyffredinol).
- 4.18 Gellir defnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, i gymryd olion esgidiau person heb ei ganiatâd dan y pwerau a nodir ym *mharagraff 4.17*.
- 4.19 Cyn y gellir cymryd olion esgidiau gyda, neu heb ganiatâd fel uchod, rhaid hysbysu'r person:
  - (a) o'r rheswm fod ei olion esgidiau yn cael eu cymryd;
  - (b) y gall yr olion esgidiau gael eu cadw a'u defnyddio mewn chwiliad yn erbyn olion esgidiau eraill, gweler *Nodyn 4B*, os nad oes angen dinistrio'r olion yn unol ag *Atodiad F, Rhan B*.

**(b) Dogfennaeth**

- 4.20 Rhaid gwneud cofnod cyn gynted â phosibl o'r rheswm dros gymryd olion esgidiau person heb ei ganiatâd. Os defnyddir grym, gwneir cofnod o'r amgylchiadau a'r sawl sy'n bresennol.
- 4.21 Gwneir cofnod wedi i berson gael ei hysbysu dan delerau *paragraff 4.19(b)*, o'r posibilrwydd y gall ei olion esgidiau fod yn destun chwiliad dyfaliadol.

**Nodiadau arweiniad**

- 4A *Mae cyfeiriadau at 'droseddau cofnodadwy' yn y Cod hwn yn cyfeirio at y troseddau hynny y gall dedfrydau, rhybuddion a cheryddon gael eu cofnodi yng nghofnodion cenedlaethol yr heddlu. Gweler PACE, adran 27(4). Y troseddau cofnodadwy sy'n gyfredol ar adeg paratoi'r Cod hwn yw unrhyw droseddau sy'n ennyn dedfryd o garchar (beth bynnag fo'r cyfnod, neu oed y troseddwr neu'r ddedfryd a gafwyd) yn ogystal â throseddau nad ydynt yn ennyn carchar dan Ddeddf Crwydraeth Act 1824 adrannau 3 a 4 (cardota a chardota parhaus), Deddf Troseddau Stryd 1959, adran 1 (loetran at ddibenion puteinio), Deddf Traffig Ffyrdd 1988, adran 25 (ymyrryd â cherbydau ffordd), Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, adran 167 (twtio am wasanaethau llogi ceir) ac eraill a restrir yn Rheoliadau Cofnodion Cenedlaethol yr Heddlu (Troseddau Cofnodadwy) 2000 fel y'i diwygiwyd.*
- 4AB *Mae trosedd gymwysedig yn un o'r troseddau a bennir yn PACE, adran 65A. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio neu fygwth trais neu rym anghyfreithlon yn erbyn personau, troseddau rhyw, troseddau yn erbyn plant a throseddau eraill, er enghraifft:*
  - Ilofruddiaeth, carcharu ar gam, herwgio yn groes i Gyfraith gwlad
  - dynladdiad, cynllunio i lofruddio bygwth lladd, anafu gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol difrifol (GBH), achosi GBH ac ymosodiad yn achosi niwed corfforol gwirioneddol yn groes i'r

*Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861;*

- *meddiant troseddol neu ddefnyddio arfau tanio yn groes i adrannau 16 i 18 Ddeddf Arfau Tanio 1968;*
- *lladrad, bwrgleriaeth a bwrgleriaeth waethygedig yn groes i adrannau 8, 9 neu 10 y Ddeddf Lladrata 1968 neu drosedd dan adran 12A y Ddeddf honno yn ymwneud â damwain a achosodd farwolaeth person;*
- *difrod troseddol sy'n galw am gyhuddiad o losgi bwriadol yn groes i adran 1 y Ddeddf Difrod Troseddol 1971;*
- *tynnu, meddiannu neu ddangos lluniau anwedus o blant yn groes i adran 1 y Ddeddf Amddiffyn Plant 1978;*
- *trais, ymosodiad rhywiol, troseddau rhyw yn erbyn plant, dinoethiad ac unrhyw droseddau eraill yn groes i'r Ddeddf Troseddau Rhyw 2003.*

4B *Gall olion bysedd, olion esgidiau neu samplau DNA (a'r wybodaeth sy'n deillio ohonynt) a gymerwyd gan berson a arestiwyd ar amheuaeth o fod yn gysylltiedig â throsedd gofnodadwy, neu a gyhuddwyd o drosedd o'r fath, neu a hysbyswyd ei fod am gael ei rportio am drosedd o'r fath, gael eu defnyddio mewn chwiliad. Mae hyn yn golygu y gall yr olion bysedd, olion esgidiau neu samplau DNA gael eu gwirio yn erbyn cofnodion eraill o olion bysedd, olion esgidiau neu samplau DNA a gedwir gan, neu ar ran, yr heddlu neu awdurdodau gweithredu'r gyfraith eraill o fewn, neu'r tu allan, i'r Deyrnas Unedig, neu a gedwir mewn cysylltiad ag, neu o ganlyniad i, ymchwiliad i drosedd y tu mewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.*

4C *Mae'r pŵer dan adran 61(6A) PACE a ddisgrifir ym mharagraff 4.3(e) yn caniatáu cymryd olion bysedd sawl a amheuir nad yw wedi ei arestio, ac nad yw ei enw yn hysbys neu na ellir ei bennu neu sydd wedi rhoi enw amheus, mewn perthynas ag unrhyw drosedd (os yw'n gofnodadwy neu beidio) yn defnyddio dyfais symudol ac yna ei wirio ar y stryd yn erbyn y gronfa ddata sy'n cynnwys y casgliad cenedlaethol o olion bysedd. Ni ellir cadw olion bysedd a gymerwyd dan y pŵer hwn wedi eu gwirio. Gallai'r canlyniadau olygu nad yw arestio ar gyfer y drosedd a amheuir yn seiliedig ar yr amod enw yn angenrheidiol (Gweler Cod G paragraff 2.9(a)) a galluogi i'r drosedd gael ei gwaredu heb arestio, er enghraifft, trwy wysio/cyhuddo trwy'r post, hysbysiad cosb neu eiriau o gyngor. Os yw arestio am drosedd nad yw'n gofnodadwy yn angenrheidiol am unrhyw reswm arall, gellir hefyd arfer y pŵer hwn yn yr orsaf. Cyn arfer y pŵer, dylai'r swyddog:*

- *hysbysu'r person o natur y drosedd a amheuir a pham ei fod dan amheuaeth o'i chyflawni.*
- *roi cyfle rhesymol iddo sefydlu ei enw go iawn cyn penderfynu nad yw ei enw yn hysbys ac na ellir ei bennu'n hwylus neu nad oes seiliau rhesymol i amau fod enw y mae eisoes wedi ei roi ei enw go iawn.*
- *fel fo'n berthnasol, i hysbysu'r person o'r rheswm pam nad yw ei enw yn hysbys ac na ellir ei bennu yn hwylus neu o'r sail dros amau nad yr enw a roddwyd mewn gwirionedd yw ei enw iawn gan gynnwys, er enghraifft, y rheswm pam fod dogfen benodol mae'r person wedi ei gynhyrchu i ddilysu ei enw go iawn, yn ddigonol.*

4D *Heb ei ddefnyddio.*

**5 Archwiliadau i sefydlu pwy yw person a thynnu lluniau****(A) Rhai a gedwir mewn gorsafodd heddlu****(a) Chwilio neu archwilio rhai sy'n cael eu cadw mewn gorsafodd heddlu**

5.1 Mae PACE, adran 54A(1), yn caniatáu i sawl sy'n cael ei gadw mewn gorsaf heddlu i gael ei chwilio neu ei archwilio neu'r ddau, er mwyn sefydlu:

(a) a oes ganddo unrhyw farciau, nodweddion neu anafiadau a fyddai'n awgrymu ei fod yn berson sy'n gysylltiedig â throsedd ac i gymryd llun o unrhyw farciau adnabod, gweler *paragraff 5.5*; neu

(b) ei hunaniaeth, gweler *Nodyn 5A*.

Nid yw person a gedwir mewn swyddfa heddlu i'w chwilio dan bŵer atal a chwilio, gweler Cod A, yn berson a gedwir ar gyfer dibenion y pwerau hyn.

5.2 Ni ellir cynnal chwiliad ac/neu archwiliad i ganfod marciau dan adran 54A (1) (a) heb ganiatâd y sawl sy'n cael ei gadw, gweler *paragraff 2.12*, ond os yw swyddog o safle arolygydd o leiaf yn awdurdodi hynny pan fo caniatâd yn cael ei wrthod neu pan nad ydyw cael caniatâd yn ymarferol, gweler *Nodyn 5D*.

5.3 Ni ellir cynnal chwiliad ac/neu archwiliad i sefydlu pwy yw person dan 54A (1) (b) heb ganiatâd y sawl sy'n cael ei gadw, gweler *paragraff 2.12*, ond os yw swyddog o safle arolygydd o leiaf yn awdurdodi hynny pan fo'r person sy'n cael ei gadw wedi gwrthod dweud pwy ydyw neu fod gan y swyddog awdurdodi sail resymol dros amau ei fod yn berson gwahanol i bwy mae'n honni bod.

5.4 Mae unrhyw farciau sy'n gymorth i sefydlu pwy yw'r sawl sy'n cael ei gadw, neu i adnabod person sy'n gysylltiedig â throsedd, yn farciau adnabod. Gellir tynnu lluniau o farciau o'r fath gyda chaniatâd, gweler *paragraff 2.12*; neu heb ganiatâd os yw'n cael ei wrthod neu os nad ydyw cael caniatâd yn ymarferol, gweler *Nodyn 5D*.

5.5 Dan adran 54A, ni ellir ond chwilio, archwilio a thynnu llun o berson a gedwir gan swyddog heddlu o'r un rhyw.

5.6 Ni ellir ond defnyddio unrhyw luniau o farciau adnabod o gymerwyd dan adran 54A ar gyfer dibenion sy'n gysylltiedig ag atal neu ddatrys troseddau, archwilio i droseddau neu gynnal erlyniadau gan, neu ar ran, yr heddlu neu awdurdodau erlyn neu weithredu'r gyfraith eraill o fewn, a'r tu allan, i'r Deyrnas Unedig. Ar ôl ei ddefnyddio neu'i ddatgelu fel hyn, gellir cadw'r llun ond ni ddylid ei ddefnyddio na'i ddatgelu ar wahân i'r dibenion hyn, gweler *Nodyn 5B*.

5.7 Nid yw'r pwerau, fel ym *mharagraff 5.1* yn effeithio ar unrhyw ofnion ar wahân dan y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliad Troseddol 1996 i gadw deunydd mewn cysylltiad ag ymchwiliadau troseddol.

5.8 Gall awdurdod i chwilio ac/neu archwilio ar gyfer y dibenion ym *mharagraffau 5.2 a 5.3* gael ei roi ar lafar neu'n ysgrifenedig. Os rhoddir ef ar lafar, rhaid i'r swyddog awdurdodi ei gadarnhau ar bapur cyn gynted â phosibl. Mae angen awdurdodiad gwahanol ar gyfer pob pwrpas sy'n berthnasol.

5.9 Os sefydlir bod person a gedwir yn amharod i gydweithredu digon i alluogi cynnal chwiliad ac/neu archwiliad neu lun addas i gael ei gymryd, gall swyddog ddefnyddio grym rhesymol i:

(a) chwilio ac/neu archwilio'r sawl sy'n cael ei gadw heb ei ganiatâd; a

(b) thynnu llun o unrhyw farciau adnabod heb ei ganiatâd.

5.10 Ni ddylai trylwyredd a graddau unrhyw chwiliad neu archwiliad a gynhelir yn unol â'r pwerau yn adran 54A fod yn fwy nag y mae'r swyddog yn ei ystyried yn angenrheidiol i gyflawni'r hyn sydd ei angen. Bydd unrhyw chwiliad neu archwiliad sy'n golygu diosg mwy na dillad allanol person yn cael ei gynnal yn unol â Chod C, Atodiad A, *paragraff 11*.

5.11 Ni ellir cynnal chwiliad personol dan y pwerau yn adran 54A.

**(b) Tynnu lluniau o rai sy'n cael eu cadw mewn swyddfeydd heddlu a phobl eraill mewn mannau ar wahân i orsaf heddlu**

5.12 Dan PACE, adran 64A, gall swyddog dynnu llun o:

- D**
- (a) unrhyw berson tra ei fod yn cael ei gadw mewn gorsaf heddlu; ac
  - (b) unrhyw berson sydd mewn man ar wahân i orsaf heddlu ac sydd wedi:
    - (i) ei arestio gan heddwes am drosedd;
    - (ii) ei gymryd i'r ddalfa gan heddwes ar ôl cael ei arestio am drosedd gan rywun ac eithrio heddwes;
    - (iii) ei wneud yn destun gofyniad i aros gyda swyddog cefnogaeth cymunedol dan baragraff 2(3) neu (3B) Atodlen 4 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002;
    - (iiia) wedi derbyn cyfarwyddyd gan heddwes dan adran 27 y Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006.
    - (iv) derbyn hysbysiad o gosb gan heddwes mewn iwnniform dan Bennod 1 Rhan 1 Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001, hysbysiad o gosb gan heddwes dan adran 444A Deddf Addysg 1996, neu hysbysiad o gosb sefydlog gan heddwes mewn iwnniform dan adran 54 Deddf Troseddwy'r Traffig y Ffyrdd 1988;
    - (v) derbyn hysbysiad mewn perthynas â throsedd cosb sefydlog perthnasol (o fewn ystyr paragraff 1 Atodlen 4 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002) gan swyddog cefnogaeth cymunedol yn rhinwedd dynodiad sy'n golygu bod y paragraff yn berthnasol iddo ef/hi;
    - (vi) derbyn hysbysiad mewn perthynas â throsedd cosb sefydlog perthnasol (o fewn ystyr paragraff 1 Atodlen 5 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002) gan berson achrededig yn rhinwedd dynodiad sy'n golygu bod y paragraff yn berthnasol iddo ef/hi; neu
    - (vii) dderbyn cyfarwyddyd i adael a pheidio dychwelyd i leoliad penodedig am hyd at 48 awr gan heddwes (dan adran 27 y Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006).

5.12A Gall lluniau a gymerir dan PACE, adran 64A:

- (a) gael eu cymryd gyda chaniatâd y person, neu heb ganiatâd os na roddir caniatâd neu os nad yw'n ymarferol cael ei ganiatâd, gweler *Nodyn 5E*; a
- (b) gellir ond eu defnyddio ar gyfer dibenion sy'n gysylltiedig ag atal neu ddatrys troseddau, archwilio i droseddau neu gynnal erlyniadau gan, neu ar ran, yr heddlu neu awdurdodau erlyn neu weithredu'r gyfraith eraill o fewn, a'r tu allan, i'r Deyrnas Unedig neu orfodi unrhyw ddeddf neu orchymyn a wnaed gan lys wrth ddelio gyda throsedd. Wedi iddynt gael eu defnyddio neu ddatgelu fel hyn, gellir eu cadw ond ni ellir ond eu defnyddio neu ddatgelu ar gyfer yr un dibenion. Gweler *Nodyn 5B*.

5.13 Gall swyddog sy'n bwriadu tynnu llun o berson a gedwir ofyn, ar gyfer y pwrpas hwn, i'r person ddiosg unrhyw eitem neu sylwedd a wisgir ar, neu dros, y cyfan, neu unrhyw ran, o'r pen neu wyneb. Os nad yw'n cydymffurfio â chais o'r fath, gall y swyddog ddiosg unrhyw eitem neu sylwedd.

5.14 Os sefydlir bod y sawl sy'n cael ei gadw yn amharod i gydweithredu digon i alluogi tynnu llun addas ac os nad ydyw yn rhesymol ymarferol i dynnu'r llun yn ddirgel, gall y swyddog ddefnyddio grym rhesymol, gweler *Nodyn 5F*.

- (a) i dynnu ei lun heb ei ganiatâd; ac
- (b) i ddiben tynnu'r llun, diosg unrhyw eitem neu sylwedd a wisgir ar, neu dros, y cyfan, neu unrhyw ran, o'r pen neu wyneb y mae wedi gwrthod ei ddiosg pan ofynnwyd iddo.

5.15 I ddibenion y Cod hwn, gellir tynnu llun heb ganiatâd y person trwy wneud copi o ddelwedd a gymerwyd ohono ar unrhyw adeg ar system gamera wedi ei gosod unrhyw le yn swyddfa'r heddlu.

**(c) Gwybodaeth sydd i'w rhoi**

5.16 Pan fo person yn cael ei chwilio, archwilio neu'n cael tynnu ei lun dan y darpariaethau fel ym *mharagraff 5.1 a 5.12*, neu os caffaelir llun ohono fel ym *mharagraff 5.15*, rhaid ei hysbysu:

- (a) o ddiben y chwiliad, archwiliad neu lun;
- (b) o'r sail dros roi'r awdurdod perthnasol, os yn berthnasol; a'r
- (c) dibenion y gall y llun gael ei ddefnyddio, datgelu neu'i gadw.

Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei rhoi cyn i'r chwiliad neu archwiliad gychwyn neu i'r llun gael ei dynnu, os nad yw'r llun yn:

- (i) cael ei dynnu'n ddirgel;
- (ii) cael ei dynnu fel ym *mharagraff* 5.15. Mewn achos o'r fath rhaid i'r person gael ei hysbysu cyn gynted â phosibl ar ôl tynnu'r llun.

**(d) Dogfennaeth**

5.17 Rhaid gwneud cofnod pan fo'r sawl sy'n cael ei gadw yn cael ei chwilio, archwilio, neu pan fo llun o'r person, neu unrhyw farciau adnabod arno, yn cael ei gymryd. Rhaid i'r cofnod gynnwys:

- (a) enw, yn unol â pharagraff 2.18, y swyddog sy'n cynnal y chwiliad, archwiliad neu'n tynnu'r llun;
- (a) diben y chwiliad, archwiliad neu lun a'r canlyniad;
- (c) caniatâd y sawl sy'n cael ei gadw i'r chwiliad, archwiliad neu lun, neu'r rheswm dros chwilio, archwilio neu gymryd llun person heb ei ganiatâd;
- (d) unrhyw awdurdod a roddir fel ym *mharagraffau* 5.2 a 5.3, y seiliau dros ei roi a'r swyddog awdurdodi.

5.18 Os defnyddir grym wrth chwilio, archwilio neu dynnu llun yn unol â'r adran hon, fe wneir cofnod o'r amgylchiadau a'r rhai sy'n bresennol.

**(B) Personau mewn swyddfeydd heddlu nad ydynt yn cael eu cadw**

5.19 Pan fo sail resymol dros amau fod gan berson gysylltiad â throstedd, ond bod y person hwnnw yn swyddfa'r heddlu'n **wirfoddol** ac nid yn cael ei gadw, dylid gweithredu'r darpariaethau ym *mharagraffau* 5.1 i 5.18, yn unol â'r addasiadau yn y paragraffau canlynol.

5.20 Bydd cyfeiriadau at y 'person a gedwir' a'r pweerau a grybwyllir ym *mharagraff* 5.1 sy'n cyfeirio at rai sy'n cael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu yn unig yn cael eu hepgor.

5.21 Ni ellir defnyddio grym i:

- (a) chwilio a/neu archwilio person er mwyn:
  - (i) canfod a oes ganddo unrhyw farciau a fyddai'n awgrymu ei fod yn berson sy'n gysylltiedig â chyflawni trosedd; neu
  - (ii) sefydlu ei hunaniaeth, gweler *Nodyn* 5A;
- (b) dynnu lluniau o unrhyw farciau adnabod, gweler *paragraff* 5.4; neu
- (c) dynnu llun o'r person.

5.22 Yn unol â *paragraff* 5.24, rhaid i luniau o bersonau, neu luniau o'r marciau adnabod na chaiff eu cymryd yn unol â darpariaethau a nodwyd ym *mharagraffau* 5.1 neu 5.12, gael eu dinistrio (ynghyd ag unrhyw negatiffau a chopïau) os nad yw'r person:

- (a) yn cael ei gyhuddo o, neu'n cael ei hysbysu y gall gael ei erlyn am, drosedd gofnodadwy;
- (b) yn cael ei erlyn am drosedd gofnodadwy;
- (c) yn cael rhybudd am drosedd gofnodadwy neu'n cael rhybudd neu gerydd yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 am drosedd gofnodadwy; neu'n
- (d) rhoi caniatâd gwybyddus, mewn ysgrifen, i'r llun neu ddelwedd gael ei gadw/chadw fel ym *mharagraff* 5.6.

5.23 Pan fo *paragraff* 5.22 yn gofyn am ddinistrio unrhyw lun neu ddelwedd, rhaid rhoi cyfle i'r person fod yn dyst i'r dinistrio neu gael tystysgrif yn cadarnhau'r dinistrio cyn belled â'i fod yn gwneud cais am y dystysgrif o fewn pum diwrnod i gael ei hysbysu fod dinistrio'n angenrheidiol.

5.24 Nid oes dim ym *mharagraff* 5.22 yn effeithio ar unrhyw ofynion ar wahân dan y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliad Troseddol 1996 i gadw deunydd mewn cysylltiad ag ymchwiliadau troseddol.

## **Nodiadau arweiniad**

- 5A** Disgrifir yr amgylchiadau pryd gellir cymryd olion bysedd i gynorthwyo i sefydlu pwy yw person yn Adran 4.
- 5B** Mae enghreifftiau o ddibenion sy'n gysylltiedig ag atal neu ddatrys troseddau, ymchwiliad i droseddau neu gynnal erlyniadau yn cynnwys:
- (a) gwirio'r llun yn erbyn lluniau eraill a gedwir mewn cofnodion neu mewn cysylltiad ag, neu o ganlyniad i, ymchwiliad i drosedd i sefydlu a ellir arestio'r person am droseddau eraill;
  - (b) pan fo'r person yn cael ei arestio ar yr un pryd â phobl eraill, neu ar adeg pryd mae'n debygol y bydd pobl eraill yn cael eu harestio, defnyddio'r llun i gynorthwyo i sefydlu pwy gafodd ei arestio, ar ba adeg ac ymhle;
  - (c) pan nad yw'n wybyddus beth yw gwir enw person a phan na ellir ei ganfod yn rhwydd neu fod sail resymol dros amau a yw'r enw a'r manylion personol eraill a roddwyd gan berson yn enw a manylion personol cywir. Yn yr amgylchiadau hyn, defnyddio neu ddatgelu'r llun i gynorthwyo i sefydlu pwy yw'r person neu benderfynu a ellir ei arestio am droseddau eraill, e.e., trwy ei wirio yn erbyn lluniau eraill a gedwir mewn cofnodion neu mewn cysylltiad ag, neu o ganlyniad i, ymchwiliad i drosedd;
  - (d) pan ei bod hi'n ymddangos y gall fod angen trefnu unrhyw ddull adnabod yn adran 3 ac y byddai llun o'r person o gymorth;
  - (e) y gall fod angen rhyddhau person heb ei gyhuddo, ac os yw'n cael ei ryddhau:
    - (i) ar fechnïaeth i ymddangos mewn swyddfa heddlu, defnyddio'r llun i gynorthwyo i gadarnhau pwy yw person wrth iddo ymddangos neu os yw'r person yn torri ei fechnïaeth, i gynorthwyo i'w arestio; neu
    - (ii) heb fechnïaeth, defnyddio'r llun i gynorthwyo i gadarnhau pwy yw person neu i gynorthwyo i'w leoli er mwyn cyflwyno gwys iddo ymddangos mewn llys mewn achos troseddol;
  - (f) pan fo person wedi ateb i fechnïaeth mewn swyddfa heddlu a bod sail resymol dros amau mai ef yw'r person y rhoddyd mechnïaeth iddo, defnyddio'r llun i gynorthwyo i sefydlu neu gadarnhau pwy ydyw;
- (g) pan fo person sydd wedi ei arestio ar warrant yn honni ei fod yn berson gwahanol i'r person a enwir ar y warrant ac y byddai llun o gymorth i gadarnhau neu wrthbrofi'r honiad;
- (h) pan fo person wedi ei gyhuddo o, ei riportio am, neu ei ddedfrydu am, drosedd gofnodadwy a phan nad oes eisoes gofnod o'i lun o ganlyniad i (a) i (f) neu fod cofnod o'i lun ond fod ei bryd a gwedd wedi newid ers iddo gael ei gymryd a bod y person heb ei ryddhau eto neu ei ddwyn o flaen llys.
- 5C** Nid oes pŵer i arestio person am drosedd gofnodadwy dim ond er mwyn tynnu ei lun. Nid yw'r pŵer i dynnu lluniau yn yr adran hon ond yn berthnasol pan fo person yn y ddaifa o ganlyniad i weithredu pŵer arall, e.e. arestio i gymryd olion bysedd dan PACE, Atodlen 2A, paragraff 17.
- 5D** Mae enghreifftiau o pan na fyddai hi'n ymarferol i gael caniatâd sawl sy'n cael ei gadw, gweler paragraff 2.12, i chwilio, archwilio neu gymryd llun o farc adnabod yn cynnwys:
- (a) pan fo person yn feddw neu fel arall heb fod mewn cyflwr i roi caniatâd;
  - (b) pan fo sail resymol dros amau y byddai'r person, o fod yn ymwybodol fod chwiliad neu archwiliad i gael ei gynnal neu lun o farc adnabod i gael ei gymryd, yn cymryd camau i atal hyn rhag digwydd, e.e. trwy ddefnyddio trais i wrthsefyll, gorchuddio neu guddio'r marc ayyb, ac na fyddai hi'n bosibl fel arall i gynnal chwiliad neu archwiliad neu i dynnu llun o farc adnabod;
  - (c) yn achos plentyn, os na ellir cysylltu â'r rhiant neu warcheidwad mewn da bryd i alluogi'r chwiliad neu archwiliad i gael ei gynnal neu'r llun i gael ei dynnu.
- 5E** Mae enghreifftiau o pan na fyddai hi'n ymarferol i gael caniatâd person, gweler paragraff 2.12, i dynnu llun yn cynnwys:
- (a) pan fo person yn feddw neu fel arall heb fod mewn cyflwr i roi caniatâd;
  - (b) pan fo sail resymol dros amau y byddai'r person, o fod yn ymwybodol fod llun addas i'w

*ddefnyddio neu ddatgelu ar gyfer y defnydd neu'r datgeliad a ddisgrifir ym mharagraff 5.6 i gael ei dynnu, yn cymryd camau i atal hyn rhag digwydd, e.e. trwy ddefnyddio trais i wrthsefyll, gorchuddio neu ystumio'r wyneb ayyb, ac na fyddai hi'n bosibl fel arall i gynnal chwiliad neu archwiliad neu i dynnu llun o farc adnabod;*

- (c) pan fo angen tynnu llun dirgel, er mwyn cael un addas; ac*
- (c) yn achos plentyn, os na ellir cysylltu â'r rhiant neu warcheidwad mewn da bryd i alluogi tynnu'r llun.*

**5F** *Mae'n rhaid ystyried yn ofalus cyn defnyddio grym rhesymol i dynnu llun o'r sawl sydd dan amheuaeth mewn unrhyw fan ar wahân i orsaf yr heddlu. Er mwyn cael caniatâd a chydweithrediad y sawl sydd dan amheuaeth i ddiogsg eitem o benwisg grefyddol er mwyn cymryd ei lun, fe ddylai heddwsg ystyried dan amgylchiadau'r sefyllfa mai swyddog o'r un rhyw â'r unigolyn ddylai dynnu'r benwisg a thynnu'r llun. Byddai'n briodol gwneud y camau uchod allan o olwg y cyhoedd (gweler [paragraff 1.1](#) a [Nodyn 1A](#)).*



**6 Adnabod trwy samplau corfforol ac olion****(A) Cyffredinol**

6.1 Mae cyfeiriadau at:

- (a) 'sampl personol' yn golygu ôl dannedd neu sampl o waed, semen neu unrhyw hylif meinweol arall, wrin, neu flew cedor, neu swab a gymerwyd o unrhyw ran o organau cenedlu person neu o agorfa i gorff person ac eithrio'r geg;
- (b) 'sampl amheronol' yn golygu:
  - (i) sampl o wallt, ac eithrio blew cedor, sy'n cynnwys gwallt a dynnwyd o'r gwraidd, gweler *Nodyn 6A*;
  - (ii) sampl o gymerwyd o'r ewin neu dan yr ewin;
  - (iii) swab a gymerwyd o unrhyw ran o gorff person ac eithrio rhan y byddai cymryd swab ohoni yn sampl personol;
  - (iv) poer;
  - (v) ôl croen sy'n golygu unrhyw gofnod, ac eithrio ôl bys, mewn unrhyw ffurf ac a gynhyrchwyd trwy unrhyw ddull, o batrwm croen a nodweddion ffisegol eraill neu nodweddion cyfan, neu unrhyw ran o, droed person neu unrhyw ran arall o'r corff.

**(B) Gweithredu****(a) Samplau personol**

6.2 Mae PACE, adran 62, yn darparu y gellir cymryd samplau personol dan:

- (a) adran 62(1), gan berson a gedwir gan yr heddlu yn unig:
  - (i) os oes gan swyddog heddlu o safle arolygydd neu uwch sail resymol dros gredu y byddai ôl neu sampl o'r fath yn arwain at gadarnhau neu wrthbrofi cysylltiad y sawl sydd dan amheuaeth â throedd gofnodadwy, gweler *Nodyn 4A*, ac yn awdurdodi bod sampl i'w gymryd; a
  - (ii) gyda chaniatâd ysgrifenedig y sawl sydd dan amheuaeth;
- (b) adran 62(1A), gan berson nad yw'n cael ei gadw gan yr heddlu ond y cymerwyd dau neu fwy o samplau amheronol ganddo yn ystod ymchwilliad i drosedd a bod y samplau, er yn addas, heb fod yn ddigonol os:
  - (i) yw swyddog heddlu o safle arolygydd neu uwch yn awdurdodi bod sampl i'w gymryd; a
  - (ii) bod y person dan sylw yn rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig. Gweler *Nodiadau 6B a 6C*
- (c) adran 62(2A), gan berson wedi ei golffarnu tu allan i Gymru a Lloegr am drosedd, pe byddai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr, yn drosedd cymhwysol fel y diffiniwyd gan PACE, adran 65A (gweler *Nodyn 4AB*) ble cymerwyd dau neu fwy o samplau amheronol ganddo dan adran 63(3E) (gweler *paragraff 6.6(h)*) wedi profi i fod yn annigonol os:
  - (i) mae swyddog yr heddlu o reng arolygydd neu uwch yn fodlon bod angen cymryd y sampl i gynorthwyo i atal neu ganfod trosedd ac yn awdurdodi ei gymryd; a
  - (ii) bod y person dan sylw yn rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig.

6.2A Mae PACE, adran 63A(4) ac Atodlen 2A yn darparu pwerau i:

- (a) wneud gofyniad (yn unol ag Atodiad G) i berson fynychu gorsaf heddlu i gael cymryd sampl personol wrth arfer un o'r pwerau canlynol (gweler *paragraff 6.2*):
  - (i) *adran 62(1A)* – Personau y cymerwyd dau neu fwy o samplau amheronol ganddynt ac a brofodd i fod yn annigonol, gweler *paragraff 6.2(b)*: Nid oes cyfyngiad amser ar gyfer y gofyniad.
  - (ii) *adran 62(2A)* – Personau a golffarnwyd tu allan i Gymru a Lloegr y cymerwyd dau neu fwy o samplau amheronol ganddynt dan adran 63(3E) (gweler *paragraff 6.6(g)*) a brofodd i fod yn annigonol, gweler *paragraff 6.2(c)*: Nid oes cyfyngiad amser ar gyfer y gofyniad.



- (b) arestio person heb warant sy'n methu cydymffurfio gyda'r gofyniad

6.3 Cyn gofyn i'r sawl sydd dan amheuaeth roi sampl personol, rhaid:

- (a) ei hysbysu:
- (i) o'r rheswm, yn cynnwys natur y drosedd a amheuir (ac eithrio os cymerwyd dan baragraff 6.2(c)) gan berson a gollfarnwyd tu allan i Gymru a Lloegr.
  - (ii) y rhoddiwyd awdurdodiad a'r darpariaethau ar gyfer ei roi;
  - (iii) y gall sampl a gymerwyd mewn gorsaf heddlu fod yn destun chwiliad dyfaliadol;
- (b) ei rybuddio y bydd gwrthod heb reswm da, yn gallu gwneud drwg i'w achos pe bai rhaid iddo sefyll ei brawf, gweler *Nodyn 6D*. Os yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael ei gadw gan yr heddlu a heb gynrychiolaeth gyfreithiol, rhaid ei atgoffa hefyd o'i hawl i gyngor cyfreithiol am ddim, gweler Cod C, *paragraff 6.5*, a nodi'r atgoffâd yng nghofnod y ddalfa. Os yw *paragraff 6.2(b)* yn berthnasol a'r person yn mynychu swyddfa'r heddlu'n wirfoddol, bydd ei hawl i gyngor cyfreithiol am ddim fel yng Nghod C, *paragraff 3.21* yn cael ei egluro iddo.

6.4 Dim ond deintydd cofrestredig all wneud ôl o ddannedd. Ni ellir cymryd samplau personol eraill, ac eithrio samplau o wrin, ond gan feddyg cofrestredig neu nyrs gofrestredig neu barafeddyg cofrestredig.

**(b) Samplau amheronol**

6.5 Ni ellir ond cymryd samplau amheronol gyda chaniatâd ysgrifenedig y sawl sy'n cael ei gadw neu os yw *paragraff 6.6* yn berthnasol.

6.6 Ni ellir ond cymryd samplau amheronol gan berson heb y caniatâd priodol dan yr amgylchiadau canlynol:

- (a) dan *adran 63(2A)* gan berson sy'n cael ei gadw gan yr heddlu o ganlyniad i'w arestio am drosedd cofnodadwy a lle na chymerwyd sampl amheronol o'r un math ac o'r un rhan o'r corff yng nghwrs ymchwiliad i'r drosedd gan yr heddlu neu lle cymerwyd sampl o'r fath ond lle nad oedd y sampl yn ddigonol.
- (b) Dan *adran 63(3)* gan berson yn cael ei gadw yn y ddalfa gan yr heddlu ar awdurdod llys a lle awdurdodir cymryd sampl gan swyddog o safle arolygydd o leiaf. Gellir rhoi awdurdodiad:
- (i) os oes gan y swyddog awdurdodi seiliau rhesymol dros amau person o ymwneud â throsedd gofnodadwy ac am gredu y bydd y sampl yn tueddu i gadarnhau neu wrthbrofi'r ymwneud hwnnw, a
  - (ii) yn ysgrifenedig neu ar lafar ac wedi ei gadarnhau yn ysgrifenedig, cyn gynted ag sy'n ymarferol; ond ni ellir rhoi awdurdodiad i gymryd sampl amheronol pellach o'r un rhan o'r corff sy'n cynnwys ôl croen oni bai fod yr ôl a gymerwyd yn flaenorol wedi profi i fod yn annigonol
- (c) dan *adran 63(3ZA)* gan berson sydd wedi cael ei arestio am drosedd gofnodadwy a'i ryddhau os:
- (i) yn achos person sydd ar fechnïaeth, nad yw wedi cael cymryd sampl o'r un math ac o'r un rhan o'r corff yn ystod yr ymchwiliad i'r drosedd, neu;
  - (ii) mewn unrhyw achos, fod y person wedi cael cymryd sampl o'r fath yn ystod yr ymchwiliad i'r drosedd, ond naill ai:
    - nad oedd yn addas neu ei fod yn annigonol; neu
    - i'r ymchwiliad ddod i ben ond yna iddo ailgychwyn a chyn ailgychwyn, i'r proffil DNA a gasglwyd o'r sampl gael ei ddinistrio ac i'r sampl ei hun gael ei ddinistrio yn unol ag *adran 63R(4), (5)* neu (12).
- (d) dan *adran 63(3A)*, gan berson (p'un ai yn nalfar'r heddlu neu wedi ei gadw gan yr heddlu ar awdurdod llys) sydd wedi ei gyhuddo o drosedd gofnodadwy neu ei hysbysu y bydd yn cael ei riportio am drosedd o'r fath os:

- D**
- (i) nad yw'r person wedi cael cymryd sampl amheronol ganddo yn ystod yr ymchwiliad i'r drosedd; neu
  - (ii) cymerwyd sampl ganddo, ond nad oedd yn addas neu nad oedd yn ddigonol, gweler *Nodyn 6B*; neu
  - (iii) cymerwyd sampl ganddo yn ystod yr ymchwiliad i'r drosedd a bod y sampl wedi ei ddinistrio ac mewn achosion yn ymwneud â'r drosedd honno fod yna anghydfod o ran a gafwyd proffil DNA sy'n berthnasol i'r achos o'r sampl a ddinistriwyd.
- (e) dan *adran 63(3B)*, gan berson sydd wedi:
- (i) ei gollfarnu am drosedd gofnodadwy; neu
  - (ii) cael rhybudd parthed trosedd gofnodadwy y mae'r person wedi, ar adeg y rhybudd, cyfaddef iddi;

os, ers ei gollfarnu neu rybuddio, na chymerwyd sampl amheronol ganddo neu os oedd sampl a gymerwyd ers hynny yn anaddas neu'n annigonol ac yn y naill achos, mae swyddog o reng arolygydd neu uwch yn fodlon fod angen cymryd olion bysedd i gynorthwyo i atal neu ganfod trosedd ac yn awdurdodi eu cymryd;

- (f) dan *adran 63(3C)* gan berson y mae adran 2 y Ddeddf Tystiolaeth Droseddol (Addasiad) 1997 yn berthnasol (personau a gedwir yn dilyn rhyddfarn ar sail gwallgofrwydd neu ganfyddiad o anabledd i bledio).
- (g) dan *adran 63(3E)* gan berson sydd wedi ei gollfarnu tu allan i Gymru a Lloegr am drosedd pe byddai wedi ei chyflawni yng Nghymru a Lloegr yn drosedd cymhwysol fel y diffiniwyd gan PACE, adran 65A (gweler *Nodyn 4AB*) os:
- (i) na chymerwyd sampl amheronol yn flaenorol dan y pŵer hwn neu oni bai y cymerwyd sampl o'r fath ond nad oedd yn addas neu y profodd i fod yn annigonol; ac
  - (ii) mae swyddog yr heddlu o reng arolygydd neu uwch yn fodlon bod angen cymryd sampl i gynorthwyo i atal neu ganfod trosedd ac yn awdurdodi ei gymryd.

6.6A Mae PACE, *adran 63A(4)* ac *Atodlen 2A* yn darparu pwerau i:

- (a) wneud gofyniad (yn unol ag *Atodiad G*) i berson fynychu gorsaf heddlu i gael cymryd sampl amheronol wrth arfer un o'r pwerau canlynol (gweler *paragraff 6.6* uchod) o fewn terfynau amser penodol fel a ganlyn:
- (i) *adran 63(3ZA)* – Personau sydd wedi cael eu harestio am drosedd gofnodadwy a'u rhyddhau, gweler *paragraff 6.6(c)*: Yn achos person y cymerwyd sampl amheronol ganddo yn ystod ymchwiliad ond nad oedd y sampl hwnnw yn addas neu os profodd i fod yn annigonol, ni ellir gwneud y gofyniad fwy na chwe mis o'r dyddiad yr hysbyswyd y swyddog ymchwilio fod y sampl a gymerwyd yn flaenorol yn addas neu ei fod yn annigonol. Yn achos person ble dinistriwyd ei broffil DNA a sampl cyn ailgychwyn yr ymchwiliad, ni ellir gwneud y gofyniad fwy na chwe mis o'r diwrnod pan ailgychwynnodd yr ymchwiliad.
  - (ii) *adran 63(3A)* – Personau a gyhuddwyd ayyb o drosedd gofnodadwy, gweler *paragraff 6.6(d)*: Ni ellir gwneud y gofyniad fwy na chwe mis:
    - o'r dyddiad pan gafodd y person ei gyhuddo neu hysbysu y byddai'n cael ei riportio, os na chymerwyd sampl yn ystod yr ymchwiliad;
    - o'r dyddiad pan hysbyswyd y swyddog ymchwilio nad oedd y sampl a gymerwyd yn flaenorol yn addas neu nad oedd yn ddigonol, os yw sampl wedi ei gymryd yn ystod yr ymchwiliad ond nad oedd y sampl yn addas neu ei fod yn annigonol; neu
    - o'r diwrnod pan ailgychwynnodd yr ymchwiliad, yn achos person y dinistriwyd ei broffil a sampl DNA cyn ailgychwyn yr ymchwiliad.
  - (iii) *adran 63(3B)* – Personau sydd wedi eu collfarnu neu rybuddio am drosedd gofnodadwy yng Nghymru a Lloegr, gweler *paragraff 6.6(e)*: Ble mae'r drosedd y cafodd y person ei gollfarnu neu rybuddio amdani yn drosedd gymwysadwy (gweler *Nodyn 4AB*), nid oes terfyn amser i arfer y pŵer hwn. Ble mae'r gollfarn neu rybudd ayyb ar gyfer trosedd gofnodadwy nad yw'n drosedd gymwysadwy, ni ellir gwneud y gofyniad fwy na dwy flynedd o:

- yn achos person na chymerwyd ei sampl ers ei gollfarnu neu rybuddio, y diwrnod pan gafodd y person ei gollfarnu neu rybuddio neu, os yn hwyrach, y dyddiad pan ddaeth Atodlen 2A i rym (7 Mawrth 2011); neu
- yn achos person y cymerwyd sampl ganddo ond nad oedd yn addas neu roedd yn annigonol, y diwrnod pan hysbyswyd swyddog o'r heddlu sy'n ymchwilio i'r drosedd nad oedd y sampl a gymerwyd yn flaenorol yn addas neu ei fod yn annigonol, neu, os yn hwyrach, y diwrnod pan ddaeth Atodlen 2A i rym (7 Mawrth, 2011).

(iv) *adran 63(3E)* – Person sydd wedi ei gollfarnu ar gyfer trosedd gymwysedig (gweler *Nodyn 4AB*) tu allan i Gymru a Lloegr, gweler paragraff 6.6(h): Nid oes cyfyngiad amser ar gyfer y gofyniad.

Sylwer: Ni ellir gofyn i berson sydd wedi cael cymryd sampl amheronol dan unrhyw un o'r pŵerau yn adran 63 a grybwyllwyd ym mharagraff 6.6 ar ddau achlysur mewn cysylltiad ag unrhyw drosedd dan Atodlen 2A i fynychu gorsaf heddlu er mwyn cymryd sampl eto dan adran 63 parthed y drosedd honno, oni bai yr awdurdodwyd hynny gan swyddog o reng arolygydd neu uwch. Rhaid cofnodi ffaith yr awdurdodiad a'r rhesymau dros ei roi cyn gynted ag sy'n ymarferol.

(b) arestio, heb warant, berson sy'n gwrthod cydymffurfio â'r cais.

6.7 Gellir defnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, i gymryd sampl amheronol gan berson heb ei ganiatâd dan y pŵerau a grybwyllir ym *mharagraff 6.6*.

6.8 Cyn y gellir cymryd unrhyw sampl amheronol:

(a) heb ganiatâd dan unrhyw bŵer a grybwyllwyd ym mharagraffau 6.6 a 6.6A, rhaid hysbysu'r person:

- (i) o'r rheswm dros gymryd y sampl;
- (ii) dan pa bŵer mae'r sampl yn cael ei gymryd;
- (iii) y ffaith y rhoddwyd yr awdurdod perthnasol os yw unrhyw bŵer a grybwyllir ym *mharagraff 6.6(b)*, (e) neu (g) yn berthnasol, yn cynnwys natur y drosedd a amheuir (ac eithrio os y'i cymerwyd dan *baragraff 6.6(e)*) gan berson a gollfarnwyd neu rhybuddiwyd, neu dan *baragraff 6.6(g)* os cymerwyd gan berson a gollfarnwyd tu allan i Gymru a Lloegr;

(b) gyda neu heb ganiatâd mewn gorsaf heddlu neu rywle arall, rhaid hysbysu'r person:

- (i) y gall ei sampl neu wybodaeth yn deillio ohono fod yn destun chwiliad dyfaliadol yn erbyn samplau eraill a gwybodaeth yn deillio ohonynt, gweler *Nodyn 6E* ac
- (ii) y gellir cadw ei sampl a'r wybodaeth yn deillio ohono yn unol ag Atodiad F, Rhan (a).

(c) **Diosg dillad**

6.9 Pan fo angen diosg dillad mewn amgylchiadau sy'n debyg o achosi anesmwythyd i'r person, ni fydd person o ryw arall yn bresennol, os nad ydyw yn feddyg cofrestredig neu weithiwr iechyd proffesiynol cofrestredig (ac eithrio yn achos plentyn, person sy'n dioddef anhwylder meddwl neu sydd fel arall yn agored i niwed yn feddyliol sy'n gofyn yn benodol am gael oedolyn priodol o ryw arall yn bresennol a'i fod ar gael yn hwylyd), nac unrhyw un nad oes angen iddo fod yn bresennol. Fodd bynnag, yn achos plentyn, mae hyn yn amodol i'r amod gor-redol y gellir diosg dillad o'r fath yn absenoldeb oedolyn priodol ar yr amod fod y plentyn yn nodi, tra bo'r oedolyn yn bresennol, y byddai'n well ganddo iddo beidio bod yno a bod yr oedolyn yn cytuno â hyn.

(c) **Dogfennaeth**

6.10 Rhaid gwneud cofnod cyn gynted ag sy'n ymarferol wedi cymryd y sampl:

- O'r materion ym *mharagraff 6.8(a)(i)* i *(iii)* a'r ffaith fod y person wedi ei hysbysu o'r materion hynny; ac
- O'r ffaith fod y person wedi ei hysbysu o'r materion ym mharagraff 6.8(b)(i) a (ii).

6.10A Os defnyddir grym, gwneir cofnod o'r amgylchiadau a'r rhai hynny sy'n bresennol.

6.11 Rhaid gwneud cofnod o rybudd a roddwyd fel sy'n ofynnol gan *baragraff 6.3*.

6.12 *Heb ei ddefnyddio*

## Nodiadau arweiniad

- D**
- 6A *Pan fo samplau o flew yn cael eu cymryd ar gyfer pwrpas dadansoddiad DNA (yn hytrach nag am resymau eraill megis cyfatebiad gweledol), dylid caniatáu i'r sawl sydd dan amheuaeth ddewis rhesymol ynghylch o ba ran o'r corff y dylid cymryd y blew. Pan fo'r blew yn cael eu tynnu dylid eu tynnu yn unigol, os nad yw'r sawl sydd dan amheuaeth yn dewis fel arall ac ni ddylid cymryd mwy nag mae'r person sy'n eu tynnu yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer sampl digonol.*
- 6B *(a) Sampl annigonol yw un nad ydyw yn ddigonol o ran maint nac ansawdd ar gyfer dull dadansoddi arbennig, megis dadansoddiad DNA. Gall sampl hefyd fod yn annigonol os na ellir cael digon o wybodaeth ohono wrth ddadansoddi oherwydd colli, dinistrio, difrodi neu halogi'r sampl neu o ganlyniad i ymgais aflwyddiannus flaenorol i ddadansoddi.*
- (b) Sampl anaddas yw un sydd, wrth ei natur, yn anaddas ar gyfer dull dadansoddi arbennig.*
- 6C *Nid oes dim ym mharagraff 6.2 i rwystro cymryd samplau personol at ddibenion dileu o'r ymchwiliad gyda chaniatâd y person dan sylw ond dylid gweithredu darpariaethau paragraff 2.12 sy'n cyfeirio at swyddogaeth yr oedolyn priodol. Fodd bynnag, nid yw paragraff 6.2(b) yn berthnasol pan fo samplau amhersonol wedi eu cymryd eisoes dan Ddeddf Terfysgaeth 2000, Atodlen 8, paragraff 10.*
- 6D *Wrth rybuddio person y gofynnir iddo ddarparu sampl personol fel ym mharagraff 6.3, gellir defnyddio'r geiriau canlynol:*
- 'Does dim rhaid i chi roi'r sampl hon/adael i'r swab hwn neu'r ôl hwn gael ei gymryd, ond mae'n rhaid i mi eich rhybuddio y gall niweidio eich achos, os daw hwnnw i dreial, os byddwch yn gwrthod heb reswm da.'*
- 6E *Gall olion bysedd neu samplau DNA, a'r wybodaeth sy'n deillio ohonynt, a gymerwyd gan berson a arestwyd ar amheuaeth o fod yn gysylltiedig â throsedd gofnodadwy, neu a gyhuddwyd o drosedd o'r fath, neu a hysbyswyd ei fod am gael ei riportio am drosedd o'r fath, gael eu defnyddio mewn chwiliad. Mae hyn yn golygu y gellir eu gwirio yn erbyn cofnodion eraill o olion bysedd neu samplau DNA eraill a gedwir gan, neu ar ran, yr heddlu neu awdurdodau gweithredu'r gyfraith eraill o fewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu a gedwir mewn cysylltiad ag, neu o ganlyniad i, ymchwiliad i drosedd y tu mewn neu'r tu allan i'r Deyrnas Unedig.*
- Gweler Atodiad F ynghylch cadw a defnyddio olion bysedd a samplau a gymerwyd gyda chaniatâd at ddibenion dileu o'r ymchwiliad.*
- 6F *Ni ellir defnyddio samplau o wrin a samplau amhersonol a gymerwyd yn unol ag adranau 63B a 63C PACE ar gyfer dibenion adnabod yn unol â'r Cod hwn. Gweler Cod C Nodyn arweiniad 17D.*

**ATODIAD A ADNABOD TRWY FIDEO****(a) Cyffredinol**

1. Rhaid i'r trefniadau ar gyfer sicrhau set addas o ddelweddau i'w defnyddio wrth adnabod trwy fideo fod yn gyfrifoldeb i swyddog adnabod (gweler [paragraff 3.11](#) y Cod hwn) nad oes ganddo gysylltiad uniongyrchol â'r achos.
2. Rhaid i'r set o ddelweddau gynnwys y sawl sydd dan amheuaeth ac o leiaf wyth o bobl eraill sydd, cyn belled â phosibl, ac yn amodol i [paragraff 7](#), yn debyg i'r sawl sydd dan amheuaeth o ran oed, ymddangosiad cyffredinol a safle mewn bywyd. Dim ond un person dan amheuaeth all ymddangos mewn unrhyw set os nad oes dau berson sy'n gymharol debyg dan amheuaeth, mewn achos o'r fath gellir eu dangos gyda'i gilydd gydag o leiaf ddeuddeg o bobl eraill.
- 2A Os oes gan y sawl sydd dan amheuaeth nodwedd gorfforol anarferol, e.e. craith ar ei wyneb, catŵ neu steil neu liw gwallt trawiadol na ellir ei hatgynhyrchu ar y delweddau o'r bobl eraill, gellir cymryd camau i:
  - (a) guddio'r fan lle mae'r nodwedd i'w gweld ar y delweddau o'r sawl sydd dan amheuaeth a'r bobl eraill; neu
  - (b) atgynhyrchu'r nodwedd ar y delweddau o'r bobl eraill.

Ar gyfer y dibenion hyn, gellir cuddio neu atgynhyrchu'r nodwedd yn electronig neu trwy ddull arall y gellir ei ddefnyddio'n ymarferol i sicrhau bod y delweddau o'r sawl sydd dan amheuaeth a'r bobl eraill yn ymdebygu i'w gilydd. Mae gan y swyddog adnabod y disgrisiwn i ddewis a ddylid cuddio neu atgynhyrchu'r nodwedd a'r dull i'w ddefnyddio.
- 2B Os yw'r swyddog adnabod yn penderfynu y dylid cuddio neu atgynhyrchu nodwedd, yna bydd y rheswm am y penderfyniad yn cael ei gofnodi gan gofnodi hefyd a gafodd y nodwedd ei chuddio neu ei hatgynhyrchu.
- 2C Os yw'r tyst yn gofyn am gael gweld delwedd lle cuddiwyd neu atgynhyrchwyd nodwedd gorfforol anarferol heb i'r nodwedd gael ei chuddio neu ei hatgynhyrchu, yna mae gan y swyddog adnabod y disgrisiwn i ganiatáu'r tyst i wneud hynny os oes delwedd(au) o'r fath ar gael.
3. Bydd, y delweddau a ddefnyddir wrth gynnal adnabod trwy fideo, cyn belled â phosibl, yn dangos y sawl sydd dan amheuaeth a phobl eraill yn yr un safleoedd ac yn gwneud yr un dilyniant o symudiadau. Byddant hefyd yn dangos y sawl sydd dan amheuaeth a phobl eraill yn yr union un amgylchiadau os nad yw'r swyddog adnabod yn credu'n rhesymol:
  - (a) oherwydd bod y sawl sydd dan amheuaeth yn methu neu'n gwrthod cydweithredu neu resymau eraill, nad yw'n ymarferol i'r amgylchiadau fod yr union yr un fath; ac
  - (b) na fyddai gwahaniaethau yn yr amgylchiadau yn tynnu sylw'r tyst at ddelwedd unigol.
4. Bydd y rhesymau pan nad yw cael yr union un amgylchiadau yn ymarferol yn cael eu cofnodi ar ffurflenni a ddarperir ar gyfer y pwrpas.
5. Rhaid gwneud darpariaethau i bob person gael ei adnabod trwy rif.
6. Os bydd swyddogion heddlu yn cael eu dangos rhaid cuddio unrhyw rifau neu fathodynau adnabod. Os bydd unrhyw garcharor yn cael ei ddangos, fel person a amheuir neu fel arall, yna dylai pob person a ddangosir, neu ddim un ohonynt, fod mewn dillad carchar.
7. Rhaid rhoi cyfle rhesymol i'r sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr, ffrind neu oedolyn priodol weld set gyflawn o ddelweddau cyn iddynt gael eu dangos i unrhyw dyst. Os oes gan y sawl sydd dan amheuaeth wrthwynebiad rhesymol i'r set o ddelweddau neu unrhyw un sy'n cymryd rhan, gofynnir i'r sawl sydd dan amheuaeth nodi ei resymau dros wrthwynebu. Bydd camau'n cael eu cymryd, os yw hynny'n ymarferol, i gael gwared ar y seiliau dros wrthwynebu. Os nad yw hyn yn ymarferol, bydd y sawl sydd dan amheuaeth ac/neu ei gynrychiolydd yn cael gwybod pam na ellir ymateb i'w gwrthwynebiad a bydd y gwrthwynebiad, y rhesymau dros y gwrthwynebiad a pham na ellir ymateb iddo yn cael eu cofnodi ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas. Nid yw'r gofyniad ym [mharagraff 2](#) fod y delweddau o bobl eraill yn 'debyg' i'r sawl

sydd dan amheuaeth yn golygu bod yn rhaid i'r delweddau fod yn unfath neu'n hynod debyg (gweler *Nodyn A1*).

8. Cyn y bydd delweddau'n cael eu dangos yn unol â pharagraff 7, bydd y sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr yn cael manylion am y disgrifiad cyntaf o'r sawl sydd dan amheuaeth gan unrhyw dystion sydd i'fynychu'r adnabod trwy fideo. Pan fydd darllediadau neu gyhoeddiad yn cael ei wneud, fel ym *mharagraff 3.38(a)*, rhaid caniatáu hefyd i'r sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr weld unrhyw ddeunydd a rhyddheir i'r cyfryngau gan yr heddlu gyda'r bwriad o adnabod neu ganfod y sawl sydd dan amheuaeth, cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac na fyddai'n oedi'r ymchwiliad yn ormodol.
9. Ni chaiff unrhyw bobl heb awdurdod fod yn bresennol pan gyflawnir yr adnabod trwy fideo. Bydd cyfreithiwr y sawl sydd dan amheuaeth, os yw hynny'n ymarferol, yn cael rhybudd rhesymol o'r amser a'r lle mae'r adnabod trwy fideo i gael ei gynnal. Dim ond ar gais i a gyda chytundeb blaenorol y swyddog adnabod y gall cyfreithiwr y sawl sydd dan amheuaeth fod yn bresennol yn yr adnabod trwy fideo, ar yr amod fod y swyddog yn fodlon na fydd presenoldeb y cyfreithiwr yn atal nac amharu ar unrhyw dyst rhag gweld y delweddau ac adnabod. Os nad yw'r swyddog adnabod yn fodlon ac nad yw'n cytuno i'r cais, rhaid cofnodi'r rheswm. Rhaid hysbysu'r cyfreithiwr o'r penderfyniad a'r rheswm dros hyn, ac y gall gyflwyno sylwadau ynghylch pam y dylai gael bod yn bresennol. Gellir cyflwyno'r sylwadau ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn bersonol neu o bell trwy gyfathrebiad electronig a rhaid eu cofnodi. Rhaid i swyddog o reng arolygydd neu uwch nad yw'n gysylltiedig â'r ymchwiliad ystyried y sylwadau hyn ac ni ellir dirprwyo cyfrifoldeb ar gyfer hyn dan *baragraff 3.11*. Os, wedi ystyried y sylwadau, mae'r swyddog yn dal yn fodlon y bydd presenoldeb y cyfreithiwr yn atal neu amharu ar y tyst, bydd y swyddog yn hysbysu'r cyfreithiwr o'r penderfyniad a'r rheswm dros hyn ac yn sicrhau y cofnodir unrhyw ymateb gan y cyfreithiwr hefyd. Os caiff fod yn bresennol, nid oes gan y cyfreithiwr hawl i gyfathrebu mewn unrhyw fodd gyda thyst yn ystod y weithdrefn, ond nid yw hyn yn atal y cyfreithiwr rhag cyfathrebu gyda'r swyddog adnabod. Ni all y sawl sydd dan amheuaeth fod yn bresennol pan ddangosir delweddau i unrhyw dyst ac nid oes ganddo hawl i gael ei hysbysu o'r amser a lleoliad ar gyfer cynnal yr adnabod trwy fideo. Bydd y weithdrefn adnabod trwy fideo ei hun yn cael ei recordio ar fideo heb sain. Rhaid i'r recordiad ddangos pawb sy'n bresennol o fewn golwg neu glyw i'r tyst tra bod y delweddau yn cael eu gwyllo a rhaid cynnwys beth mae'r tyst yn ddweud a beth a ddywedir wrtho gan y swyddog adnabod a gan unrhyw berson arall sy'n bresennol yn y weithdrefn adnabod trwy fideo. Gellir trefnu gwyllo dan oruchwyliaeth o recordio'r weithdrefn adnabod trwy fideo gan y sawl sydd dan amheuaeth ac/neu ei gyfreithiwr ar gais, yn ôl doethineb y swyddog ymchwilio. Os bydd y recordiad o'r weithdrefn adnabod trwy fideo yn cael ei ddangos i'r sawl sydd dan amheuaeth ac/neu ei gyfreithiwr, gall y swyddog ymchwilio drefnu i unrhyw beth yn y recordiad a allai alluogi i'r tyst gael ei adnabod gael ei gelu os yw'r swyddog ymchwilio yn ystyried fod cyfiawnhad dros hyn (gweler *Nodyn A2*). Yn unol â *pharagraff 2.18*, gall y swyddog ymchwilio hefyd drefnu i unrhyw beth yn y recordiad hwnnw a allai ganiatáu i unrhyw swyddogion yr heddlu neu staff yr heddlu gael eu hadnabod hefyd gael ei gelu.

**(b) Cynnal yr adnabod trwy fideo**

10. Y swyddog adnabod sy'n gyfrifol am wneud y trefniadau priodol i sicrhau nad yw tystion, cyn iddynt weld y set o ddelweddau, yn gallu trafod yr achos, gweld unrhyw un o'r delweddau i'w dangos, gweld, neu gael eu hatgoffa, o unrhyw lun neu ddisgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth neu unrhyw arwydd arall o bwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth, gyda'i gilydd, na gwrando ar dyst sydd eisoes wedi gweld y deunydd. Ni ddylid trafod cyfansoddiad y set o ddelweddau gyda'r tystion a ni ddylid ddweud wrtho a oes tyst blaenorol wedi adnabod y sawl sydd dan amheuaeth.
11. Un tyst yn unig all weld y set o ddelweddau ar y tro. Yn syth cyn i'r delweddau gael eu dangos, dywedir wrth y tyst y gall y person a welwyd ganddo ar achlysur blaenorol penodol ymddangos, neu beidio ag ymddangos, yn y delweddau a ddangosir iddo ac os na all adnabod rhywun yn bendant, dylai ddweud hynny. Bydd y tystion yn cael eu cynghori y gallant ar unrhyw adeg, ofyn am gael gweld rhan arbennig o'r set o ddelweddau neu rewi delwedd arbennig i'w hastudio. At



hynny, dylid hysbysu tystion nad oes cyfyngu ar faint o weithiau y gallant weld y set gyfan o ddelweddau neu unrhyw ran ohonynt. Fodd bynnag, dylid gofyn iddynt beidio â gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch presenoldeb y sawl a welwyd ganddynt yn y set o ddelweddau nes eu bod wedi gweld y set gyfan o leiaf ddwywaith.

12. Unwaith y bo'r tyst wedi gweld y set gyfan o ddelweddau o leiaf ddwywaith ac wedi nodi nad yw'n dymuno gweld y delweddau, nac unrhyw ran ohonynt, eto, fe ofynnir i'r tyst ddweud a yw'r person a welwyd ganddo ar achlysur blaenorol penodol wedi ei ddangos ac, os felly, nodi pwy ydyw trwy rif y ddelwedd. Yna dangosir y ddelwedd honno i'r tyst er mwyn cadarnhau'r adnabod, gweler *paragraff 17*.
13. Rhaid gochel rhag cyfeirio sylw'r tyst at unrhyw ddelwedd unigol na rhoi unrhyw arwydd o bwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth. Pan fo'r tyst eisoes wedi adnabod trwy luniau, neu ddelweddau cyfrifiadurol neu argraff gyfansawdd gan artist neu argraff neu luniau tebyg, ni ddylid atgoffa'r tyst o lun neu argraff gyfansawdd o'r fath unwaith y bo'r sawl sydd dan amheuaeth ar gael i'w adnabod trwy ddull arall yn unol â'r Cod hwn. Ni ddylid chwaith atgoffa'r tyst o unrhyw ddisgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth.
- 13A. Os, wedi cwblhau'r weithdrefn adnabod trwy fideo, mae'r tyst yn hysbysu unrhyw swyddog o'r heddlu neu staff yr heddlu sy'n ymwneud â'r trefniadau wedi gwyllo ei fod eisiau newid ei benderfyniad ynghylch adnabod, neu nad yw wedi adnabod rhywun pan allai fod wedi gwneud, gwneir cofnod cywir o'r geiriau a ddefnyddiwyd gan y llygad dyst a'r amgylchiadau yn syth wedi i'r weithdrefn derfynu. Os nad yw'r tyst wedi cael cyfle i gyfathrebu gyda phobl eraill ynghylch y weithdrefn, mae gan y swyddog adnabod y disgrisiwn i ganiatáu i'r tyst gael ail gyfle i adnabod trwy ailadrodd y weithdrefn adnabod trwy fideo yn defnyddio'r un delweddau ond mewn trefn wahanol.
14. Wedi'r weithdrefn, mae camau sy'n ofynnol yn unol â [pharagraff 3.40](#) yn berthnasol.
 

**(c) Diogelwch a dinistrio delweddau**
15. Bydd trefniadau'n cael eu gwneud i'r holl ddeunyddiau perthnasol sy'n cynnwys setiau o ddelweddau a ddefnyddiwyd ar gyfer dulliau adnabod penodol gael eu cadw'n ddiogel ac i gadw cyfrif o'u symudiadau. Yn benodol, ni ddylid caniatáu i unrhyw un nad yw'n gysylltiedig â'r ymchwilwlad weld y deunydd cyn iddo gael ei ddangos i unrhyw dyst.
16. Fel sy'n briodol, mae *paragraff 3.30 neu 3.31* yn berthnasol ar gyfer dinistrio neu gadw setiau perthnasol o ddelweddau.
 

**(d) Dogfennaeth**
17. Rhaid gwneud cofnod o bawb sy'n cymryd rhan yn, neu'n gweld, y set o ddelweddau y mae eu henwau'n hysbys i'r heddlu.
18. Rhaid gwneud cofnod o'r modd y cafodd yr adnabod trwy fideo ei gynnal ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beth a ddywedwyd gan y tyst am unrhyw adnabod neu'r modd y cynhaliwyd y dull adnabod ac unrhyw reswm pan nad oedd yn ymarferol i gydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Cod hwn sy'n llywodraethu'r modd y bydd yr adnabod trwy fideo yn cael ei gynnal. Mae'r cofnod hwn yn atodol i unrhyw ddatganiad a gymerir gan unrhyw dyst wedi'r weithdrefn.

**Nodyn arweiniad**

- A1 *Diben adnabod trwy fideo yw profi gallu'r tyst i wahaniaethu rhwng y sawl dan amheuaeth ac eraill ac ni fyddai'n brawf teg pe byddai'r holl ddelweddau a ddangosir yn unfath neu'n debyg iawn i'w gilydd. Mae'r swyddog adnabod yn gyfrifol am sicrhau fod y delweddau a ddangosir yn addas i ddibenion y prawf hwn.*
- A2 *Diben galluogi celu hunaniaeth y tyst yw i'w ddiogelu mewn achosion ble ceir gwybodaeth y gallai rhai a amheuir neu eu cymdeithion fygwth y tyst neu achosi niwed iddo neu os yw'r swyddog ymchwilio yn ystyried y gall fod angen mesurau arbennig i ddiogelu ei hunaniaeth yn ystod y broses droseddol.*

**ATODIAD B RHESI ADNABOD****(a) Cyffredinol**

1. Rhaid rhoi cyfle rhesymol i'r sawl sydd dan amheuaeth gael cyfreithiwr neu ffrind yn bresennol, a gofynnir i'r sawl sydd dan amheuaeth nodi ar ail gopi o'r rhybudd a yw'n dymuno gwneud hynny neu beidio.
2. Gall rhes adnabod gael ei chynnal un ai mewn ystafell gyffredin neu un wedi'i chyflenwi â sgrin sy'n caniatáu i dystion weld aelodau o'r rhes adnabod heb gael eu gweld. Yr un yw'r gweithdrefnau ar gyfer cyfansoddiad a chynnal rhes adnabod yn y ddau achos, yn unol â *pharagraff 8* (ac eithrio na ellir cynnal rhes adnabod sy'n gwneud defnydd o sgrin ond pan fo cyfreithiwr, ffrind neu oedolyn priodol sy'n gysylltiedig â'r sawl sydd dan amheuaeth yn bresennol neu fod y rhes adnabod yn cael ei chofnodi ar fideo).
3. Cyn y bydd y rhes adnabod yn cael ei chynnal, bydd y sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr yn cael manylion o'r disgrifiad cyntaf o'r sawl sydd dan amheuaeth gan unrhyw dystion sy'n mynychu'r rhes adnabod. Pan fydd darllediad neu gyhoeddiad yn cael ei wneud, fel ym *mharagraff 3.38(a)*, dylid caniatáu hefyd i'r sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr weld unrhyw ddeunydd a rhyddheir i'r cyfryngau gan yr heddlu gyda'r bwriad o adnabod a chanfod y sawl sydd dan amheuaeth, cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac na fyddai'n oedi'r ymchwilid yn ormodol.

**(b) Rhesi adnabod sy'n cynnwys carcharorion**

4. Os bydd angen carcharor ar gyfer adnabod, ac nad oes problemau diogelwch yn gysylltiedig â chaniatáu i'r person adael y sefydliad, gellir gofyn iddo gymryd rhan mewn rhes adnabod neu adnabod trwy fideo.
5. Gellir cynnal rhes adnabod mewn sefydliad Adran y Carchardai, ond bydd yn cael ei gyflawni, cyn belled ag sy'n ymarferol, dan reolau rhes adnabod arferol. Bydd aelodau o'r cyhoedd yn ffurfio gweddill y rhes adnabod os nad oes gwrthwynebiad difrifol i roi mynediad iddynt i'r sefydliad ar sail diogelwch neu reolaeth. Mewn achosion o'r fath, neu os bydd adnabod mewn grŵp neu trwy fideo yn cael ei drefnu o fewn y sefydliad, gall carcharorion eraill gymryd rhan. Os mai'r carcharor yw'r sawl sydd dan amheuaeth, nid oes gofyn iddo wisgo dillad carchar ar gyfer y rhes adnabod os nad yw'r bobl eraill sy'n cymryd rhan hefyd yn garcharorion mewn dillad tebyg, neu'n aelodau o'r cyhoedd sy'n barod i wisgo dillad carchar ar gyfer yr achlysur.

**(c) Cynnal y rhes adnabod**

6. Yn union cyn y rhes adnabod, rhaid atgoffa'r sawl sydd dan amheuaeth o'r darpariaethau sy'n rheoli ei chynnal a'i rybuddio yn nhermau Cod C, paragraffau 10.5 neu 10.6, fel fo'n briodol.
7. Rhaid gwahardd unrhyw berson heb awdurdod o'r man lle mae'r rhes adnabod i gael ei chynnal.
8. Unwaith mae'r rhes adnabod wedi cael ei ffurfio, bydd unrhyw beth wedyn, sy'n gysylltiedig â hi, yn digwydd ym mhresenoldeb a chlyw'r sawl sydd dan amheuaeth ac unrhyw gyfieithydd, cyfreithiwr, ffrind neu oedolyn priodol sy'n bresennol (oni bai fod y rhes adnabod yn cynnwys sgrin, pryd y dylai unrhyw beth sy'n cael ei ddweud wrth, neu gan, unrhyw dyst yn y man lle cynhelir y rhes adnabod, gael ei ddweud yng nghlyw ac ym mhresenoldeb cyfreithiwr y sawl sydd dan amheuaeth, ffrind neu oedolyn priodol neu gael ei gofnodi ar fideo).
9. Bydd y rhes adnabod yn cynnwys o leiaf wyth o bobl (yn ychwanegol at y sawl sydd dan amheuaeth) sydd, cyn belled â phosibl, yn debyg i'r sawl sydd dan amheuaeth o ran oed, taldra, ymddangosiad cyffredinol a safle mewn bywyd. Dim ond un person dan amheuaeth fydd yn cael ei gynnwys mewn rhes adnabod os nad oes dau berson sy'n gymharol debyg dan amheuaeth. Mewn achos o'r fath gallant fod mewn rhes gyda'i gilydd gydag o leiaf ddeuddeg o bobl eraill. Ni ddylid mewn unrhyw amgylchiadau gynnwys mwy na dau berson dan amheuaeth gyda'i gilydd mewn un rhes adnabod a phan gynhelir rhesi adnabod ar wahân, dylent gynnwys pobl wahanol.
10. Os oes gan y sawl sydd dan amheuaeth nodwedd gorfforol anghyffredin, e.e. craith ar yr wyneb, tatŵ neu steil neu liw gwallt na ellir ei atgynhyrchu ar aelodau eraill o'r rhes adnabod, gellir cymryd camau i guddio lleoliad y nodwedd honno ar y sawl sydd dan amheuaeth a'r aelodau eraill o'r rhes adnabod os yw'r sawl sydd dan amheuaeth a'i gyfreithiwr, neu oedolyn priodol,



yn cytuno. Er enghraifft, trwy ddefnyddio plastr neu het, fel bod pob aelod o'r rhes adnabod yn ymdebygu i'w gilydd.

11. Pan fo posibilrwydd fod pob aelod o grŵp tebyg dan amheuaeth, bydd rhes adnabod wahanol yn cael ei chynnal ar gyfer pob un oni bai fod dau berson cymharol debyg dan amheuaeth. Mewn achos o'r fath gallant fod mewn rhes gyda'i gilydd gydag o leiaf ddeuddeg o bobl eraill nad ydynt dan amheuaeth. Pan fo swyddogion heddlu mewn iwniform yn ffurfio rhes adnabod rhaid cuddio unrhyw rifau neu fathodynau adnabod.
12. Wedi dod â'r sawl sydd dan amheuaeth i'r man lle mae'r rhes adnabod i gael ei chynnal, fe ofynnir iddo a oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r trefniadau ar gyfer y rhes adnabod neu unrhyw un sy'n cymryd rhan ynddi ac i nodi'r rhesymau dros y gwrthwynebiad. Gall y sawl sydd dan amheuaeth ofyn cyngor gan ei gyfreithiwr neu ffrind, os yn bresennol, cyn cynnal y rhes adnabod. Os oes gan y sawl sydd dan amheuaeth wrthwynebiad rhesymol i'r trefniadau neu unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y rhes adnabod, bydd camau'n cael eu cymryd, os yw hynny'n ymarferol, i gael gwared ar y seiliau dros wrthwynebu. Os nad yw hi'n ymarferol i wneud hynny, bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn cael gwybod pam na ellir ymateb i'w wrthwynebiad a bydd y gwrthwynebiad, y rhesymau dros y gwrthwynebiad a phan na ellir ymateb iddo, yn cael eu cofnodi ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas.
13. Gall y sawl sydd dan amheuaeth ddewis ei safle ei hun yn y rhes, ond ni all ymyrryd fel arall â threfn y bobl sy'n ffurfio'r rhes. Pan fo mwy nag un tyst, rhaid dweud wrth y sawl sydd dan amheuaeth, ar ôl i bob tyst adael yr ystafell, y gall newid ei safle yn y rhes. Rhaid rhoi pob safle yn y rhes yn glir, un ai trwy osod rhif ar y llawr o flaen pob aelod o'r rhes adnabod neu trwy ddull arall.
14. Cyn i dystion fynychu'r rhes adnabod, rhaid gwneud trefniadau priodol i sicrhau na allant:
  - (i) gyfathrebu â'i gilydd ynghylch yr achos na chlywed tyst sydd eisoes wedi gweld y rhes adnabod;
  - (ii) weld unrhyw aelod o'r rhes adnabod;
  - (iii) weld, na chael eu hatgoffa o, unrhyw lun neu ddisgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth na chael unrhyw arwydd arall a pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth; neu
  - (iv) weld y sawl sydd dan amheuaeth cyn nac ar ôl y rhes adnabod.
15. Ni ddylai'r person sy'n tywys tyst i res adnabod drafod cyfansoddiad y rhes adnabod gyda'r tyst ac, yn arbennig, ni ddylai ddatgelu a yw tyst blaenorol wedi adnabod rhywun neu beidio.
16. Bydd tystion yn cael eu tywys i mewn fesul un. Yn syth cyn i dyst archwilio'r rhes adnabod dywedir wrtho y gall y person a welwyd ganddo ar achlysur blaenorol penodol fod yn bresennol, neu beidio â bod yn bresennol, ac os na all adnabod rhywun yn bendant dylai ddweud hynny. Rhaid dweud wrth y tyst hefyd na ddylai wneud unrhyw benderfyniad ynghylch presenoldeb y sawl a welwyd ganddo yn y rhes adnabod nes ei fod wedi edrych ar bob aelod o leiaf ddwywaith.
17. Pan fo'r swyddog neu staff yr heddlu (gweler *paragraff 3.11*) sy'n cynnal y rhes adnabod yn fodlon fod y tyst wedi edrych yn iawn ar bob aelod o'r rhes adnabod, bydd yn gofyn i'r tyst a yw'r person a welwyd ganddo ar achlysur blaenorol penodol yn y rhes adnabod ac, os felly, i nodi rhif y person dan sylw, gweler *paragraff 28*.
18. Os yw'r tyst yn dymuno clywed unrhyw aelod o'r rhes adnabod yn siarad, yn cymryd osgo neu'n symud mewn modd arbennig, fe ofynnir iddo yn gyntaf a all adnabod unrhyw berson(au) yn y rhes adnabod ar sail ymddangosiad yn unig. Pan wneir cais i glywed aelodau o'r rhes adnabod yn siarad, fe atgoffir y tyst fod aelodau'r rhes adnabod wedi eu dewis ar sail ymddangosiad yn unig. Yna fe ellir gofyn i aelodau'r rhes adnabod gydymffurfio â chais y tyst am gael eu clywed yn siarad, eu gweld yn symud neu gymryd osgo arbennig.
19. Os bydd y tyst yn gofyn i'r person a ddynodwyd ganddynt ddiog unrhyw beth a ddefnyddir ar gyfer dibenion *paragraff 10* i guddio lleoliad nodwedd gorfforol anghyffredin, fe ellir gofyn i'r person hwnnw ei ddiog.
20. Os bydd y tyst yn adnabod rhywun wedi i'r rhes adnabod gael ei chynnal, bydd y sawl sydd dan amheuaeth a'i gyfreithiwr, ffrind neu oedolyn priodol, os yn bresennol, yn cael eu hysbysu o hynny. Pan fo hyn yn digwydd, dylid ystyried caniatáu ail gyfle i'r tyst adnabod y sawl sydd dan

amheuaeth.

- 21 Wedi'r weithdrefn, mae camau sy'n ofynnol yn unol â [pharagraff 3.40](#) yn berthnasol.
22. Wedi i'r tyst olaf adael, fe ofynnir i'r sawl sydd dan amheuaeth a yw eisiau gwneud unrhyw sylwadau ynghylch y modd y cynhaliwyd y rhes adnabod.

**(d) Dogfennaeth**

23. Fel arfer dylid gwneud cofnod fideo o'r rhes adnabod. Os nad yw hyn yn ymarferol, dylid tynnu llun lliw o'r rhes adnabod. Bydd copi o'r fideo neu lun yn cael ei roi i'r sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr o fewn amser rhesymol.
24. Fel sy'n briodol, dylai [paragraff 3.30 neu 3.31](#), fod yn berthnasol i unrhyw lun neu fideo a gymerwyd ym [mharagraff 23](#).
25. Os gofynnir i unrhyw berson adael rhes adnabod oherwydd ei fod yn amharu ar y modd y mae'n cael ei gynnal, bydd yr amgylchiadau'n cael eu cofnodi.
26. Rhaid gwneud cofnod o enwau pawb sy'n bresennol yn y rhes adnabod y mae eu henwau yn hysbys i'r heddlu.
27. Os bydd carcharorion yn rhan o'r rhes adnabod rhaid gwneud cofnod o'r amgylchiadau.
28. Rhaid gwneud cofnod o'r modd y cynhaliwyd unrhyw res adnabod ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beth a ddywedwyd gan y tyst neu'r sawl sydd dan amheuaeth am unrhyw adnabod neu'r modd y cynhaliwyd y dull adnabod, ac unrhyw resymau pan nad oedd yn ymarferol cydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Cod hwn.

**ATODIAD C ADNABOD MEWN GRŴP****(a) Cyffredinol**

1. Pwrpas yr Atodiad hwn yw gwneud yn siŵr, cyn belled â phosibl, fod adnabod mewn grŵp yn dilyn yr egwyddorion a'r gweithdrefnau ar gyfer rhesi adnabod fel bo'r amodau'n deg i'r sawl sydd dan amheuaeth yn y modd y maent yn profi gallu adnabod y tyst.
2. Gall adnabod mewn grŵp ddigwydd un ai gyda chaniatâd a chydweithrediad y sawl sydd dan amheuaeth neu yn y dirgel heb ei ganiatâd.
3. Mater i'r swyddog adnabod yw lleoliad yr adnabod mewn grŵp, er y gall y swyddog roi ystyriaeth i unrhyw achos a gyflwynir gan y sawl sydd dan amheuaeth, oedolyn priodol, ei gyfreithiwr neu ffrind.
4. Dylai'r man lle cynhelir yr adnabod mewn grŵp fod yn rhywle mae pobl eraill un ai'n mynd trwyddo neu'n aros mewn modd anffurfiol, mewn grwpiau fel y gall y sawl sydd dan amheuaeth ymuno â hwy a chael ei weld gan y tyst ar yr un pryd ag eraill yn y grŵp. Er enghraifft, pobl yn gadael grisiau symudol, pobl yn cerdded trwy ganolfan siopa, teithwyr mewn gorsaf drenau neu fysiau, pobl yn aros mewn ciw neu grŵp neu'n sefyll neu eistedd mewn grwpiau mewn mannau cyhoeddus eraill.
5. Os yw adnabod mewn grŵp i gael ei gynnal yn y dirgel, bydd y dewis o leoliadau yn cael ei gyfyngu gan y mannau lle gellir canfod y sawl sydd dan amheuaeth a'r nifer o bobl eraill sy'n bresennol ar y pryd. Yn yr achosion hyn, gall lleoliadau addas fod ar y llwybrau y mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn eu teithio'n rheolaidd, yn cynnwys bysiau neu drenau neu fannau cyhoeddus y mae'r sawl sydd dan amheuaeth yn eu mynychu.
6. Er na all y swyddog adnabod reoli nifer, oed, rhyw, hil a disgrifiad cyffredinol a steil dillad y bobl eraill sy'n bresennol yn y lleoliad, wrth ddewis y lleoliad rhaid i'r swyddog ystyried ymddangosiad cyffredinol a nifer y bobl sy'n debyg o fod yn bresennol. Yn arbennig, fe ddylai'r swyddog ddisgwyl yn rhesymol y bydd y tyst, wrth wyllo'r grŵp dros gyfnod o amser, yn gallu gweld, o bryd i'w gilydd, nifer o bobl eraill sy'n gymharol debyg o ran ymddangosiad i'r sawl sydd dan amheuaeth.
7. Ni fydd rhaid cynnal adnabod mewn grŵp os yw'r swyddog adnabod yn credu, oherwydd ymddangosiad anghyffredin y sawl sydd dan amheuaeth, nad oes yr un o'r lleoliadau sy'n ymarferol i'w defnyddio, yn bodloni'r amodau ym *pharagraff 6* sy'n angenrheidiol i wneud yr adnabod yn deg.
8. Yn syth wedi i'r dull adnabod gael ei gynnal (gyda neu heb ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth), dylid tynnu llun lliw neu wneud fideo o'r olygfa gyffredinol, os yw hynny'n ymarferol, er mwyn cael argraff gyffredinol o'r olygfa a nifer y bobl sy'n bresennol. Fel arall, os yw hynny'n ymarferol, gellir gwneud fideo o'r adnabod mewn grŵp.
9. Os nad ydyw yn ymarferol tynnu llun neu wneud fideo yn unol â *pharagraff 8*, dylid tynnu llun neu wneud ffilm o'r olygfa yn nes ymlaen ar adeg a benderfynir gan y swyddog adnabod os yw'n credu ei bod yn ymarferol i wneud hynny.
10. Bydd dull adnabod a gafodd ei gynnal yn unol â'r Cod hwn yn aros yn adnabod mewn grŵp er bod y sawl sydd dan amheuaeth, ar yr adeg y cafodd ei weld gan y tyst, ar ei ben ei hun yn hytrach nag mewn grŵp.
11. Cyn y bydd adnabod mewn grŵp yn cael ei gynnal, bydd y sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr yn cael manylion am y disgrifiad cyntaf o'r sawl sydd dan amheuaeth gan unrhyw dystion sydd i'w fynychu'r adnabod. Pan fydd darllediad neu gyhoeddiad yn cael ei wneud, fel ym *pharagraff 3.38(a)*, rhaid caniatáu hefyd i'r sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr weld unrhyw ddeunydd a rhyddheir i'r cyfryngau gan yr heddlu gyda'r bwriad o adnabod neu ganfod y sawl sydd dan amheuaeth, cyn belled â bod hynny'n ymarferol ac na fyddai'n oedi'r ymchwilid yn ormodol.
12. Wedi'r weithdrefn, mae camau sy'n ofynnol yn unol â *pharagraff 3.40* yn berthnasol.

**(b) Adnabod heb ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth**

13. Rhaid rhoi cyfle rhesymol i'r sawl sydd dan amheuaeth gael cyfreithiwr neu ffrind yn bresennol. Gofynnir iddo ddynodi ar ail gopi o'r hysbysiad a yw'n dymuno gwneud hynny ai peidio.
14. Gellir cuddio'r tyst, y person sy'n cynnal y dull adnabod a chyfreithiwr, oedolyn priodol, ffrind neu unrhyw gyfieithydd i'r tyst o olwg yr unigolion yn y grŵp y mae'n ei wlyio, os yw'r person sy'n cynnal y dull adnabod yn credu y byddai hyn o gymorth i'r adnabod.
15. Rhaid i'r person sy'n tywys tyst i adnabod mewn grŵp beidio â thrafod yr adnabod mewn grŵp gyda'r tyst ac ni ddylai'n arbennig ddatgelu a oes tyst blaenorol wedi llwyddo i adnabod rhywun.
16. Dylai unrhyw beth a ddywedir wrth, neu gan, y tyst yn ystod y dull adnabod gael ei ddweud ym mhresenoldeb ac yng nghlyw y rhai sy'n bresennol yn yr adnabod.
17. Cyn i dystion fynychu'r adnabod mewn grŵp, rhaid gwneud trefniadau priodol i sicrhau na allant:
  - (i) gyfathrebu â'i gilydd ynghylch yr achos na chlywed tyst sydd eisoes wedi cael cyfle i weld y sawl sydd dan amheuaeth mewn grŵp;
  - (ii) weld y sawl sydd dan amheuaeth; neu
  - (iii) weld, na chael eu hatgoffa o, unrhyw luniau neu ddisgrifiad o'r sawl sydd dan amheuaeth na chael unrhyw arwydd arall o bwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth.
18. Bydd tystion yn cael eu tywys fesul un i'r man lle maent i weld y grŵp. Yn syth cyn gofyn i dyst edrych ar y grŵp, bydd y person sy'n gyfrifol am y dull adnabod yn dweud wrtho y gall y person a welwyd ganddo fod yn bresennol, neu beidio â bod yn bresennol, ac os na all adnabod rhywun yn bendant dylai ddweud hynny. Gofynnir i'r tyst edrych ar y grŵp y mae'r sawl sydd dan amheuaeth i ymddangos ynddo. Bydd y modd mae'r tyst yn gwneud hyn yn dibynnu a yw'r grŵp yn un symudol neu lonydd.

**Grŵp sy'n symud**

19. Pan fo'r grŵp y mae'r sawl sydd dan amheuaeth i ymddangos ynddo yn symud, e.e., yn gadael grisiau symudol, dylid dilyn darpariaethau *paragraffau 20 i 24*.
20. Os bydd dau neu fwy o bersonau dan amheuaeth yn cytuno i gael eu hadnabod mewn grŵp, dylai pob un gymryd rhan mewn dull adnabod ar wahân. Gellir cynnal y rhain ar ôl ei gilydd ar yr un achlysur.
21. Bydd y sawl sy'n cynnal y dull adnabod yn dweud wrth y tyst i edrych ar y grŵp ac yn gofyn iddo ddynodi unrhyw berson mae'n meddwl iddo ei weld ar achlysur blaenorol penodol.
22. Unwaith y bydd tyst wedi ei hysbysu fel ym *mharagraff 21* dylid caniatáu i'r sawl sydd dan amheuaeth gymryd unrhyw safle mae'n ei dymuno o fewn y grŵp.
23. Pan fo tyst yn dynodi person fel ym *mharagraff 21* gofynnir iddo, os yw hynny'n ymarferol, i edrych yn agosach ar y person er mwyn cadarnhau'r adnabod. Os nad yw hyn yn ymarferol, neu os na all gadarnhau'r adnabod, fe ofynnir iddo pa mor sicr yw mai'r person a ddynodwyd ganddo yw'r person perthnasol.
24. Dylai'r tyst barhau i edrych ar y grŵp am y cyfnod mae'r person sy'n cynnal y dull adnabod yn credu sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau i'w alluogi i wneud cymariaethau rhwng y sawl sydd dan amheuaeth ac unigolion eraill sy'n gymharol debyg o ran ymddangosiad i'r sawl sydd dan amheuaeth fel ym *mharagraff 6*.

**Grwpiau llonydd**

25. Pan fo'r grŵp mae'r sawl sydd dan amheuaeth i ymddangos ynddo yn llonydd, e.e. pobl yr aros mewn ciw, dylid dilyn darpariaethau *paragraffau 26 i 29*.
26. Os bydd dau neu fwy o bersonau dan amheuaeth yn cytuno i gael eu hadnabod mewn grŵp, dylai pob un gymryd rhan mewn dull adnabod ar wahân os nad ydynt yn gymharol debyg o ran ymddangosiad pryd y gallant ymddangos yn yr un grŵp. Pan gynhelir grwpiau adnabod ar wahân, dylai'r grwpiau gynnwys pobl wahanol.
27. Gall y sawl sydd dan amheuaeth gymryd unrhyw safle mae'n ei dymuno o fewn y grŵp. Os oes mwy nag un tyst, rhaid dweud wrth y sawl sydd dan amheuaeth, o olwg a chlyw unrhyw dystion, y gall, os yw'n dymuno, newid ei safle o fewn y grŵp.

28. Gofynnir i'r tyst gerdded heibio i'r grŵp, neu ymysg y grŵp, ac edrych ar bob person yn y grŵp o leiaf ddwywaith, gan gymryd cymaint o ofal ac amser â phosibl yn ôl yr amgylchiadau, cyn adnabod rhywun. Unwaith y bo'r tyst wedi gwneud hyn, fe ofynnir iddo a yw'r person a welwyd ganddo ar achlysur blaenorol penodol yn y grŵp ac i ddynodi unrhyw berson o'r fath trwy unrhyw ddull mae'r person sy'n cynnal y dull adnabod yn ei ystyried yn addas yn yr amgylchiadau. Os nad yw hyn yn ymarferol, fe ofynnir i'r tyst ddynodi unrhyw berson mae'n feddwl iddo ei weld ar achlysur blaenorol.
29. Pan fo tyst yn dynodi person fel ym *mharagraff 28*, gwneir trefniadau, os yw hynny'n ymarferol, i'r tyst edrych yn agosach ar y person er mwyn cadarnhau'r adnabod. Os nad yw hyn yn ymarferol, neu os na all y tyst gadarnhau'r adnabod, fe ofynnir iddo pa mor sicr yw mai'r person a ddynodwyd ganddo yw'r person perthnasol.

**Pob achos**

30. Os bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn oedi'n ormodol cyn ymuno â'r grŵp, neu ar ôl ymuno â'r grŵp, yn cuddio ei hun yn fwriadol o olwg y tyst, fe ellir trin hyn fel amharodrwydd i gydweithredu ag adnabod mewn grŵp.
31. Os bydd tyst yn adnabod person gwahanol i'r sawl sydd dan amheuaeth, dylid hysbysu'r person o'r hyn sydd wedi digwydd a gofyn a yw'n barod i roi ei enw a'i gyfeiriad. Nid oes rheidrwydd ar unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n bresennol i roi'r manylion hyn. Nid oes dyletswydd i gofnodi manylion unrhyw aelod arall o'r cyhoedd sy'n bresennol yn y grŵp neu yn y man lle mae'r dull adnabod yn cael ei gynnal.
32. Pan fo'r adnabod mewn grŵp wedi ei gwblhau, fe ofynnir i'r sawl sydd dan amheuaeth a yw'n dymuno gwneud unrhyw sylwadau ynghylch y modd y cynhaliwyd y dull adnabod.
33. Os nad yw'r sawl sydd dan amheuaeth eisoes wedi ei hysbysu, bydd yn cael gwybod am unrhyw adnabod a wnaed gan y tystion.

**(c) Adnabod heb ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth**

34. Dylai adnabod mewn grŵp a gynhelir yn y dirgel heb ganiatâd y sawl sydd dan amheuaeth ddilyn, cyn belled â phosibl, y rheolau ar gyfer cynnal adnabod mewn grŵp gyda chaniatâd.
35. Nid oes gan y sawl sydd dan amheuaeth hawl i gael cyfreithiwr, oedolyn priodol na ffrind yn bresennol oherwydd bydd yr adnabod yn digwydd yn ddarwybod i'r sawl sydd dan amheuaeth.
36. Gellir adnabod unrhyw nifer o bobl dan amheuaeth ar yr un pryd.

**(d) Adnabod mewn gorsafodd heddlu**

37. Ni ddylid ond cynnal adnabod mewn grŵp mewn gorsaf heddlu am resymau diogelwch neu oherwydd nad yw'n ymarferol i'w gynnal yn rhywle arall.
38. Gall yr adnabod mewn grŵp ddigwydd mewn ystafell sy'n cynnwys sgrin sy'n caniatáu i dystion weld aelodau o'r grŵp heb gael eu gweld, neu unrhyw le arall yn yr orsaf heddlu a ystyrir yn addas gan y swyddog adnabod.
39. Dylid dilyn unrhyw un o'r mesurau diogelwch ychwanegol sy'n berthnasol i resi adnabod os yw'r swyddog adnabod yn credu ei bod yn ymarferol i wneud hynny yn yr amgylchiadau.

**(e) Adnabod sy'n cynnwys carcharorion**

40. Ni ellir ond trefnu adnabod mewn grŵp sy'n cynnwys carcharor yn y carchar neu mewn swyddfa heddlu.
41. Pan fo adnabod mewn grŵp yn cynnwys carcharor, boed hynny mewn carchar neu swyddfa heddlu, dylai'r trefniadau ddilyn y rhai ym *mharagraffau 37 i 39*. Os bydd adnabod mewn grŵp yn digwydd o fewn carchar, gall carcharorion eraill gymryd rhan. Os mai carcharor yw'r sawl sydd dan amheuaeth, nid oes raid iddo wisgo dillad carchar os nad yw'r gweddill sy'n cymryd rhan yn gwisgo'r un dillad.

**(f) Dogfennaeth**

42. Pan dynnir llun neu fideo fel ym *mharagraff 8 neu 9*, bydd copi o'r llun neu fideo yn cael ei roi i'r sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr o fewn amser rhesymol i wneud y cais.

D

43. Fel sy'n briodol, bydd *paragraff 3.30 neu 3.31* yn berthnasol pan fo'r llun neu ffilm a gymerwyd yn unol â *pharagraff 8 neu 9* yn cynnwys y sawl sydd dan amheuaeth.
44. Rhaid gwneud cofnod o'r modd y cynhaliwyd unrhyw adnabod mewn grŵp ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beth a ddywedwyd gan y tyst neu'r sawl sydd dan amheuaeth am unrhyw adnabod neu'r modd y cynhaliwyd y dull adnabod, ac unrhyw resymau pan nad ydoedd yn ymarferol i gydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Cod hwn sy'n rheoli'r modd y cynhelir y dull o adnabod mewn grŵp.

## ATODIAD D CYFWYNEBIAD GAN DYST

1. Cyn i'r cyfwynebiad ddigwydd, rhaid dweud wrth y tyst y gall y person y mae i ddod wyneb yn wyneb ag ef fod, neu beidio â bod, y person a welwyd ganddo ac os nad ef yw'r person hwnnw, dylai'r tyst ddweud hynny.
2. Cyn i'r cyfwynebiad ddigwydd bydd y sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr yn cael manylion y disgrifiad cyntaf o'r sawl sydd dan amheuaeth a roddwyd gan unrhyw dyst sydd i fynychu'r cyfwynebiad. Pan wneir darllediad neu gyhoeddiad, fel ym *mharagraff 3.38(a)*, dylid caniatáu hefyd i'r sawl sydd dan amheuaeth neu ei gyfreithiwr weld unrhyw ddeunydd a ryddheir i'r cyfryngau gyda'r bwriad o adnabod neu ganfod y sawl sydd dan amheuaeth, cyn belled â bod gwneud hynny'n ymarferol ac na fyddai'n oedi'r ymchwiliad yn ormodol.
3. Ni ddylid defnyddio grym i ddangos wyneb y sawl sydd dan amheuaeth i'r tyst.
4. Rhaid i gyfwynebiad ddigwydd ym mhresenoldeb cyfreithiwr y sawl sydd dan amheuaeth, cyfleithydd neu ffrind os na fyddai hynny'n oedi'r ymchwiliad yn ormodol.
5. Bydd y sawl sydd dan amheuaeth yn dod wyneb yn wyneb â phob tyst ar wahân. Gofynnir i'r tystion "Ai hwn yw'r person?". Os bydd y tyst yn adnabod person ond yn methu cadarnhau'r adnabod, fe ofynnir iddo pa mor siŵr yw mai'r person yw'r un a welwyd ganddo ar achlysur blaenorol penodol.
6. Fel arfer dylai'r cyfwynebiad ddigwydd mewn gorsaf heddlu, un ai mewn ystafell gyffredin neu un wedi ei chyflenwi â sgrin sy'n caniatáu i'r tyst weld y sawl sydd dan amheuaeth heb gael ei weld. Yr un yw'r gweithdrefnau yn y ddau achos, ac eithrio na ellir ond defnyddio ystafell gyda sgrin pan fo cyfreithiwr neu ffrind i'r sawl sydd dan amheuaeth neu oedolyn priodol yn bresennol neu fod y cyfwynebiad yn cael ei gofnodi ar fideo.
7. Wedi'r weithdrefn, mae camau sy'n ofynnol yn unol â [pharagraff 3.40](#) yn berthnasol.

## ATODIAD E DANGOS LLUNIAU I DYSTION

### (a) Gweithredu

1. Bydd swyddog o reng rhingyll neu uwch yn gyfrifol am oruchwylio a chyfarwyddo dangos y lluniau. Gall y dangos gael ei wneud gan swyddog arall neu aelod o staff yr heddlu, gweler *paragraff 3.11*.
2. Rhaid i'r swyddog goruchwyliol gadarnhau fod y disgrifiad cyntaf a roddwyd gan y tyst o'r sawl sydd dan amheuaeth wedi ei gofnodi cyn dangos y lluniau iddo. Os na all y swyddog goruchwyliol gadarnhau fod y disgrifiad wedi ei gofnodi bydd dangos y lluniau yn cael ei ohirio.
3. Ni ddangosir lluniau ond i un tyst ar y tro. Rhoddir cymaint o breifatrwydd ag sy'n ymarferol i bob tyst ac ni chaniateir iddynt gyfathrebu â thystion eraill yn yr achos.
4. Ni ddangosir llai na deuddeg llun ar y tro i'r tyst a chyn belled â phosibl byddant i gyd o'r un math.
5. Pan ddangosir lluniau i'r tyst, fe ddywedir wrtho y gall y llun o'r person a welwyd ganddo fod, neu beidio â bod, yn eu mys ac os na all adnabod rhywun yn bendant dylai ddweud hynny. Fe ddywedir wrth y tyst hefyd na ddylai ddod i benderfyniad nes ei fod wedi gweld o leiaf ddeuddeg llun. Ni fydd y tyst yn cael ei annog na'i arwain mewn unrhyw ffordd ond yn cael ei adael i benderfynu heb unrhyw gymorth.
6. Os bydd tyst yn adnabod rhywun yn bendant o luniau, ni ddangosir lluniau i dystion eraill oni bai fod y person a gafodd ei adnabod wedi ei ddileu o'r ymchwiliad neu ddim ar gael. Ond dylid gofyn iddynt hwy, a'r tyst sydd wedi adnabod rhywun, fynychu adnabod trwy fideo, rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp oni bai fod dim amheuaeth ynghylch pwy yw'r sawl sydd dan amheuaeth.
7. Os bydd tyst yn dewis rhywun ond yn methu cadarnhau'r adnabod, bydd y person sy'n dangos y lluniau yn gofyn iddo pa mor sicr yw mai'r llun a ddynodwyd ganddynt yw'r person a welwyd ganddo ar achlysur blaenorol penodol.
8. Pan fo defnydd o ddelwedd gyfrifiadurol neu argraff gyfansawdd gan artist neu lun neu ddelwedd debyg wedi arwain at amau person y gellir gofyn iddo gymryd rhan mewn adnabod trwy fideo, ymddangos mewn rhes adnabod mewn adnabod mewn grŵp, ni ddangosir y ddelwedd neu lun i dystion posibl eraill.
9. Pan fo tyst sy'n mynychu adnabod trwy fideo, rhes adnabod neu adnabod mewn grŵp eisoes wedi gweld lluniau neu ddelweddau cyfrifiadurol neu argraff gyfansawdd gan artist neu lun neu ddelwedd debyg (a chyfrifoldeb y swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad yw rhoi gwybod hyn i'r swyddog adnabod), rhaid hysbysu'r sawl sydd dan amheuaeth a'i gyfreithiwr o'r ffaith cyn i'r dull adnabod gael ei gynnal.
10. Ni fydd yr un o'r lluniau a ddangosir yn cael ei ddiarpryo, boed rhywun yn cael ei adnabod neu beidio, oherwydd fe ellir gofyn amdanynt mewn llys. Bydd y lluniau'n cael eu rhifo a llun ar wahân yn cael ei gymryd o'r ffrâm neu ran o'r albwm y bu i'r tyst adnabod ohono fel cymorth tuag at ei ail-greu.

### (b) Dogfennaeth

11. Os bydd rhywun yn cael ei adnabod neu beidio, fe wneir cofnod o ddangos y lluniau ar ffurflenni a ddarparwyd ar gyfer y pwrpas. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beth a ddywedir gan y tyst am unrhyw adnabod neu'r modd y cafodd y dull adnabod ei gynnal, unrhyw resymau pam nad ydoedd yn bosibl dyymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Cod hwn sy'n rheoli dangos lluniau ac enw a rheng y swyddog goruchwyliol.
12. Bydd y swyddog goruchwyliol yn archwilio a llofnodi'r cofnod cyn gynted â phosibl.



## ATODIAD F OLION BYSEDD, OLION ESGIDIAU A SAMPLAU – DINISTRIO A CHWILIADAU DYFALIADOL

### Rhan A: Olion bysedd a samplau

Mae paragraffau 1 i 12 yn crynhoi a diweddarau gwybodaeth sydd ar gael ar:

<https://www.gov.uk/government/publications/protection-of-freedoms-act-2012-dna-and-fingerprint-provisions/protection-of-freedoms-act-2012-how-dna-and-fingerprint-evidence-is-protected-in-law>

### Samplau DNA

1. Mae sampl DNA yn ddeunydd biolegol unigolyn, sy'n cynnwys ei holl wybodaeth enetig. Mae'r Ddeddf yn gofyn am ddiinstrio pob sampl DNA o fewn 6 mis i'w gymryd. Mae hyn yn caniatáu digon o amser i'r sampl gael ei ddadansoddi a chreu proffil DNA i'w ddefnyddio ar y gronfa ddata.
2. Yr unig eithriad i hyn yw os bydd angen neu os gall fod angen i'r sampl gael ei ddatgelu fel tystiolaeth, ac felly gellir ei gadw am ba bynnag hyd ag y mae'r angen hwn yn bodoli dan y Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996.

### Proffiliau DNA ac olion bysedd

3. Mae proffil DNA yn cynnwys edefyn o 16 pâr o rifau a 2 lythrenn (XX i fenywod, XY i ddynion) i ddynodi rhyw. Mae'r edefyn rhifau yma yn cael ei storio ar y Gronfa Ddata DNA Genedlaethol (NDNAD). Mae'n galluogi adnabod rhywun os yw'n gadael ei DNA mewn safle trosedd.
4. Fel arfer bydd olion bysedd yn cael eu sganio'n electronig oddi ar yr unigolyn yn y ddaifa a'r delweddau yn cael eu storio ar IDENT1, y gronfa ddata olion bysedd genedlaethol.

### Cyfnodau Dargadw: Olion bysedd a phroffiliau DNA

5. Mae'r cyfnod dargadw yn ddiabynnol ar ganlyniad yr ymchwiliad o'r trosedd cofnodadwy y cymerwyd yr olion bysedd a samplau DNA mewn cysylltiad â nhw, oed y person pan gyflawnwyd y trosedd ac os yw'r trosedd cofnodadwy yn drosedd cymwys ac os yw'n drosedd eithredig (Gweler *Nodiadau (a) i (c) y Tabl*), fel a ganlyn:

#### Tabl – Cyfnodau dargadw

##### (a) Euogfarnau

Oed pan gyflawnwyd y drosedd	Canlyniad	Cyfnod Dargadw
Unrhyw oed	Collfarnwyd neu dderbyn rhybudd neu rybudd ieuentid am drosedd cofnodadwy sydd hefyd yn drosedd gymwys	AMHENODOL
18 oed neu drosodd	Collfarnwyd neu dderbyn rhybudd am drosedd cofnodadwy NAD yw'n drosedd gymwys	AMHENODOL
Dan 18	Collfarnwyd neu dderbyn rhybudd ieuentid am drosedd cofnodadwy NAD yw'n drosedd gymwys.	Collfarn 1af neu rybudd ieuentid – 5 mlynedd plws hyd unrhyw ddeddfryd o garchar. Amhenodol os yw'r ddeddfryd o garchar yn 5 mlynedd neu fwy 2il gollfarn neu rybudd ieuentid: Amhenodol

**(b) Dim collfarn**

Oed pan gyflawnwyd y drosedd	Canlyniad	Cyfnod Dargadw
Unrhyw oed	Cyhuddwyd ond ni chollfarnwyd o drosedd gofnodadwy gymwys.	3 mlynedd plws estyniad o 2 flynedd os caniateir gan Farnwr Dosbarth (neu amhenodol os oes gan yr unigolyn gollfarn flaenorol am drosedd gofnodadwy nad yw wedi ei eithrio)
Unrhyw oed	Arestwyd ar gyfer, ond ni chyhuddwyd o drosedd gofnodadwy gymwys	3 mlynedd os rhoddwyd gan y Comisiynydd Biometreg plws estyniad o 2 flynedd os caniateir gan Farnwr Dosbarth (neu amhenodol os oes gan yr unigolyn gollfarn flaenorol am drosedd gofnodadwy nad yw wedi ei heithrio)
Unrhyw oed	Arestwyd ond ni chyhuddwyd o drosedd gofnodadwy nad yw'n drosedd gymwys.	Amhenodol os oes gan y person gollfarn flaenorol am drosedd gofnodadwy nad yw wedi ei heithrio, fel arall DIM DARGADW)
18 oed neu drosodd	Derbyn Hysbysiad Cosb am Anrhefn ar gyfer trosedd gofnodadwy	2 flynedd

**Nodiadau Tabl:**

- (a) Mae trosedd 'gofnodadwy' yn un ble mae'n ofynnol i'r heddlu gadw cofnod. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn droseddau sydd â dedfryd o garchar, ond mae hefyd yn cynnwys nifer o droseddau ble nad oes dedfryd o garchar megis cardota neu dowtio fel tacsî. Ni all yr heddlu gasglu na chadw DNA nac olion bysedd unigolyn sy'n cael ei arestio am drosedd nad yw'n gofnodadwy.
- (b) Mae trosedd 'gymwys' yn drosedd a restrir dan adran 65A Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (mae'r rhestr yn cynnwys troseddau rhywiol, treisgar, terfysgaeth a bwrgleriaeth).
- (c) Mae trosedd 'eithriedig' yn drosedd gofnodadwy nad yw'n drosedd gymwys, a gyflawnwyd pan oedd yr unigolyn dan 18, a ble derbyniodd ddedfryd o lai na 5 mlynedd o garchar ac mai dyma'r unig drosedd gofnodadwy y mae'r person wedi ei gollfarnu ohoni

**Chwiliadau dyfaliadol**

6. Ble mae'r fframwaith dargadw uchod yn gofyn am ddileu proffil DNA ac olion bysedd person, mae'r Ddeddf yn gyntaf yn caniatáu ar gyfer chwiliad dyfaliadol o'i DNA ac olion bysedd yn erbyn DNA ac olion bysedd a gasglwyd o safleoedd trosedd sydd wedi eu storio ar NDNAD ac IDENT1. Wedi cwblhau chwiliad dyfaliadol, bydd y proffil ac olion bysedd yn cael eu dileu oni bai fod yna bariad, ac os felly fe'i cedwir ar gyfer hyd unrhyw ymchwiliad ac yn dilyn hynny yn unol â'r fframwaith dargadw (e.e. os arweiniodd yr ymchwiliad hwnnw at gollfarn am drosedd gymwys, byddent yn cael eu cadw'n amhenodol).

### Estyniadau i'r cyfnod dargadw

7. Ar gyfer troseddau cymwys, mae PACE yn caniatáu i brif gwnstabiailid ymgeisio am estyniadau i'r cyfnodau dargadw ar gyfer proffiliau DNA ac olion bysedd os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol i atal neu ganfod trosedd.
8. Sefydlodd adran 20 y Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 swyddfa annibynnol y Comisiynydd ar gyfer Dargadw a Defnyddio Deunydd Biometrig (y 'Comisiynydd Biometrig'). Am fanylion, gweler <https://www.gov.uk/government/organisations/biometrics-commissioner>.
9. Os bydd unigolyn yn cael ei arestio ar gyfer, ond nid ei gyhuddo o, drosedd gymwys, yna fel arfer bydd ei broffil DNA a chofnod olion bysedd yn cael eu dileu. Fodd bynnag, gall yr heddlu wneud cais i'r Comisiynydd Biometrig am ganiatâd i gadw ei broffil DNA a chofnod olion bysedd am gyfnod o 3 blynedd. Rhaid gwneud y cais o fewn 28 niwrnod i'r penderfyniad i beidio bwrw ymlaen ag erlyniad.
10. Os yw'r heddlu'n gwneud cais o'r fath, byddai'r Comisiynydd Biometrig yn gyntaf yn rhoi cyfle iddyn nhw a'r unigolyn sydd wedi ei arestio i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ac yna, gan ystyried ffactorau yn cynnwys oed a bregusrwydd dioddefwr (neu ddiodefwr) y drosedd honedig, a'i berthynas i'r sawl a amheuir, yn penderfynu a yw cadw yn briodol neu beidio.
11. Os wedi ystyried y cais mae'r Comisiynydd Biometrig yn penderfynu nad yw'n briodol dargadw, rhaid dinistrio'r proffil DNA a'r cofnod olion bysedd dan sylw.
12. Os yw'r Comisiynydd Biometrig yn cytuno i ganiatáu dargadw, bydd yr heddlu yn gallu dargadw proffil DNA a chofnod olion bysedd yr unigolyn hwnnw am gyfnod o 3 blynedd o ddyddiad casglu'r samplau. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, bydd yr heddlu yn gallu gwneud cais i Farnwr Dosbarth (Llysoedd Ynadon) am un estyniad o 2 flynedd i'r cyfnod dargadw. Os gwrthodir y cais, yna bydd rhaid i'r heddlu ddinistrio'r proffil DNA a'r cofnod olion bysedd.

### Rhan B: Olion esgidiau

13. Gellir cadw olion esgidiau a gymerir yn unol ag adran 61A PACE (gweler *paragraffau 4.16 i 4.21*) cyn belled ag y bydd yn angenrheidiol i ddibenion yn ymwneud ag atal neu ganfod trosedd, ymchwilio i drosedd neu gyflawni erlyniad.

### Rhan C: Olion bysedd, olion esgidiau a samplau a gymerir mewn cysylltiad ag ymchwiliad troseddol gan berson *nad yw dan amheuaeth* o gyflawni'r drosedd dan ymchwiliad i ddibenion dilead.

14. Pan gymerir olion bysedd, olion esgidiau neu samplau DNA gan berson mewn cysylltiad ag ymchwiliad a phan nad yw'r person dan amheuaeth o ymwneud â'r drosedd, gweler *Nodyn F1*, rhaid eu dinistrio cyn gynted â'u bod wedi cyflawni pwrpas eu cymryd oni bai:
  - (a) iddynt gael eu cymryd ar gyfer dibenion ymchwiliad i drosedd y cafwyd person yn euog ohoni; ac
  - (b) y cymerwyd olion bysedd, olion esgidiau neu samplau hefyd gan y person a ddyfarnwyd yn euog ar gyfer dibenion yr ymchwiliad hwnnw.

Fodd bynnag, yn unol â *paragraff 14*, ni ellir defnyddio'r olion bysedd, olion esgidiau neu samplau, na'r wybodaeth sy'n deillio o samplau, yn yr ymchwiliad i unrhyw drosedd nac fel tystiolaeth yn erbyn person sydd, neu a fyddai, â hawl i gael yr olion bysedd, olion esgidiau neu samplau wedi eu dinistrio, gweler *Nodyn F2*.
15. Nid yw'r angen i ddinistrio olion bysedd, olion esgidiau neu samplau DNA, a'r wybodaeth sy'n deillio o samplau, a'r cyfyngiadau ar eu cadw a'u defnydd ym *paragraff 14* yn berthnasol os yw'r person yn rhoi caniatâd ysgrifenedig i'w holion bysedd, olion esgidiau neu samplau gael eu cadw a'u defnyddio wedi iddynt gyflawni diben eu cymryd, gweler *Nodyn F1*. Gellir tynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg.
16. Pan fo olion bysedd neu samplau person i gael eu dinistrio:
  - (a) rhaid dinistrio hefyd unrhyw gopïau o'r olion bysedd ac olion esgidiau; a
  - (b) ni all yr olion bysedd, y samplau, nac unrhyw wybodaeth sy'n deillio ohonynt, gael eu defnyddio wrth archwilio i unrhyw drosedd neu fel tystiolaeth yn erbyn y person sydd, neu a fyddai, â hawl i'w cael wedi eu dinistrio.

## Nodiadau arweiniad

**F1** Mae gan olion bysedd, olion esgidiau a samplau a roddir yn wirfoddol at ddibenion dileu ran bwysig iawn mewn nifer o ymchwiliadau gan yr heddlu. O'r herwydd, mae'n bwysig iawn sicrhau nad yw gwirfoddolwyr dieuog yn cael eu dychryn rhag cymryd rhan a bod eu caniatâd i'w hollion bysedd, olion esgidiau a DNA gael eu defnyddio ar gyfer dibenion ymchwiliad penodol yn gwbl wybyddus a gwirfoddol. Os bydd yr heddlu neu wirfoddolwr am gadw olion bysedd, olion esgidiau neu sampl wedi i'r archwiliad penodol ddod i ben, mae'n bwysig fod caniatâd y gwirfoddolwr i hyn hefyd yn gwbl wybyddus a gwirfoddol. Rhaid rhoi gwybod i'r gwirfoddolwr y gall dynnu ei caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

Rhaid cael caniatâd ysgrifenedig yn defnyddio ffurflenni cyfredol y cytunwyd amynt yn genedlaethol i'r heddlu eu defnyddio i'r diben y rhoddir caniatâd ar ei gyfer. Gall y diben yma fod yn naill ai:

- DNA/olion bysedd/olion esgidiau - i'w defnyddio i ddibenion ymchwiliad penodol yn unig; neu
- DNA/olion bysedd/olion esgidiau - i'w defnyddio yn yr ymchwiliad penodol a'u dargadw gan yr heddlu i'w defnyddio yn y dyfodol.

I leihau'r perygl o ddryswch:

- os bydd gan swyddog yr heddlu neu aelod o staff yr heddlu unrhyw amheuaeth ynghylch:
- sut y dylid llenwi a llofnodi'r ffurflenni caniatâd; neu
- os yw ffurflen caniatâd maent yn bwriadu ei defnyddio a chyfeirio ati yn cydymffurfio'n llawn gyda'r ffurf gyfredol a gytunwyd yn genedlaethol,

dylid cysylltu â'r ddesg gymorth heddlu genedlaethol (ar gyfer DNA neu olion bysedd).

- ym mhob achos, dylid esbonio ystyr caniatâd ar lafar a chymryd gofal i sicrhau bod y disgrifiad llafar yn adlewyrchu cynnwys y ffurflen ysgrifenedig y mae gofyn i'r person ei llofnodi.

**F2** Mae'r darpariaethau ar gyfer cadw olion bysedd, olion esgidiau a samplau ym mharagraff 15 yn caniatáu i'r holl olion bysedd, olion esgidiau a samplau mewn achos fod ar gael ar gyfer unrhyw ymchwiliad camweinyddu cyfiawnder all ddigwydd yn ddiweddarach.

**ATODIAD G GOFYNIAD I BERSON FYNYCHU GORSAF HEDDLU AR GYFER OLION BYSEDD A SAMPLAU (PARAGRAFFAU 4.4, 6.2A A 6.6A).**

1. O ran gofyniad dan Atodlen 2A i berson fynychu gorsaf heddlu i gymryd ei olion bysedd neu samplau:
  - (a) rhaid rhoi cyfnod o saith niwrnod neu fwy i'r person fynychu'r orsaf heddlu; a
  - (b) gellir ei gyfarwyddo i fynychu ar amser penodedig o'r dydd neu o fewn amserau penodedig o'r dydd.
2. Wrth ddynodi cyfnod ac amserau'r presenoldeb, rhaid i'r swyddog sy'n gwneud y gofynion ystyried a ellid cymryd yr olion bysedd neu samplau yn rhesymol ar adeg pan fydd yn ofynnol i'r person fynychu'r orsaf heddlu am unrhyw reswm arall. Gweler *Nodyn G1*.
3. Gall swyddog o reng arolygydd neu uwch awdurdodi cyfnod byrrach na 7 niwrnod os oes yna angen brys ar gyfer olion bysedd neu sampl person i ddibenion ymchwil i drosedd. Rhaid cofnodi ffaith yr awdurdodiad a'r rhesymau dros ei roi cyn gynted ag sy'n ymarferol.
4. Gall y person sy'n gwneud y gofyniad a'r person y mae'n berthnasol iddo gytuno i'w amrywio i ddynodi unrhyw gyfnod, neu unrhyw ddyddiad neu amser, ble dylai'r person fynychu. Fodd bynnag, ni fydd yr amrywiad yn effeithiol i ddibenion gorfodi, oni bai ei fod yn cael ei gadarnhau gan y cwnstabl yn ysgrifenedig.

**Nodiadau arweiniad**

- G1 Nid oes rhaid i'r cyfnod dynodedig ble mae angen i'r person fynychu fod o fewn y cyfnod a ganiateir (os yn berthnasol) i wneud y gofyniad.*
- G2 I gyfiawnhau arestio rhywun heb warant nad yw'n cydymffurfio â gofyniad, (gweler paragraffau 4.4(b) a 6.7(b) uchod), dylai'r swyddog sy'n gwneud y gofyniad, neu'n cadarnhau amrywiad, fod yn barod i esbonio sut, pryd a ble y gwnaethpwyd y gofyniad neu y cafodd yr amrywiad ei gadarnhau a pha gamau a gymerwyd i sicrhau fod y person yn deall beth i'w wneud a goblygiadau peidio cydymffurfio gyda'r gofyniad.*